
~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

# ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 462 Chwefror 2018 Pris: 70c




# Galw am "newid radical" yn rôl Cynghorau Cymuned



Mae'r Cynghorydd Sion Jones, Bethel, wedi ysgrifennu at Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn nodi ei anfodlonrwydd â hawliau statudol Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref Cymru. Derbyniodd yr "Eco" gopi o'r llythyr a'r saith argymhelliad ynglŷn â newidiadau sylfaenol i rôl y Cynghorau Cymuned. Mae'n "credu'n gryf bod modd i Gynghorau Cymuned gymryd llawer mwy o gyfrifoldebau", er fod rhai o'r cyfrifoldebau y mae'n cyfeirio atynt yn rhai sydd ar hyn o bryd yn nwylo'r Llywodraeth neu'r Cynghorau Sirol a Bwrdeistrefol. Mae'n galw ar i'r Llywodraeth roi ystyriaeth ddifrifol i'r argymhellion "er sicrhau mwy o ffynniant o fewn ein cymunedau."

Mae crynodeb o'r saith argymhelliad ar dudalen 19. Mae'r "Eco" yn croesawu ymateb adeiladol, naill ai gan unigolion neu gan bedwar Cyngor Cymuned y fro.

# ECO'r Wyddfa

**RHIF 462**
**Chwefror 2018**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**GOLYGYDD YR IFANC**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**TREFNYDD DOSBARTHU**
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Mawrth | Sul 18 Chwefror | Gwener 2 Mawrth | Llanrug |
| Ebrill | Sul 18 Mawrth | Iau 29 Mawrth* | Cwm y Glo |
| Mai | Sul 22 Ebrill | Gwener 4 Mai | Deiniolen |
| Mehefin | Sul 20 Mai | Gwener 1 Mehefin | Brynrefail |

## LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr
Ein Gwir Hanes : Enwau Lleoedd, rhan o'n hetifeddiaeth
Hoffwn dynnu eich sylw at y diweddaraf yn ein cyfres boblogaidd Ein Gwir Hanes sy'n trafod gweddau allweddol o hanes ein cenedl.
Dewch i wrando ar siaradwyr hyddysg yn eu maes yn traethu'n frwd ac yn esbonio tarddiad enwau lleoedd. Bydd Glenda Carr yn bwrw golwg ar rai o enwau lleoedd Sir Fôn, a Margiad Roberts yn ystyried enwau lleoedd yn Eifionydd.
Dyma gyfarfod sy'n siŵr o fod yn apelio at bawb sy'n ymddiddori yn ein hanes, ein hiaith a'n tirwedd. Croeso cynnes i bawb i Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr yn Arfon. Mae'r cyfarfod yn rhad ac am ddim, fel rhan o'n cenhadaeth i gyflwyno hanes Cymru i chi.
Dydd Sadwrn Chwefror 10fed, 2017, 10.30-2.30
Darperir paned, ond dewch â'ch bwyd eich hunan.
Am ragor o fanylion cysylltwch â ni ar 01286 660 546/853
canolfanuwchgwyrfai@gmail.com

Yn gywir,
Jina Gwyrfai (cyd-drefnydd)

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, fydd yn dychwelyd i'r sgrîn yn y gwanwyn am gyfres arall.
Unwaith eto, bydd ein cyflwynwyr - y garddwyr brwd Iwan a Sioned Edwards a Meinir Gwilym - yn ymadael â'u gerddi eu hunain yn achlysurol i gynnig help llaw i arddwyr eraill ar hyd a lled Cymru. Nid trawsnewid gerddi yw'r bwriad, ond yn hytrach ddod a bywyd newydd iddi trwy ganolbwyntio ar ran ohoni a welai fudd diwrnod caled o dorchi llewys.
Felly, pa bynnag agwedd o'r ardd sydd angen sylw, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad â ni. Yn ddelfrydol, dylid anfon cyfres o luniau a disgrifiad byr o'r joban dan sylw, neu o ddyheadau'r perchennog (fydd wrth gwrs yn cymeryd rhan yn yr eitem!).
Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.
Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685 300 (a gofyn am Euros neu Meinir) neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes,
Tîm Garddio a mwy

### Hanfod Cymru: Gwnewch gais am grant nawr!

Ar ddiwrnod Santes Dwynwen bydd Hanfod Cymru yn rhannu'r serch drwy agor y drws ar gyfer derbyn ceisiadau oddi wrth elusennau o bob cwr o Gymru am grant bach o hyd at £10,000. Gall y ceisiadau fod am brosiect neu weithgarwch sy'n cael ei gynnal ym meysydd diwylliant a chelfyddyd, addysg neu les cymdeithasol. Gall y cais am grant fod ar gyfer unrhyw weithgarwch o fewn y meysydd hyn, y tu hwnt i'r maes statudol.
Dywedodd Prif Weithredwr Hanfod Cymru, Siôn Brynach:
"Cawsom ein rhyfeddu gan y nifer fawr o geisiadau da a ddaeth i law yn y ddwy rownd gyntaf o geisiadau am grantiau yn ystod 2017 . Gobeithiwn yn fawr y bydd y rownd hon yn denu ceisiadau o'r un safon.
"Mae gan elusennau tan ddydd Gŵyl Dewi 1 Mawrth i gyflwyno cais, a bydd y grantiau a ddyfernir gan Fwrdd Hanfod Cymru yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd Ebrill. Gobeithio y bydd y cyhoeddiad hwnnw yn newyddion da i lu o elusennau ym mhob cwr o Gymru."
Sefydlwyd Hanfod Cymru er mwyn dosbarthu'r arian a godwyd gan Loteri Cymru tuag at achosion da. Mae lleiafswm o 20% o'r elw o gyfanswm gwerthiant tocynnau Loteri Cymru yn cael ei gyfeirio at achosion da yng Nghymru trwy'r elusen. Mae'n gweithredu'n hollol annibynnol gyda'i Bwrdd Ymddiriedolwyr ei hun, ac mae'n gweithredu'n annibynnol ar Loteri Cymru, sy'n goruchwylio'r loteri wythnosol.
Am fwy o wybodaeth am Hanfod Cymru ewch at www.hanfodcymru.wales ac am fwy o wybodaeth ar sut i brynu tocyn Loteri Cymru ewch at www.loteri.cymru

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£100: Dienw Llanberis.

£30: Pauline a David Williams, Caernarfon, er cof am Naomi Griffiths, Llanrug gynt.

£25: Eirwen ac Alwyn, Wylfa, Dinorwig, er cof am eu mam.

£20: Edfryn ac Ada Jones, Ty'n Twll, Brynrefail; Er cof am Geraint Rees Morris, Hafodty Cwm Brwynog oddi wrth deulu Cefn-Coch, Deiniolen; Er cof am Geraint, Hafodty Cwm Brwynog gan Eira, Gwenno, Siôn-Ifan Elis, Beca a'r teulu oll; Olwen a Caryl, Amlwch, Tŷ'r Ysgol gynt, er cof am ŵr a thad, Mr Alun Hughes; Er cof am Albert Lloyd Hughes (Ben), 34 Bro Rhos, Bethel gan y teulu.

£10: Mrs Hannah Mary Roberts, Tŷ'r Ysgol, er cof am Evan Bryn. Mrs Megan Jones, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

£5 Teulu Llain yr Ardd, Bethel; Brian ac Eirlys Sharpe, Bethel

## Prisiau'r "Eco"

Drwy'r post (Prydain yn unig) £21.00 am flwyddyn

Drwy ebost (rhywle yn y byd) £7.70 am flwyddyn

# *Parhad* LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwr,
Yn Nhachwedd 2018 mae Gŵyl Genedlaethol Cerdd Dant Cymru yn ymweld â Blaenau Ffestiniog a`r Fro. Mae hwn yn ddigwyddiad cenedlaethol cyffrous i`r ardal ac mae edrych ymlaen garw at y digwyddiad.
Cynhelir yr ŵyl dros benwythnos ym mis Tachwedd. Mae hi`n ŵyl sy'n denu cystadleuwyr o bob cwr o Gymru a chaiff ei darlledu`n llawn ar S4C.
Mae'r pwyllgor gwaith a sefydlwyd yn dilyn cyfarfod cyhoeddus y llynedd wedi dechrau ar y dasg o godi arian i sicrhau gŵyl lwyddiannus a chofiadwy. Targed ariannol yr ŵyl yw £40,000. Mae'r pwyllgor gwaith yn gweithio'n galed iawn trwy drefnu digwyddiadau er mwyn codi arian i gyrraedd y nod.
Rydym yn troi atoch fel darllenwyr i ofyn yn garedig am eich cefnogaeth. Rydym yn gobeithio y byddwch mewn sefyllfa i ystyried y cais am gefnogaeth i'n galluogi i gyrraedd ein targed.
Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch mae croeso i chi gysylltu hefo ni yn uniongyrchol.
Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Yn gywir iawn,
Iwan Morgan (Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith) / Dewi Lake (Cadeirydd Pwyllgor Cyllid).

## Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Daeth nifer dda ynghyd ar noson wyntog a stormus ar ddechrau'r flwyddyn newydd a chroesawodd Geraint Jones ein gŵr gwadd, Yr Athro Peredur Lynch atom. Aeth Peredur ymlaen yn ei ddull unigryw ei hun i drafod ei gyfrol ddiweddaraf "Caeth a Rhydd". cyfrol o farddoniaeth amrywiol gan yr awdur a chafwyd dyfyniadau difyr ganddo, o'i gerdd i'w dad Y Parchedig Evan Lynch , i'w farwnad i'r diweddar Gwyn Thomas a'i englynion i Meredydd Edwards a'i ŵyr , Gareth. Roedd ei gerdd ysgafn i'w gar, Lada, yn denu chwerthin gan y gynulleidfa hefyd. Diolchodd Geraint yn gynnes iawn iddo am ein difyrru yn ei ddull rhadlon unigryw ei hun.

Cofiwch hefyd am ein cyfarfod nesaf ar Chwefror 20fed yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 yr hwyr. Y Prifardd Rhys Iorwerth fydd ein gŵr gwadd a bydd yn trafod ei weithiau diweddaraf. Croeso cynnes i bawb.

**Ymddiheuriad**
Er mai cwta bythefnos oedd rhwng rhifyn Rhagfyr a rhifyn y Nadolig o'r "Eco", daeth cymaint o ddeunydd i law fel y bu'n rhaid gadael allan nifer o'r cyfraniadau ac ail-wampio'r cynnwys ar y munud olaf. Yn anffodus, cafodd hanner newyddion pentref Penisarwaun (gan gynnwys newyddion yr ysgol) eu colli yn y broses. Ymddiheuriadau i gyfrannwyr Penisarwaun ac i'r darllenwyr. Gan fod bron i ddeufis wedi mynd heibio bellach, ni chynhwysir hwy yn y rhifyn hwn.

**Darlith gyhoeddus**
Gwion Lewis, 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050: yr atebion cyfreithiol'.
Pontio, darlithfa PL2.
Dydd Mercher, Chwefror 27 am 6 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb!

**Glanhau Mynwent Pentir**
Er nad o fewn ffiniau'r "Eco", gofynnwyd a fyddai'n bosib tynnu sylw ein darllenwyr at y ffaith fod Mynwent Eglwys Sant Cedol, Pentir wedi ei chlirio o ddrain, mieri a thyfiant gwyllt. Mae'n llawer hwylusach bellach i gael mynediad at y beddau teuluol o fewn ei libart.
Gyda diolch i'r Cynghorydd Elwyn Jones am ddwyn perswad ar y rhai oedd yn gyfrifol am y fynwent ac yn arbennig i'r rhai fu'n gwneud y gwaith clirio. Mae'r fynwent erbyn hyn yn hynod o daclus. Boed iddi gael ei chadw yn y cyflwr hwn dros y blynyddoedd i ddod.

# Yn ystod y mis aeth heibio....

- Y Prif Weinidog yn apwyntio Gweinidog dros Unigrwydd yn ail-wampiad diwethaf ei Chabinet, a hynny i roi cymorth i'r miloedd o unigolion sy'n dioddef o fod yn unig. Mae'r cymhelliad yn un i'w ganmol, ond anodd dirnad sut y bydd unrhyw Weinidog yn gweithredu i leddfu'r broblem.

- Yn dilyn y darganfyddiad echrydus yng Nghaliffornia ble cafodd 13 o frodyr a chwiorydd eu darganfod wedi eu carcharu gan eu rhieni, hawdd meddwl fod popeth yn berffaith yr ochr hon o'r Iwerydd. Ond datgelwyd yn ddiweddar fod ystadegau (sef cofnodion yr Heddlu) am y flwyddyn 2016-17 yn dangos fod 1.2miliwn o ferched a 750,000 o ddynion wedi dioddef trais yn y cartref yng ngwledydd Prydain.

- Dathlu yn Llanystumdwy ar achlysur penblwydd yr Awyrlu Brenhinol yn gant oed, a chofio mai Lloyd George oedd y Prif Weinidog pan gafod ei sefydlu yn 1918. Lai nac ugain mlynedd yn ddiweddarach ac aelodau o Blaid Cymru ifanc yn gwrthwynebu sefydlu Ysgol Fomio ym Mhenyberth. Yn 1986 Plaid Cymru yn cynnal Rali Cofio Penyberth ym Mhwllheli, hanner canrif wedi'r Tân yn Llŷn, gyda'r arwyddair "Dros Gymru – Dros Heddwch". Ac eleni roedd Cadeirydd Cyngor Gwynedd, aelod Plaid Cymru sy'n arwain y Cyngor hwnnw yn croesawu sefydlu gardd i Awyrlu, sydd fel pob awyrlu arall led-led y byd, yn gyfrifol am ddinistr rhyfelgar. A hynny yn Eifionydd, "y fro rhwng môr a mynydd heb arni staen na chraith." Heddwch?

- Mae'r dadlau am Orsaf Niwcliar Wylfa Newydd yn parhau, ond daeth tro annisgwyl i'r cynlluniau o gael deall fod maes parcio arbennig yn cael ei ystyried ar gyfer y gweithwyr fydd yn ei adeiladu. Ia, Llanwnda! Dim ond 40 milltir i ffwrdd o'r safle gwaith, a dim tagfeydd traffic yn y Bontnewydd, oherwydd bydd y Ffordd Osgoi wedi ei chwblhau erbyn hynny. Os oes angen maes parcio yn Arfon ar gyfer gweithwyr ym mhen draw Sir Fôn, oni fyddai safle hen ffatri Ferodo wedi bod yn fwy addas – ac yn nes at y bont newydd arfaethedig dros y Fenai? A phe bai'r newyddion hyn wedi eu datgelu ddeufis o rwan, fe fyddai'n amlwg i bawb nad yw'n ddim ond Stori Ffŵl Ebrill.

- Cyngor Gwynedd yn bwriadu sefydlu llwybr cerdded a beicio o Gwm y Glo i Lanrug drwy ehangu y llwybr troed presennol ar hyd ymyl y briffordd. Bydd y tendrau am y gwaith eisoes wedi eu cyflwyno erbyn i chwi dderbyn yr "Eco". Ar hyn o bryd does dim gwybodaeth ynglŷn â pha bryd y cychwynnir ar y gwaith. Dim ond cwblhau'r cyswllt o Gwm y Glo i Ben Llyn fydd ei angen wedyn i'ch galluogi i gerdded a beicio o Lanberis i Lanrug oddi ar y briffordd. Ond mae addewid am bont o'r hen lôn o Gwm y Glo drosodd i'r Fricsan wedi ei rhoi ers 2007, a Chyngor Cymuned Llanrug wedi gofyn am newid statws yr hen lôn o'r Fricsan i Ben Llyn ers 1998. Peidiwch a dal eich gwynt!

# Ysgol Gynradd Llanrug







Llongyfarchiadau mawr i dim nofio yr ysgol aeth lawr i Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd yng Ngaerdydd ar yr 20fed o Ionawr. Gwnaeth bob un yn wych gan wella eu hamser ym mhob ras! Daeth tim nofio ras gyfnewid merched bl3/4 yn 8fed, tim ras gyfnewid bechgyn bl3/4 yn 3ydd a thim ras gyfnewid cymysg bl5/6 yn 3ydd! Da iawn chi blant.

# Safle Tŷ'r Ysgol, Llanrug

42 mlynedd ar ôl i'r hen Gyngor Sir Gwynedd werthu Tŷ'r Ysgol i'r prifathro ar y pryd, mae Cyngor Gwynedd wedi ei brynu'n ôl. Mae'r tŷ wedi bod yn wag ers marwolaeth y cyn bennaeth rhai blynyddoedd yn ôl ac, ym mis Tachwedd 2016, fe ganiatawyd cais cynllunio i adeiladu dau dŷ ychwanegol ar y safle.

Teimlad y cynghorydd lleol, Charles Wyn Jones, oedd mai camgymeriad fuasai adeiladu tai yn y lleoliad pwysig yma drws nesaf i'r ysgol gynradd. Gwell, yn ei farn o, fuasai defnyddio'r safle ar gyfer dibenion addysg, gan mai dyma'r safle naturiol ar gyfer unrhyw estyniadau pellach i'r ysgol.

Felly, gyda hyn mewn golwg, gofynnodd y Cynghorydd Charles Jones i Gyngor Gwynedd brynu'r safle ar gyfer gwella rhai o adnoddau'r ysgol gynradd. Yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2017 cytunodd Cabinet y Cyngor gyda'r cynghorydd lleol a phenderfynodd y dylai'r Cyngor symud ymlaen i brynu'r safle. Ar y 8fed o Ragfyr 2017 cwblhawyd y pryniant.

Dywedodd y Cynghorydd Charles Wyn Jones "ei fod o'n falch iawn fod y Cyngor wedi bod efo'r weledigaeth a'r doethineb i warchod y safle pwysig a strategol yma yn y pentref". Ychwanegodd, "hoffwn bwysleisio, fodd bynnag, nid oes cynllun penodol ar hyn o bryd ar gyfer y safle, ond roedd hi'n bwysig sicrhau fod y safle ar gael ar gyfer cynllunio addysg i'r dyfodol. Cyfle unwaith ac am byth oedd hyn ac rwy'n falch fod y Cyngor wedi cytuno â fi".



**Capel y Rhos**
**Gwasanaethau mis Chwefror**

4: y Gweinidog, Parch Marcus Wyn Robinson
11: Mrs Nerys Griffiths, Caernarfon
18: Y Gweinidog
25: Mr T. Alun Williams, Caernarfon.

# *Parhad* LLANRUG

## Casglu at Elusen




Gwen Jones, Gwêl Fynydd, a dderbyniodd dystysgrif o werthfawrogiad wedi iddi gasglu £595 tuag at Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Mae Gwen yn mynd o amgylch cymdeithasau yng Ngwynedd a Môn yn rhoi sgwrs am fywyd ei mam, y ddiweddar Dilys Baylis, Llanberis.

## Tim Pel-rwyd




Da iawn tim pel rwyd yr ysgol yn Nhwrnament yr Urdd.

**Llongyfarchiadau** a dymuniadau gorau i Dr Dan Hughes, 2 Pant Afon, Ceunant, fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar y dydd olaf o 2017.

**Merched y Wawr** Estynnwyd croeso cynnes i bawb nos Fawrth, Ionawr 9fed, gan y Llywydd, Bethanne a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda yn 2018. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio a da ei gweld yn gwella mor dda edi iddi gael pen-glin newydd ac yn barod bron am driniaeth i'r phen-glin arall ym mis Chwefror. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Menna a phen-blwydd hapus arbennig i Bethanne ar Ionawr 16. Da gweld Eryl wedi gwella ac Ann hithau wedi cael pen-glin newydd. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau oherwydd salwch a dymunir gwellhad buan i bawb. Cytunwyd i gynnal Caffi'r Urdd ar Sadwrn, Chwefror 24ain. Cynhelir 'Bowlio Deg' y Mudiad yn Glasfryn ar Ebrill 27ain a chystadlaethau Gŵyl Haf ar Fai 19 yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth.

Derbyniwyd cerdyn gan Freda, y Swyddog Datblygu, yn llongyfarch Bethanne ar ei llwyddiant yn y Ffair Aeaf gan ddiolch iddi am gefnogi'r Mudiad a dymunwyd yn dda i gangen Llanrug. Cynhelir cystadlaethau Sioe Llanelwedd 2018 ar Orffennaf 23ain-26ain ar y thema 'Mwynder Maldwyn'. Mae cystadlaethau Dysgwyr yn agored i bawb sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith: lefel sylfaen - sef 'Cerdyn Post', o lan y môr; lefel canolradd - Dyddiadur wythnos ar lan y môr, a lefel uwch - 'Atgof - glan y môr. Dyddiad cau - Mawrth 1af.

Gŵr gwadd y noson oedd Iwan Roberts, wedi byw ym Mhumsaint, Capel Hendre, Aberporth, Manceinion ac wedi setlo ers blynyddoedd bellach yn Llanrug. Bu'n gweithio ym myd Addysg gan gychwyn fel athro yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, a chyn ei ymddeoliad bu'n gweithio i Estyn. Roedd diddordeb mewn canu yn gryf ynddo - yn aelod o Mynediad am Ddim, Cilmeri a Pedwar yn y Bar. Diddordeb arall ganddo yw casglu creiriau sydd â chysylltiad ac ardaloedd y mae'n gyfarwydd â hwy. Mae'r diddordeb o gasglu cardiau post am Gymru benbaladr yn mynd â'i fryd hefyd a difyr oedd pori drwy'r tri albwm oedd ganddo - cardiau yn llawn hanes am fywyd yng Nghymru flynyddoedd maith yn ôl.

Ar un bwrdd roedd casgliad difyr o greiriau gyda bathodyn Eglwys Sant Mihangel Llanrug a llestr â chyswllt â Segontiwm, anrheg o Gwm-y-glo, sef cwpan a soser a thebot o Langybi. Mae wrth ei fodd yn casglu llestri Goss ac roedd ganddo rai Cymreig gydag emblem Gymreig arnynt. Roedd casgliad o lestri Gaudy Welsh ganddo a difyr oedd clywed bod llestri o dan yr enw Llanrug, Llanberis, Pontrhythallt a Phenisarwaun ar gael. Roedd y creiriau Devonware yn denu sylw'r aelodau gyda diarhebion ac idiomau Cymreig arnynt megis 'Castell pawb ei dŷ', 'Tlws popeth bychan', 'Gwell dysg na golud' a'r anfarwol 'Gwna â ddylit doed â ddêl'. Diolchwyd i Iwan am wneud yr hyn a ddylai gan sicrhau casgliad amhrisiadwy o greiriau a chardiau sy'n olrhain ein hanes fel cenedl i'r cenedlaethau i ddod.

Diolchwyd i Iwan am noson hynod o addysgiadol a thu hwnt o ddifyr. Diolch i Menna, Eryl, Margaret ac Avril am baratoi'r baned. Ar Chwefror 13eg cawn 'Gadw'n Heini' hefo Debbie Jones.

**Diolchiadau** Dymuna Pauline, David a'r teulu, 44 Cae Gwyn, Caernarfon, ac Annie Norman, 11 Ffordd Glanffynnon, ddiolch am bob caredigrwydd a'r cydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain a chwaer annwyl a charedig, sef Naomi Griffiths, 11 Hafan Elan gynt. Diolch am yr ymweliadau, galwadau ffôn gan y teulu, ffrindiau a chymdogion, yr holl flodau, cardiau a rhoddion tuag at Gartref Marbryn, Caernarfon, er cof am Naomi. Diolch i'r Parchedig Ddr Carol Roberts a'r organyddes am eu gwasanaeth tyner a pharchus ac i'r Trefnwyr Angladdau, Roberts a Owen, Penygroes am eu trefniadau trylwyr a pharchus.

**Profedigaeth** Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at deulu Mrs Gaynor Edwards, Llanberis, sef ei mab John, merch yng nghyfraith Gwen, nain i Cheryl, Nicola a Celfyn a hen nain annwyl iawn.

Yn dawel ym Mro Rhythallt, bu farw Richard Owen, gweddw Cilla a thad annwyl Alison, Paul, Deborah, Julie a Richard a thaid cariadus ei wyrion a'i wyresau. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

**Profedigaethau** Yn 95 mlwydd oed bu farw Mrs Olwen Jones, Goledd, Ffordd Rhythallt, yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis. Gweddw Stanley Jones a mam hynod Helen (Rhos Ddu) ac Aneuryn (Dolbadarn), Llanberis. Roedd yn nain annwyl i Gwenfair, Rhian, Sian a Dylan a hen nain i Nia, Gethin, Sion a Huw ac erbyn hyn ganwyd gor-ŵyres fach iddi, yn anffodus ddyddiau yn unig rhy hwyr iddi gael ei gweld. Estynnwn ein cofion diffuant at y teulu i gyd. Aed y rhoddion er cof amdani at staff Plas Pengwaith.

Yn dilyn gwaeledd hir, bu farw Mrs Ceinlys Roberts, Gwlfa, Ffordd yr Orsaf, yn 85 mlwydd oed. Priod cariadus y diweddar Emrys, mam annwyl Carol Anne, Wendy a Michael. Cafodd ofal tyner yn ei chartref gan y teulu ac estynnwn ein cofion diffuant yng ngholled y plant a'i wyrion, Jonathan, Mathew, Ciaran (a Lia) a Cara ei hwyres. Caglwyd arian er cof amdani tuag at Ymchwil Alzheimer.

Yn ddiweddar fe gollodd Mrs Margaret Williams, Nant y Glyn, ei brawd, Ralph o Lanberis. Mae'n ddrwg iawn gennym am eich profedigaeth.

**Diolch.** Dymuna Bethanne Williams ddiolch am y cyfarchion a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn ddiweddar. Fe'i gwerthfawrogir yn fawr.

**Plaid Cymru**

Enillwyr y Clwb Cant

Rhagfyr 2017 1.. Sheila Williams 2.. Meirwen Lloyd

Ionawr 2018 1.. Ifanwy Jones 2.. Berwyn Jones

**Hafan Elan** Cafodd y trigolion a'u ffrindiau sydd yn mynychu y Clwb Cinio ar ddydd Mawrth wledd o ginio Nadolig ac yna i ddilyn brynhawn yn y Galeri, Caernarfon, yng nghwmni Rhys Meirion. Diolch i'r clwb ar ran y cymorthyddion ac i Mrs Eilwen Charters am yr holl drefniadau.

**Gwaeledd** Mae wedi bod yn gyfnod o salwch dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Llawer iawn wedi cael y ffliw ac anhwylderau y frest. Brysiwch wella pawb a chadwch yn gynnes.

# BETHEL

TEULU DAWNUS



Addas yw rhoi sylw y mis hwn i lwyddiannau merched Bryn Difyr, Bethel neu i ni yma yn y pentref merched John Llefrith. Y mis diwethaf ymunodd yr ieuengaf o'r genethod Emma a'i dwy chwaer  Sarah a Lisa drwy dderbyn graddau Prifysgol Cymru. Roedd Sarah a Lisa eisioes wedi derbyn graddau M.Sc. ym maes Gwyddorau Chwaraeon. Mae Sarah , yr hynaf, bellach yn Gymrawd Partneriaeth Dysgu, gyda'r swydd o Gyd-lynydd Dysgu ac Arddysgu yn yr Adran Gwyddorau Chwaraeon.

Gradd M.A. mewn Gwaith Cymdeithasol dderbyniodd Emma, cyw y nyth. Dyma faes ble mae cryn alw am arbenigedd yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Emma eisioes wedi ymuno a'r uned Gwaith Cymdeithasol yng Nghaernarfon. Dymunwn yn dda iddi.

Yn y llun gwelir  y dair chwaer ddiwrnod capio Emma, ynghyd a Leia, merch Sarah a John T.B. –John  tad balch!

**Merched y Wawr** Cafwyd noson hwyliog yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon i ddathlu'r Nadolig.

Enillwyd y raffl gan Ann, Glenys, Cecille ac Eirlys.

Croesawyd pawb gan y llywydd Liz i gyfarfod cyntaf y flwyddyn. Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau. Llongyfarchwyd Ceri (merch Jen) a Sam ar eu dyweddiad, hefyd mae Anita yn nain gan i Ffion a Gavin cael hogyn bach, Caleb Emyr.

Gobeithio bod Gwyneth (Pentir) yn gwella wedi ei llawdriniaeth, a Nora a Nan ar ôl bod ddim yn dda.

Derbyniwyd £50.00 gan Banel Cyfryngau Cymru, gobeithio fod pawb yn fodlon dal i lenwi yr holiaduron.

Bydd hyfforddiant y diffib ar gael diwedd mis Ionawr, pawb sydd â diddordeb i gysylltu a Liz.

Gofynnir i bawb ddŵad â £15.00 i'r cyfarfod nesaf i dalu am y bwffe Gŵyl Ddewi yn y Castell yn Nghaernarfon.

Cafwyd noson bleserus dan ofal Cecille, Gwenan a Mair (Price). Soniodd Cecille am ei chartref yn Bordeaux (mewn Cymraeg, ei thrydydd iaith), tra cawsom hanes ei hamser yn Calcutta gan Gwenan a dangosodd Mair yr offer Braille yr oedd ei hewythr yn ddefnyddio. Diolchwyd iddynt gan Rhian.

**DIOLCHIADAU** Dymuna Ieuan, Llain yr Ardd, ddiolch i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a chydnabod am yr anrhegion, ymweliadau a'r llu alwadau ffôn ar achlysur ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Mae awch un am ychwaneg,

doeth yw dyn o weld wyth deg.

**Diolchiadau** Daeth dau gais i mi gyhoeddi diolchiadau ar ran teuluoedd y diweddar Albert Hughes (Ben) ac hefyd y diweddar Geraint Roberts, Penrhos Villa gynt.

Ar ran teulu Albert dywed Gareth Llwyd:

" Ar ran teulu'r diweddar Albert Hughes, 34 Bro Rhos, Bethel ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd â amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli cefnder annwyl. Diolch am y llu cardiau, galwadau ac ymweliadau fu'n gysur i ni fel teulu. Gwerthfawrogir y cyfraniadau ariannol a wnaed er lles Clwb Snwcer  Bethel er cof am 'Ben'. Diolch i'r Parch. Marcus Robinson,a'r organyddes Glenys Griffiths am eu gwasanaeth graenus ddiwrnod yr angladd, ac i'r Parch. R.E. Hughes am ei deyrnged deimladwy.

( Yn ei lythyr ataf cyfeiriodd Gareth fod copi o'r cyfeiriad at golli Albert a ymddangosodd yn rhifyn blaenorol yr Eco wedi ei ddanfon gan fam Gareth  at gefnder yn Derby a chyfnither yn ninas Perth, Gorllewin Awstralia.)

O Drwsnant, Y Groeslon daeth y canlynol gan Emyr, brawd Geraint.

" Dymuna Emyr ac Anwen Roberts ddiolch am bob cefnogaeth a chydymdeimlad wedi colli di-symwth Geraint. Er i Geraint fyw yn Llundain a Broadstairs am ddeugain mlynedd roedd Bethel o hyd yn agos at ei galon. Diolch i'r ymgymerwyr Roberts ac Owen, Penygroes am eu gofal arbennig, ac am wasanaeth y Parch. John Pritchard yn yr Amlosgfa ym Mangor. Diolch hefyd am y rhoddion er cof am Geraint a dderbyniwyd ar ran Ymchwil Cancr U.K. yn gyfanswm o £500."

CEFNOGI'R ADDUNEDAU

Mae'n siwr fod llawer ohonnoch wedi gwneud adduned Flwyddyn Newydd i golli pwysau yn 2018. Haws dweud na gwneud, yn sicr. Rwyn siwr y buasai ymuno a Chlwb Rhedwyr  Bethel yn un cam positif i geisio cefnogi'r adduned. Mae'r clwb yn paratoi ystod eang o gyfleon i wahanol oedrannau – a phwysau! Beth am roi cynnig arni ac elwa nid yn unig yn gorfforol ond yn gymdeithasol hefyd.

**CYMDEITHASAU'R PENTREF** Cymerodd Clwb Bro Bethel a'r Gymdeithas Lenyddol doriad ar gyfer mis Ionawr, ond bydd y ddwy gymdeithas yn ail-gydio ym mis Chwefror.

Ar Chwefror 6ed., bydd Debbie Jones o Gaernarfon yn ymweld â'r Clwb Bro. Mae Debbie yn arbenigo ar weithgareddau ffitrwydd i bobl hŷn. Edrychwn ymlaen at ei hawgrymiadau.

Ar Chwefror 20ed., bydd Dafydd Whiteside Thomas  yn ymweld â'r Gymdeithas Lenyddol. Yn ei ffordd raenus bydd Dafydd yn ein harwain ar daith ar hyd yr afon Rhythallt. Dyma ddarlith gaboledig iawn sy'n agor ein llygaid at wir hanes bro.

Mae safon y siaradwyr yn uchel iawn a'u meysydd trafod yn ddiddorol. Cofiwch fod croeso i unrhyw un fynychu'r cyfarfodydd i fwynhau y sgwrs, y cymdeithasu – a'r baned! Cynhelir y cyfarfodydd yn Festri'r Cysegr, y Clwb Bro ar bnawn Mawrth cyntaf y mis a'r Gymdeithas Lenyddol ar drydedd nos Fawrth y mis.

**CERDDOROL** Mae'n amser cyffrous yn gerddorol i Rhys Grail, Stad y Ddôl. Mae Rhys yn gitarydd gyda'r band Gwilym, grwp o bedwar yn cynnwys dau o Fôn a dau o Fro'r Eco – Rhys a Llew o'r Gelli Gyffwrdd. Mae'r grwp ar fin cyhoeddi eu record gyntaf ar label Cosh. Efallai i chwi eu gweld yn cael eu cyfweld ar raglen Heno. Daw'r gwahoddiad i recordio wedi i'r band ennill yr ail wobr yng Nghystadleuaeth Brwydr y Bandiau yn Eisteddfod Môn 2017. Yn cynorthwyo'r grwp i gynhyrchu'r record mae mentor amryddawn iawn sef Yws Gwynedd sydd yn un o 'hogia Bethel' bellach ers ambell i flwyddyn.

Ar hyn o bryd mae Rhys yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Birmingham yn astudio Ffotograffiaeth. Handi iawn i Rhys gan ei fod yn gefnogwr brwd o dim pêl-droed Birmingham City.

**CYFRANIAD BERSONOL**

Os ydych yn cael pleser yn darllen yr amrywiaeth â glorianir yn Eco'r Wyddfa beth am geisio cael cymydog neu ffrind i brynnu'r Eco yn fisol. Mae dal yn fargen am £7 am 12 rhifyn. Mae gennym ddigon o ddosbarthwyr yma ym Methel i'w ddanfon i'r drws tŷ. Gellir ei brynnu hefyd ym Mhôst Bethel.

**GOLYGFA I YMFALCHIO YNDDO.**

Rhaid cyfeirio yn ôl at wasanaeth y Cymun bore'r Nadolig yn y Cysegr. Fe'n harweinwyd at y bwrdd yn ei ffordd ddi-hafal ei hun gan y Parch. Marcus Robinson. Roedd yno gynulleidfa undebol luosog, y mwyaf niferus ers sawl blwyddyn. Unwaith eto cawsom gefnogaeth i'r canu gan y band o offerynwyr lleol. Yn sicr, bydd nifer ohonnom yn cofio safon y chwarae a'r canu y bore hwnnw. Ymfalchio hefyd o weld dau yn cyd-eistedd yn chwarae'r corn – Dewi Griffiths ac Owain  Llestyn Thomas. Yn y maes arbennig yma yng Nghymru yn sicr dyma'r meistr a'r prentis talentog sy'n prysur ennill ei le ymysg y goreuon. A'r ddau yn hogiau Bethel.

## Eisteddfod Bethel.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eisteddfod y Pentref ar 20fed o Chwefror yng Nghapel Cysegr. Apeliwn ar i garedigion yr Eisteddfod fynychu'r cyfarfod er mwyn trefnu eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

# *Parhad* BETHEL *eto...*

## LLONGYFARCHIADAU



I Richard Llwyd Jones ar gipio Cadair Eisteddfod Chwilog yn ddiweddar. Dyfarnwyd ei awdl 100 llinell ar y testun 'FFin' yr orau o 15 ymgeisydd gan y beirniad y Prifardd Guto Dafydd.

## CADARNHAD

Ar ddechrau'r mis derbyniodd Clerc y Cyngor Cymuned a'r Cyng. Sion Jones lythyr o'r adran berthnasol o'r Cyngor Sir ynghlyn â sefyllfa system garthffosiaeth y pentref yn ei gyswllt a cheisiadau cynllunio arfaethedig. Mae'r llythyr yn cadarnhau ar ddu a gwyn fod Dŵr Cymru yn hollol fodlon fod y system garthffosiaeth ym Methel bellach yn ddigon cryf i gynnal unrhyw ddatblygiadau â ganiateir. Mae hyn yn ymddangos yn groes i brofiadau sawl tŷ-feddianwr dros y cyfnod diweddaraf. Gobeithiwn y bydd datganiad Dwr Cymru yn 'dal dŵr.'

## CRONFA CALONNAU BETHEL

Y mae unigolion, cymdeithasau a busnesau lleol yn dal i gyfrannu'n hael. I gefnogi'r apêl bydd Marcus Robinson yn cynnal un arall o'r nosweithiau Caws a Gwin poblogaidd. Y lleoliad yw'r Neuadd Goffa ar nos Wener, Chwefror 2il. am 7pm. Mae'r tocynnau yn prysur ddiflannu.

## CRONFA CALONNAU BETHEL

"Mae dau sesiwn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r diffribrilydd wedi ei drefnu. Bydd y ddau sesiwn - am 7pm. ac 8pm- yn y Neuadd Goffa ar nos Iau, Chwefror 8ed. Yr hyfforddwr fydd Nick Aitken o fudiad Calonnau Cymru. Ar y noson hon, fe gyflwynir y diffribrilydd cyntaf i bentref Bethel. Achlysur gwerth ei ddathlu o gofio'r ymateb gwych yn yr ardal i'r apel wreiddiol. Croeso i bawb."

## COLLED

Daeth yr 'hen alwad' unwaith eto y mis hwn, gan siglo ein hardal yng nghwmwd Llanddeiniolen. Yn ddi-symwth bu farw Maldwyn Hughes, Tŷ'n Llan Uchaf , Llanddeiniolen, yn 62 oed. Mae ein cydymdeimlad dwysaf gyda'i gymar Julia a'r plant Meinir, Aled, Sion, a'u teuluoedd. Yr un ein cydymdeimlad a'i frawd agos Arfon a'r teulu.

Dyn y filltir sgwar oedd Maldwyn a bu ei gefnogaeth i'r filltir sgwar honno yn gyson dros y blynyddoedd.

Mae'n siwr mai Maldwyn oedd y 'dyn tax' mwyaf poblogaidd fu erioed, a bu yn hael iawn yn cynorthwyo llawer ohonom wrth geisio dehongli gofynion cymleth yr 'England Revenue' chwedl Ifas. Dyn chwaraeon yn ddios oedd Maldwyn, a dyn ffwtbol mwy na dim. Bu'n chwarae i nifer o dimau lleol a bydd llawer yn cofio yr ymosodwr dawnus a chwaraeai mewn 'sbectol'. Bu hefyd yn gefnogwr brwd i dimau lleol, yn enwedig Bethel – yn gyn-chwaraewr wrth gwrs! Gwell oedd gan Maldwyn sefyll ar ochr y lein ymhob tywydd yn cefnogi'r hogiau lleol na'i mentro hi lawr yr A55 i gefnogi'r timau mawr. Y mae'n dweud llawer am Maldwyn a'i deulu fod y rhoddion er cof amdano yn cael eu rhannu rhwng Ymgyrch Ymateb Cyntaf a'r Tim Pêl-droed yma ym Methel. A daeth Mald a gwên i wyneb y gynulleidfa â lanwodd Eglwys Llanddeiniolen ( a'r nifer tu allan) pan gyrchwyd ei arch i mewn i'r eglwys i gyfeiliant agoriadol y gyfres C'mon Midffild! Do, mae sawl blaenwr rhwystredig wedi udo'r geiriau yna dros y blynyddoedd. Yn y teyrngedau triw ac addas cyfeirwyd at barodrwydd Mald i roi o'i oriau i hyfforddi'r plant.

Dyn cynnes, agos at, parod ei sgwrs, cymwynas a'i farn oedd Maldwyn. Bydd colled ar ei ôl, yn enwedig a'r yr aelwyd o golli cymar, tad a thaid annwyl.

Er cof am Maldwyn  
Pridd gwlad, 'run a'i ddiadell – i'r annwyl  
ŵr 'Rynys, fydd fantell.  
Byr heddiw'r daith i'r briddell,  
nid yw Mald yn mynd ymhell.  
R.LL.J.

Hefyd collwyd un o gymeriadau y pentref sef John Parry , Bro Rhos neu John 'C.I.D'. i rai ohonom. Un a'i wreiddiau yng nghwmwd Llanddona, Môn oedd John a bu yn gweini ffermydd yn yr ardal honno. Yna, cyfarfod ei annwyl Nellie ac ymgartrefu yma ym Methel. Golygfa gyfarwydd fyddai gweld John yn cerdded y ci o gwmpas y pentref. Taith hir o ran amser yn aml gan fod John o hyd a chwestiwn neu atgof i'w rannu. Rwyf wedi marcio diwrnod lecsiwn yma ym Methel ar bob lefel am sawl blwyddyn. Yn ddios John fyddai'r cyntaf wrth y drws rhyw chwarter awr cyn i'r orsaf bleidleisio agor.Yn y cyfnod diweddar byddai John yn llythrennol lusgo ei hun draw ar ffon. Ymfalchiai nid mai ef oedd y cyntaf ond ei fod wedi bwrw ei bleidlais. Gwers i lawer ohonnom yn sicr. Bellach mae John wedi ail ymuno a Nellie ym mhridd Llanddeiniolen.

Daeth Ionawr i gipio Robert Griffith Roberts, Llys Menai, Saron a fu farw wedi cystudd hir.Mae'n cydymdeimlad dwysaf fel ardal i'w wraig Jennifer a'r hogiau Steven, Paul , Mark a'u teuluoedd yn eu colled. Un o'r Waunfawr oedd Bob a chofir amdano fel un allai droi ei law yn atgyweirio peiriannau. Yn ôl ei ddymuniad cynhaliwyd angladd hollol breifat i'r teulu agos.

Galwad ddaeth i' un gaeth i'w gur,  
un distaw yn ei dostur.

## CRONFA MYNWENT EGLWYS ST.DEINIOL, LLANDDEINIOLEN 2017

Derbyniwyd yr adroddiad yma gan Brian Sharpe, Ael-y-Bryn, Bethel LL55 3AA (01248 670796)

Diolch yn fawr i'r canlynol am eu rhoddion hael at Gronfa Cynnal a Chadw y fynwent. Os oes gennych fedd teulu yn y fynwent buasem yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad ariannol trwy law Brian Sharpe, y Trysorydd. Dylai unrhyw sieciau fod yn daladwy i 'Gronfa Mynwent Llanddeiniolen'. Byddwn yn cydnabod pob cyfraniad.

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau yn 2017:

£150 : Dylan Edwards a Gareth Jones, 3 Bro Deiniol, Deiniolen

£100 : B. ac M. Evans, Porth y Rhyd, Sir Gâr. Emyr ac Anwen Roberts, Y Groeslon. Cyfraniad Dienw. Mrs. Anne Lowe (Griffith), Epworth, Lincs.

£75 : Gwynedd a Sue Hughes, Coed Bolyn Lodge

£50 : Irfon Thomas a'r teulu, Buarthau, Llanrug. Brian ac Eirlys Sharpe, Bethel. Myra Griffith, Crud yr Awen. Penisarwaun. Valerie Owen a Jennifer Roberts, Llys Menai.

£30 : Dilys Jones, Newton St. Llanberis. Valerie Smith a Gwen Jones, Altrincham. Eleanor Jones, 22 Cremlyn, Bethel.

£25 : Mrs. M. Price Bryn Moelyn, Llanrug. Mr. A Mrs. E.R. Jones, Dob, Tregarth.

£20 : Mr. a Mrs. Ieuan Williams, Llain yr Ardd, Bethel. Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas. Mr. E. Williams, Cranleigh, Surrey. Mrs. M. Roberts, Ffordd Bethel, Caernarfon. Ann Ellis Williams a Ieuan Ellis Jones, Ddolwen Fach, Bethel. Mr a Mrs. J.M. Griffith, Llwyn Eithin, Bethel. Mrs. Liz Evans, Pen Parc, Bethel. Ann Hughes, Y Bwthyn, Llanrug. Phyllis Jones, Bryn Marl, Llandudno Jct. Gwynfor ac Edwina Morris, Treflys, Bethel. Glyn Richards, Tai Caradog, Deiniolen. Mr. a Mrs. A. Jones, Trewaun, Trefor, Caergybi. Mr. a Mrs. Clifford Thomas, Stryd Bangor, Y Felinheli. Y Diweddar Albert Hughes, Bro Rhos, Bethel. Mr. a Mrs. Huw Hughes, Stad Eryri, Bethel.

£15 : Eurgain Jones, Y Rhos, Bethel.

£10 : Megan Humphreys, Is-Helen, Bethel. Marjorie Roberts, Tŷ Newydd, Bethel.

£5 : Mrs. A.P. Hughes, Llanbedrgoch.

## CWM Y GLO

**Llongyfarchiadau** i Ffion, 22 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

**Yn yr Ysbyty** Anfonwn ein cofion at Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, sydd yn Ysbyty Gwynedd a Mrs Audrey McEllen, Bryn Awelon, Allt Goch, sydd yn Ysbyty Eryri Caernarfon.

**Gwellhad Buan** Dymunwn wellhad buan i Mr Les Orritt, Moranedd, a Mr Alex McEllen, Bryn Awelon wedi i'r ddau gael ddamwain yn eu cartref.

**Cydymdeimlad** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Llinos, Tudur a'r teulu, Llwyncoed Bach, Penllyn, yn eu profedigaeth o golli tad annwyl, sef Mr Bertie Roberts.

**Undeb y Mamau** Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys St Mair bnawn Mawrth, 19 Rhagfyr. Dechreuwyd y cyfarfod gyda munud tawel i gofio am Mrs Gladys Hughes.
Cafwyd adroddiad gan Auriel am gyfarfod y ddeoniaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cafwyd gwasanaeth a darllenwyd y llithoedd gan Nerys, Dorothy a Joyce a chroesawyd y grŵp Calypso a chafwyd rhaglen o Garolau Cymraeg a Saesneg ganddynt.
Y gwesteion oedd Marjorie a Dorothy a diolchwyd iddynt a'r grŵp gan Joyce. Enillwyd y raffls gan Linda a Gaynor. Bydd y cyfarfod nesaf ar 16 Chwefror.
Trefn y gwasanaeth yn eglwys St Mair bnawn Mawrth, Ionawr 16 oedd: Ton o Weddi. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal Auriel a darllenwyd y gweddiau gan Carys a Dorothy. Goleuwyd canhwyllau gan chwe aelod a darllenwyd emynau gan bawb. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth rai o'r aelodau a darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod gafwyd ym mis Rhagfyr. Cafwyd trafodaeth ar sut i godi arian i ddathlu canmlwyddiant y mudiad yng Nghaernarfon. Y gwesteion oedd Louie a Pat a diolchwyd iddynt gan Auriel.

## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com




**Diffibriliwr yng Ngaeathro** O ganlyniad i frwdfrydedd mudiadau cymunedol, haelioni ariannol yr orsaf betrol lleol ac arbenigedd elusen yng Ngogledd Cymru, mae diffibriliwr wedi'i osod yng Nghaeathro. Mae'r llun yn dangos trigolion lleol, Mair Evans o Garej Gwalia a Tomos Hughes o Achub Calon y Dyffryn efo'r cyfarpar achub bywyd. Roedd yr elusen, sydd wedi gosod unedau diffibriliwr ar draws Gogledd Cymru, yn ystyried y garej i fod y lleoliad gorau – hawdd ei adnabod gyda golau da. Mae'r cyfarpar, sydd wedi'i gofrestru efo'r gwasanaethau brys, ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd i'w ddefnyddio 24 awr y dydd.

**Gwasanaethau y Capel**
Chwefror 2il am 2.00 o'r gloch y pnawn: Y Parch Marcus Robinson.
Chwefror. 18ed am 2.00: Mr Arwel Williams.
Llywydd y mis a'r organyddes fydd Eryl Jones a Nia Jones

**Tynfa Misol Ionawr** 1af (72) £40: Evans, Plas Treflan; 2ail (51) £25: D. Roberts, Brynteg; 3ydd (81) £15: Sharon ac Ian, 11 Rhes Glangwna; 4ydd (92) £5: V. Jones, Llain Meddygon.

**Tristwch** mawr yw cofnodi marwolaeth Deiniol Hughes, Tŷ Mawr, ar Ionawr 20. Meddyliwn am ei wraig Marian, a'i ferch Gwenno yn eu colled a'u hiraeth amdano. Bydd cofnod llawnach yn y rhifyn nesaf.

## NANT PERIS





**Goleuadau Nadolig** Daeth criw da o bobl ynghyd i ganu carolau ac i oleuo'r goleuadau Nadolig lliwgar ar yr 3ydd o Ragfyr. Diolch i 'Bon Cathod' am ddod yna i ganu a diolch i Eryl Roberts, Cerrig y drudion, Nant Peris am oleuo'r pentref. Diolch i Dafydd Owen o Lanberis am osod y goleuadau eto eleni.

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

YN EISIAU Recordiau FINYL
60au i'r 90au
Cymraeg A Saesneg
Cysylltwch Gwynedd Record Collector
Ar facebook neu drwy ffôn symudol 07746190668

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Ffôn: 870580

**Sefydliad y Merched** Bu tipyn o steil i'r cinio Nadolig blynyddol ar Ragfyr 20fed. Cafwyd pryd ardderchog ar y gamlas o Mill Hotel, Caer. Mwynhawyd y diwrnod gan nifer dda o'r aelodau a'u ffrindiau o Glwb Bowlio Bethel a chyfle i wneud tipyn o siopa munud olaf yn y ddinas. Mae ein diolch i Vera a Dafydd Price am y trefniadau.

Nos Iau, Ionawr 18fed, cyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd, y wraig wadd oedd Jill Jones o Glwtybont yn dangos ei chrefft o nyddu gwlân. Daeth ag amrywiol fathau o wlân gyda hi ac egluro y gwahanol dulliau o'u defnyddio.

Nos Lun yr 22ain yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Llanberis cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Grŵp Eryri gyda Debbie o Ganolfan Hamdden Caernarfon yn mynd drwy ychydig o weithgareddau Ymarfer Corff i geisio cadw'n heini dros fisoedd y gaeaf!

Bydd Cyfarfod Blynyddol Ffederasiwn Sefydliad y Merched ddydd Sadwrn, Chwefror 3ydd, yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Yng nghyfarfod Chwefror o'r gangen leol disgwylir Pat Mowll i siarad am ei gwaith fel Therapydd Maethyddol.

## CYNGOR CYMUNED

Tra'n gwerthfawrogi gwaith y Cynghorydd Carolyn Roberts yma yn ein plith ym Mrynrefail ac yn diolch iddi am ei hymroddiad i'r Cyngor Cymuned am gyfnod helaeth rydym fel pentrefwyr yn awr yn estyn croeso i'w holynydd Martin Davies. Mae'n ŵr sydd wedi byw yn yr ardal ers llawer blwyddyn ond erbyn hyn wedi cartrefu yma ym mhentref Brynrefail, yn 10 Trem Eilian.

Eisoes mae wedi dechrau ar rai agweddau ar ei waith drwy ymgyrchu i geisio lleihau cyflymder trafnidiaeth ar y ffordd osgoi, sy'n rhannu'r pentref, o 50 milltir yr awr i 40, gyda'r nod o gael croesfan i gerddwyr maes o law. Gobeithio hefyd y bydd yn cael llwyddiant i ad-leoli y bin baw cŵn sydd ger mynedfa Caban - y bwyty sydd gyda hylendid bwyd o'r radd uchaf!

## YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

### Gwasanaeth Nadolig.

Daeth cynulliad da ynghyd i ddathlu Gŵyl y Geni bnawn Sul, Rhagfyr 17eg. Cyflwynwyd naws yr ŵyl trwy gyfrwng darlleniadau o'r Ysgrythur, cerddi a myfyrdodau, datganiadau o garolau a charolau cynulleidfaol i gefndir o addurniadau a chanhwyllau. Cymerwyd rhan gan deulu Rhandir - Gwyn Hefin ac Ifanwy, Einir a Catrin Gwyn, Gwenno a Guto, R.J. Williams, Dafydd Ellis, Dwynwen Williams, Pat Jones, Carol Houston a Lowri Prys Roberts gyda chyfraniad gan ein Gweinidog, y Parch Marcus Robinson. Roedd y casgliad ar y terfyn yn mynd tuag at gronfa "Corwynt Cariad" ac mae'r eglwys erbyn hyn wedi trosglwyddo £250 i'r Apêl arbennig hon yn ystod 2017 dan nawdd Eglwys Bresbyteraiddd Cymru er budd trigolion Ynysoedd y Philipinas. Yn dilyn roedd y cymdeithasu ym mwyty Caban yn hyfryd iawn ynghyd â'r lluniaeth o'r radd flaenaf fel arfer. Diolch i bawb am ddod ynghyd ac am y paratoi a fu ymhob ystyr i ddathlu'r Ŵyl.

### Cyfarfod Gweddi

Nos Sul, Ionawr 21ain, cynhaliwyd cyfarfod gweddi i ofyn am fendith ar y flwyddyn newydd. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan R.John Williams. Yn dilyn cyflwynwyd darlleniadau a myfyrdodau ynghyd ag emynau gan Iris Rowlands, Einir Gwyn, Lowri Prys Roberts a Dafydd Ellis. Cafwyd cyfarfod bendithiol.

**Y diweddar Bertie Lloyd Roberts** Trist yw cofnodi ymadawiad Bertie Lloyd Roberts a fu farw Noswyl y Nadolig. Bu ei ymlyniad â'r Eglwys ym Mrynrefail yn neilltuol ers ei ddyddiau cynnar ac wedi cyfrannu yn helaeth i bob agwedd ar ei gweithgareddau. Bu'n un o flaenoriaid ffyddlonaf yr Achos ers 1969 ac wedi bod yn Drysorydd yr Eglwys am gyfnod maith. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'i blant, Llinos a Tudur, ei frawd Trefor a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Rhos ac yn dilyn ym Mynwent Llanrug ar Ionawr 8fed. Gwasanaethwyd gan ei weinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson, ac ef a dalodd y deyrnged yn ystod y gwasanaeth.

### TEYRNGED

*Bertie Lloyd Roberts (Bert)*

*Llwyncoed Bach, Penllyn*

Fe fu farw Bertie Lloyd Roberts, gynt o Llwyncoed Bach, Penllyn, yng Nghartref Nyrsio Penisarwaen ar noswyl y Nadolig 2017 yn 82 mlwydd oed. Ar ôl colli ei fam yn ifanc fe'i magwyd gyda'i dad a'i lys-fam yn 'Bryn Awelon', Brynrefail. Fe gafodd ei addysg yn lleol yn hen ysgol Brynrefail, a'i fagu yn ffyddlon yn y capel o'r dechrau cyntaf.

Crwydrodd ymhell oddi cartref wrth wneud ei gyfnod o wasanaeth gyda'r Fyddin – i'r Almaen ac yn arbennig i Berlin. Wrth ddychwelyd adref cafodd waith yn iard Chwarel Dinorwig, a pan ddaeth gwaith y chwarel i ben fe drodd ei fryd at waith adeiladu lleol.

Wedi cyfnod fe aeth i weithio i'r cwmni diogelu safle Glyn Rhonwy, cyn cael swydd gwarchodwr ar drên bach y Wyddfa, gan aros yno am bymtheg mlynedd.

Fe briododd ei wraig Helen yng nghanol pumdegau y ganrif ddiwethaf, a symud i 'Llwyncoed Bach' yn y chwedegau lle y bu am 48 mlynedd. Yno magwyd eu merch Llinos a'u mab Tudur. Fe gollodd ei wraig Helen yn 1992 ond fe ymdrechodd ymlaen am chwarter canrif ar ei hôl.

Yn gymdeithasol ei natur roedd yn chwaraewr snwcer galluog yn ei ieuenctid, ac yn fedrus mewn pob elfen o waith crefft o gwmpas y cartref. Mawr oedd ei gyfraniad at fywyd yr Ysgol Sul a'r clwb ieuenctid ac fe'i codwyd yn flaenor yn y capel yn 1969. Mae llawer yn ei gofio fel gweddïwr naturiol a diffuant.

Bregus iawn fu ei iechyd am saith mlynedd ac mae'r teulu yn dra diolchgar i Gartref Nyrsio Penisarwaen am y gofal tyner a roddwyd iddo am dair blynedd olaf ei fywyd. Cydymdeimlir yn fawr gyda'i blant a'i frawd Trefor yn eu colled.

**Oedfaon Chwefror am 5 yr hwyr**

4: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
11: Parch Euron Hughes, Llanuwchllyn
18 a'r 25: Oedfaon dan nawdd yr aelodau ar y thema
" Dau Sul Cyntaf y Grawys "

J2O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas safe register
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

GERAINT OWEN CARPEDI
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475
CARPEDI ■ TEILS ■ VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU

CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

## Hen Gerbydau

Mae nifer o hen luniau ar gael yn dangos rhai o gerbydau cynnar y fro. Y broblem ynglyn a cheisio mwy o wybodaeth amdanynt yn aml yw'r ffaith nad yw'r rhif cofrestru yn ddigon eglur yn y lluniau i fedru olrhain eu hanes. Mae casgliad helaeth, ond anghyflawn, o gofnodion yn yr Archifdy yng Nghaernarfon yn ymwneud a thrwyddedu a chofrestru pob math o gerbydau: cloddfa o drysorau i'r rhai hynny sydd a diddordeb mewn hen beiriannau. Ond yn aml iawn, diddordeb yn y car, lori, bws neu dractor sydd gan y mwyafrif o'r rhai sy'n ymholi, heb fawr o ddiddordeb yn eu perchnogion.

Mae pryniant gwahanol gerbydau gan unigolion (a chwmniau) yn chwarter cyntaf y ganrif ddiwethaf yn taflu goleuni ar ddatblygiad trafnidiaeth ar ffyrdd y fro, boed yn rhai o'r bysus cynnar neu'n gerbydau cario nwyddau.

Daw'r llun cyntaf o Ddeiniolen, ac mae'n ymddangos mai cerbyd cario nwyddau sydd wedi parcio o flaen siop cigydd (sosej sy'n hongian yn y ffenestr?). Efallai y gall rhai o'r darllenwyr leoli'r siop ac enwi'r rhai sydd yn y llun. Yr hyn sydd o gymorth i ddarganfod mwy am y cerbyd yw'r ffaith fod y rhif cofrestru yn ddealladwy : CC 6678. Dyna fynd ati felly i chwilio am wybodaeth – a'i gael, er nad yn hollol gyflawn.

Mae'r cofnodion yn nodi mai "Goods Van" o wneuthuriad Overland a welir, ac mai siocled oedd y lliw. Fe'i cofrestrwyd gyntaf ym mis Mawrth 1926, a'r perchennog oedd Morris Jones, Waen Goch, Ebenezer. Yn y cyfeiriad hwnnw hefyd roedd y cerbyd yn cael ei gadw. Dim ond dogfennau ail-godi trwydded yn enw'r un person sydd ar gadw, ac mae'r cofnod olaf o hynny'n digwydd ar 16eg o Ionawr 1932. Gwyddom felly i'r 'goods van' hon fod yn



gwasanaethu yn ardal Deiniolen am o leiaf chwe mlynedd – ond does wybod beth ddigwyddodd iddo wedyn.

Un ffaith ddiddorol yn y cofnodion yw'r newid enw o Ebenezer i Ddeiniolen. Hyd Ionawr 1927 roedd y cerbyd yn cael ei gadw yn Waen Goch, Ebenezer, ond wedi hynny, roedd Waen Goch yn Neiniolen! Dyma'r cyfnod pryd y penderfynwyd newid enw swyddogol y pentref yn dilyn ymgyrch gan H.R.Jones; newid nad oedd yn plesio yr Athro W.J.Gruffydd o gwbl. Ond mae'n amlwg fod Morris Jones, Waen Goch, wedi derbyn y newid yn ddigon naturiol.

Os oes unrhyw un a gwybodaeth bellach am y cerbyd neu am alwedigaeth Morris Jones, Waen Goch (tybed ai fo oedd y cigydd?), yna cysylltwch.

## Mwy am Bing, Llanberis





Dyma, heb os, pam y rhoddwyd yr enw Bing ger man cychwyn prif lwybr o Lanberis i gopa'r Wyddfa. Cludwyd y copr o gloddfa Clogwyn Coch a'i storio yn y Bing cyn ei fasnachu. Codwyd bythynnod o'r un enw ( Bing Cottages) yn yr union fan cyn eu dymchwel dros bedwar ugain mlynedd yn ôl ar gyfer codi tai Cyngor Maes Derlwyn. Holwyd am yr enw Bing mewn llythyr i'r Goleuad cyn belled yn ôl a mis Ebrill 1878. A dyma lun o 'Giat Bing' gyda'r bythynnod gerllaw. Gyda diolch i Ken Jones am y llun.

Yn y Gernyweg ystyr y gair Byng ydi 'sỳmp' a oedd yn rhan o iaith mwynwyr copr yr ardal.

## Hen Felin yng Nghlwt y Bont

Daeth cais i law yn holi am felin o'r enw Caerffynnon Mill. Oes unrhyw un a gwybodaeth?

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS



# Y Cenhadwr Twyllodrus.

Dyna sut y disgrifiwyd y Parch John Walter Jarvis yng ngwahanol bapurau newyddion Mai, Mehefin a Gorffennaf 1875, ac yr oedd y rhan fwyaf o'i weithgareddau wedi digwydd ym mhentrefi Llanberis a Llanrug. Mae'n ymddangos iddo gyrraedd yr ardal hon rywdro yn ystod mis Mai, oherwydd gwnaeth argraff ar rai o fasnachwyr Llanberis, ond yn arbennig ar un neu ddau o weinidogion y pentref. Gyda llaw, does yr un o'r gweinidogion yn cael eu henwi yn yr adroddiadau papur newydd. Roedd Jarvis yn honni mai cenhadwr gyda'r Bedyddwyr oedd, a'i fod wedi dychwelyd o India er mwyn treulio cyfnod byr yng ngogledd Cymru i gael adferiad iechyd. Ar y pryd roedd yn lletya yn y pentref, a chafodd wahoddiad i bregethu yn rhai o gapeli'r pentref hefyd. Rywdro tua diwedd y mis penderfynodd ddringo'r Wyddfa, ond cafodd ei ddal mewn glaw trwm, ac o ganlyniad i hynny, (a'r ffaith fod un o weinidogion Llanberis wedi credu ei stori am adferiad iechyd), cafodd fenthyca siwt o ddillad tra roedd ei ddillad ei hun yn sychu. Pan adawodd y llety, dywedodd ei fod angen mynd i'r banc yng Nghaernarfon i gael arian i dalu am ei arhosiad, ac i ffwrdd a fo yn ei siwt fenthyg! Ddaeth o ddim yn ol i Lanberis i dalu am ei lety nac i ddychwelyd siwt y gweinidog. Cafodd ei ddisgrifio fel gwr ifanc tua 25 mlwydd oed a'i groen yn melynu. Roedd ganddo wallt golau a 'whiskers'. Gwisgai siwt ddu a het silc – sef eiddo'r gweinidog. Does wybod pam na chafodd ei ddal: efallai i'r plismon lleol goelio ei fod wedi mynd am Gaernarfon.

Ond mae'n amlwg ei fod wedi cael llety yn Llanrug erbyn hynny, gan Edward Jones, Bryngwyn. Roedd Edward Jones wedi bod yn gwrando arno'n pregethu (ni ddywedir ym mha gapel), ac wedi rhoi gwahoddiad iddo aros noson yn y Bryngwyn. Ar ol brecwast diflannodd Jarvis, ond diflannodd par o sanau, coler crys a ffotograff hefyd. Galwyd ar P.C. William Jones, plismon Cwm y Glo, ac aeth ar drywydd y lleidr – a gyda mwy o lwyddiant na phlismon Llanberis.

Roedd Jarvis erbyn hyn wedi croesi i Fon ac wedi dwyn modrwy aur oddi ar wraig ym Mhorthaethwy, ond wedi perswadio pobl Biwmares i roi cyhoeddiad iddo mewn capel Annibynwyr yno. Ac yno y daliodd P.C.William Jones y twyllwr; ond gadawodd iddo orffen ei bregeth a diweddu'r gwasanaeth cyn ei gymryd i'r ddalfa. Tra ar y daith yn ol am Gaernarfon ceisiodd Jarvis lwgr-wobrwyo'r plismon gan gynnig modrwy aur iddo os cai ei ollwng yn rhydd.

Safodd ei brawf yng Nghaernarfon ar ddechrau mis Mehefin ar gyhuddiad o ddwyn oddi ar Edward Jones ac eraill. Ar y dechrau honnai fod y par sanau wedi eu taflu i'r Fenai rhywle rhwng Porthaethwy a Biwmares, ond yna newidiodd ei stori gan ddweud ei fod yn fwriad ganddo ddychwelyd y sanau, y goler crys a'r ffotograff i Edward Jones, er na allai ddatgelu ble roeddent. Doedd dim son am siwt y gweinidog na'r tal am lety yn Llanberis. Holwyd Edward Jones ynglyn a'r digwyddiad, gan ofyn iddo hefyd sut fath o bregethwr oedd Jarvis – fel petai hynny o unrhyw bwys. Ateb Edward Jones oedd fod y bregeth ei hun yn dda, ond nad oedd y cyflwyniad cystal! Mae hyn yn syndod braidd o feddwl fod Jarvis wedi medru rhaffu celwyddau yn ddigon argyhoeddedig i dwyllo masnachwyr a dau o weinidogion Llanberis.

Dedfrydwyd Jarvis i fis o garchar gyda llafur caled. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Fel y cai ei ryddhau o garchar Caernarfon fis yn ddiweddarach, roedd heddgeidwaid o Fon yn disgwyl amdano, a chafodd ei gymryd i'r ddalfa am yr eilwaith. Safodd ei brawf ym Mhorthaethwy ddechrau mis Gorffennaf ar gyhuddiad o ddwyn modrwy aur, ac o ystyried ei droseddau blaenorol, fe'i dedfrydwyd i chwe mis o garchar.


Daeth un cyhoeddiad amdano o'r wasg Americanaidd. Mae'n amlwg fod Walter Jarvis wedi bod drosodd yn yr America rai blynyddoedd cyn cyrraedd Llanberis. Yr un oedd ei stori yno hefyd, sef mai cenhadwr gyda'r Bedyddwyr yn India bell oedd ei alwedigaeth, ond fod angen adferiad iechyd arno. Bu'n dwyn yn Jersey City, Efrog Newydd, Utica ac yn ardaloedd Cymreig Pennsylvania. Efallai fod y Cymry crefyddol yn fwy parod i wrando arno! Does wybod a gafodd garchar yno hefyd.

Pwy felly oedd John Walter Jarvis? Mae rhai o'r adroddiadau o'r newyddiaduron yn honni ei fod yn fab i weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Abertawe; eraill yn dweud ei fod o "deulu parchus" yn y deheudir, ond mewn copiau o'r 'Police Gazette' ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 1876 (flwyddyn wedi ei helyntion yn Llanberis a Llanrug), fe ddywedir mai un o Gaernarfon oedd yn wreiddiol, ond fod ei rieni bellach yn byw yn Canton,Caerdydd. Mae'r disgrifiad yn y 'Police Gazette' yn cyd-fynd a'r hyn a roddwyd yn dilyn y lladrad yn Llanberis, ond rhoddir blwyddyn ei eni yn 1846. Dywedir hefyd ei fod yn honni mai caplan Carchar Biwmares oedd ei alwedigaeth! Gallai fynd dan amryw enwau gwahanol: John Walter Jarvis, James Jarvis, John Walter Jones a John Walter Lloyd, ond wrth gwrs, does dim sicrwydd a oedd unrhyw un o'r rhain yn enw bedydd iddo.

A pham y cai sylw yn y 'Police Gazette' ? Wel, roedd warrant allan am ei ddwyn i'r ddalfa gan Superintendent Harris, Llanelli. Mae'n ymddangos ei fod wedi twyllo gwr o'r enw George Broom yn y dref honno a chyflwyno siec am £3-10-0 iddo er mwyn cael arian parod. Doedd y banc ddim yn fodlon derbyn y siec gan George Broom druan a oedd ar ei golled o £3-10-0. Bryd hynny, roedd adroddiad amdano rywle yng nghyffiniau Llanfair ym Muallt. Mae'n amlwg na chafodd ei ddwyn i'r ddalfa, oherwydd y cofnod olaf i mi ddarganfod amdano oedd yn Llys Chwarter Sesiwn Morgannwg ym mis Ebrill 1878. Yno, cafodd ei ddedfrydu i garchar am ddeunaw mis am ddwyn ceffyl. Tybed beth fu ei hynt wedi hynny?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch [redacted] ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

## AC A AS Arfon yn diolch i bobl yr etholaeth am eu cyfaniadau i Fanciau Bwyd Caernarfon a Bangor

Dyma'r ail flwyddyn i Plaid Cymru Arfon gynnal ymgyrch y Calendr Adfent Tu Chwith, sef cynllun sy'n annog pobl i roi i'r anghenus bob dydd yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig. Y syniad ydi bod pobl yn rhoi un eitem o fwyd mewn bocs bob dydd yn ystod yr Adfent, ac yna yn ei gyflwyno i'w banc bwyd lleol cyn y Nadolig. Er mwyn hwyluso hynny mae Plaid Cymru Arfon wedi gwneud eu swyddfa nhw yn fan casglu i bobl ddod â'u nwyddau, ac mae aelodau a chynghorwyr y Blaid yn Arfon wedi bod yn casglu o gartrefi hefyd. Cyflwynwyd yr holl nwyddau i fanciau bwyd Caernarfon a Bangor ar y dydd Gwener cyn y Nadolig gan Sian Gwenllian AC a Hywel Williams AS.

Meddai Sian Gwenllian "Mae pobol Arfon wedi ymateb yn wych unwaith eto i'n hymgyrch ni ym Mhlaid Cymru Arfon i sicrhau nad yw'r banciau bwyd yn mynd yn brin o nwyddau y Nadolig yma, ac fe rannwyd 200kg o fwyd rhwng y ddau fanc bwyd sy'n lleol i ni. Mae banciau bwyd Caernarfon a Bangor yn brysur drwy'r flwyddyn, wrth gwrs, ond mae teuluoedd ar incwm isel yn ei chanfod hi'n arbennig o anodd i ddal dau ben llinyn ynghyd yr adeg yma o'r flwyddyn, gan bod disgwyl iddyn nhw dalu am bethau ychwanegol. Mae'r tywydd oer yn amlwg yn ffactor hefyd a nifer fawr o bobol yn gorfod dewis rhwng gwres a bwyd. Mae'n sefyllfa dorcalonnus a bod yn hollol onest."

Mae'r defnydd o fanciau bwyd yn cynyddu'n flynyddol, a nifer fawr o deuluoedd sydd mewn gwaith yn gorfod eu defnyddio. Cyflogau isel a chytundebau sero awr sydd yn gyfrifol yn aml iawn gyda phobl angen bwyd i'w cynnal tan bod y cyflog nesaf yn cyrraedd. Yn ôl y Trussel Trust fe roddwyd 208,956 o barseli bwyd i blant rhwng Ebrill a Medi eleni. Dywedodd Gwyn Williams o Fanc Bwyd Caernarfon:

"Rydym yn gweld cynydd bob blwyddyn yn y bobol sydd angen defnyddio'r banc bwyd, a 'dan ni'n lwcus bod haelioni pobol yn cynyddu efo'r angen. Oedi mewn budd-daliadau ydi un o'r achosion mwyaf cyffredin sy'n dod â phobol atom ni, ac mae dros 50% o'r bobol rydym ni'n eu bwydo yn dod yma oherwydd sancsiynau ar eu budd-dal neu oherwydd newid mewn amgylchiadau lle maen nhw'n gallu bod heb fudd-dal am bump i chwe wythnos mewn rhai achosion."

Meddai Hywel Williams: "Mae'n sefyllfa drist iawn bod angen banciau bwyd o gwbwl ac maen nhw wedi dod yn 'norm' erbyn hyn, sydd yn dweud llawer am yr anghyfartaledd dybryd sydd yn ein cymdeithas. Fyddwn i ddim yn dymuno dychmygu beth fyddai hanes pobol anghenus ein cymunedau heb y ddarpariaeth yma a dwi'n diolch o waelod calon i'r rhai sydd wedi rhoi mor hael eto eleni, ac i wirfoddolwyr y banciau bwyd yng Nghaernarfon a Bangor."

# Gor-ddefnydd o'r Wyddfa?

Fel roedd y rhifyn hwn yn cael ei baratoi daeth y newyddion fod deunaw (18) – ie, deunaw o rasys rhedeg i'w cynnal ar yr Wyddfa yn ystod eleni – a gall fod rhai eraill na wyddom amdanynt hyd yn hyn.

Mae rhai ohonynt yn rasys 'lleol'. Hynny yw, rasys sydd wedi eu trefnu yn lleol, gan unigolion neu glwb rhedeg, ac sydd wedi bod ar galendr y rasys rhedeg mynydd ers blynyddoedd. Rasys fel Ras yr Wyddfa, Ras Gwylnos yr Wyddfa, Ras Pedol Peris a Ras 1,000 metrau (yr hen ras 3,000 troedfeddi). Mae'r gweddill yn rasys sydd wedi eu trefnu gan gwmniau masnachol, a'r mwyafrif ohonynt heb unrhyw gysylltiad a'r fro, ond yn defnyddio'r Wyddfa fel atyniad i ddenu cystadleuwyr sy'n fodlon talu prisiau anhygoel am gael cystadlu.

Mae'n ymddangos nad yw'r cwmniau hyn yn cysidro y dyddiadau pryd y cynhelir y rasys traddodiadol. Daeth i sylw'r "Eco" fod un o'r cwmniau hyn wedi gwneud cais am gael defnyddio'r ddol yn Llanberis ar ddiwrnod Ras yr Wyddfa! Mae trefnydd Ras Moel Eilio, a gynhelir yn draddodiadol ar ddechrau Mai, wedi gorfod newid y dyddiad oherwydd fod cwmni masnachol arall wedi trefnu digwyddiad ar yr union ddyddiad arferol, a'r digwyddiad hwnnw yn cynnwys cwrs y ras. Deallwn hefyd fod problem bosibl ynglyn a Ras Elidir, sydd bellach wedi gefeillio efo Gwyl Ffair Nant. Mae cwmni masnachol arall yn bwriadu trefnu ras ar hyd union gwrs Ras Elidir, a hynny ar yr un diwrnod!

Mae'r holl waith ad-drefnu yn golygu cur pen sylweddol i drefnwyr lleol sy'n gweithredu'n wirfoddol. Gall hefyd effeithio ar rasys pencampwriaeth mynydd Cymru a Phrydain. Mae'r rasys sy'n cyfrif tuag y pencampwriaethau blynyddol yn cael eu pennu fisoedd ymlaen llaw, ac y mae newid dyddiadau yn creu problemau gweinyddol i drefnwyr y pencampwriaethau a phroblemau i'r cystadleuwyr. Ond mae'n bosib ymdopi a hynny, er mor drafferthus.

Y gwir broblem yw'r gor-ddefnydd hwn o lwybrau'r Wyddfa gan y cannoedd o redwyr sy'n cael eu denu i'r digwyddiadau masnachol. Ar wahan i Ras yr Wyddfa, nid yw'r niferoedd yn y rasys lleol eu trefniant yn denu cymaint a hynny, ac felly nid yw'r effaith ar y tirwedd cynddrwg.

Mae pryderon difrifol am effaith erydu ar lwybrau'r Wyddfa, a phryder sylweddol ynglyn a'r niferoedd cynyddol sy'n troedio i'r copa, a hynny bellach ym mhob mis o'r flwyddyn. Onid yw'n amser i gyrff cyhoeddus megis Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol, ac asiantaethau a chymdeithasau gwirfoddol megis Timau Achub Mynydd a Chlybiau Rhedeg lleol gael trafodaeth adeiladol. Ac onid oes unrhyw ddull cyfreithiol o gyfyngu ar y defnydd a wneir o'r tirwedd lleol gan gwmniau masnachol, a hynny er elw yn unig.

## Gwynedd Ddigidol ar restr fer gwobrau cenedlaethol

Mae cynllun Gwynedd Ddigidol sy'n helpu ceisio gwella mynediad at y rhyngrwyd i drigolion a busnesau lleol, wedi cael ei gynnwys ar restr fer ar gyfer gwobrau cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru.

Mae'r cynllun, sy'n cael ei ddarparu gan Citizens Online mewn partneriaeth gyda Gyngor Gwynedd, wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau Trydydd Sector Cymru yn y categori Cynhwysiad Digidol.

Mae'r cynllun yn cynnig sesiynau am ddim o amgylch y sir er mwyn gwella sgiliau cyfrifiadurol ac ar-lein, ac maent yn cydweithio gydag amryw o fudiadau eraill i gydlynu gweithgareddau cynhwysiant digidol. Mae Gwynedd Ddigidol hefyd yn annog pobl i wella eu sgiliau a grymuso gwirfoddolwyr a staff er mwyn eu gwneud yn 'bencampwyr digidol', sy'n hanfodol er mwyn ysgogi a chefnogi pobl yn y gymuned i ddefnyddio technoleg. Ers Ionawr 2016, mae'r cynllun wedi penodi 140 o bencampwyr trwy'r sir.

Meddai'r Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am daclo amddifadedd:

"Mae Gwynedd Ddigidol yn gynllun pwysig sy'n cynnig cymorth ymarferol i drigolion ledled y sir. Fel Cyngor, ein nod ydi sicrhau fod gan bawb yng Ngwynedd gyfle gwirioneddol i elwa a gwneud y mwyaf o'r hyn mae'r dechnoleg ddiweddaraf yn ei gynnig.

"Braf iawn gweld fod cynllun Gwynedd Ddigidol wedi ei gydnabod yn y gwobrau cenedlaethol yma drwy gyrraedd y rhestr fer.

"Yn ogystal â chymorth cyffredinol am ddefnyddio'r we, mae gwybodaeth hefyd ar gael er mwyn i drigolion allu gwneud y mwyaf o wasanaethau ar-lein y Cyngor – fel gwneud cais am fudd-dal tai, talu Treth Cyngor, archebu biniau ailgylchu neu sesiwn ffitrwydd yn eich Canolfan Hamdden leol a llawer mwy. Mae popeth ar gael ar glicied botwm."

Am ragor o wybodaeth am Gwynedd Ddigidol, ewch i https://gwyneddddigidol.cymru/

Mae sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal gan Gwynedd Ddigidol mewn lleoliadau ledled y sir. Mae sesiynau rheolaidd yn cael eu cynnal yn:

Llyfrgell Caernarfon: Dydd Llun, 10am-12pm

Menter Fachwen, Cwm-y-glo: Dydd Mercher, 10am-12pm

Age Cymru Gwynedd a Môn, Y Cartref, Bontnewydd: Dydd Mercher, 2pm-4pm

I greu cyfrif Cyngor Gwynedd er mwyn cymryd mantais o'r gwasanaethau sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif

# TUDALEN YR IFANC

## Codi Ymwybyddiaeth am Newid Hinsawdd: Gwilym Bowen Rhys

Yn ystod Ionawr a Chwefror rydw i'n cymryd rhan mewn sioe theatr newydd o'r enw '2071' sy'n teithio dros Gymru gyfan. Mae'r sioe yn rhyw fath o raglen ddogfen fyw sy'n sôn am yr amgylchedd a newid hinsawdd. Mae'n ddarlith ond sydd hefyd yn cynnwys fideos, effeithiau sain a chaneuon. Yr actor Wyn Bowen Harris ydi'r darlithydd, gydag Angharad Jenkins, o'r band Calan, ar y ffidil ac effeithiau sain fel cyfeiliant i'r sioe, a fi fel canwr (a 'chydig o effeithiau sain hefyd).



Dwi'n cofio gweld y ffilm 'An Inconveniant Truth' yn yr ysgol, ac mae'r sioe yma yn rhywbeth ddigon tebyg; sbïo mewn i'r amgylchedd a sut 'da ni'n ei effeithio, sbïo ar ffigyrau gwyddonol, ac wrth gwrs, y ffaith sy'n amhosib ei osgoi, ein bod ni yn achosi i dymheredd ein hatmosffer godi ac i'r capiau rhew doddi, a bob math o effeithiau negyddol eraill ar ein daear, drwy losgi tanwyddau ffosil ayyb.

Er mod i'n meddwl mod i'n gwybod y ffeithiau yma'n barod cyn ymarfer y sioe, roedd rhai o'r ffeithiau a'r ffigyrau yn y ddarlith wedi peri sioc i mi, ac mae'n debyg mai dyna yw bwriad y sioe, sef bod y gynulleidfa'n gadael yn fwy ymwybodol o'r effaith rydan ni'n ei gael ar ein byd, a be 'da ni fel unigolion yn gallu'i wneud am y peth.

Dydw i ddim yn gwybod am lawer o ganeuon sy'n delio â'r pwnc yma, yn Gymraeg nac yn Saesneg, felly ma' 'di bod yn bleser i mi dderbyn y sialens o 'sgwennu caneuon i'r sioe. Does'na'm byd yn ysgogi'r awen cweit fel briff penodol iawn (a deadline, wrth gwrs!). Erbyn i'r rhifyn yma o'r Eco ddod allan byddan ni wedi perfformio yn Galeri Caernarfon yn barod, ond mae'r sioe yn Pontio Bangor ar y 6ed o Chwefror, felly dewch draw!

## Sôn am Sîn: Dydd Miwsig Cymru

Ar ddydd Gwener y 9fed o Chwefror, mae hi'n Ddydd Miwsig Cymru. Dyma'r trydydd gwaith i'r diwrnod ymddangos ar ein calendr, i ddathlu a lledaenu'r gair am gerddoriaeth Cymraeg, ac fel ymdrech i wireddu'r weledigaeth ehangach o weld miliwn o bobl yn siarad ac yn defnyddio'r iaith Gymraeg erbyn 2050.

Mae yna lawer o bethau'n digwydd i ddathlu'r diwrnod, gan gynnwys cerddoriaeth newydd gan artistiaid fel The Gentle Good, Gwilym, Adwaith a Los Blancos, a gigs a digwyddiadau yn cael eu cynnal ar hyd a lled y wlad. Nid nepell o fro'r Eco, bydd Serol Serol, Adwaith a Chroma yn camu i'r llwyfan yn Galeri Caernarfon. Mae llawer o sôn wedi bod yn ddiweddar am y ffaith nad oes gymaint o ferched yn creu cerddoriaeth yn y Gymraeg i gymharu â dynion, ond dyma gyfle i weld tri band ffantastig gyda merched yn rhan annatod ohonynt.

Os nad ydych chi yn gwybod lle i ddechrau wrth feddwl pa gerddoriaeth Gymraeg i wrando arno mae chwe rhestr chwarae wedi'u creu gan y DJ Gareth Potter, yn cynnwys Acwstig, Electronig, O Gwmpas y Tân, Dim Brys, Codi Chwys a Sêr y Sîn i'w chwarae ar Spotify, Apple Music a Deezer. Mae Gareth hefyd wedi paratoi rhaglen radio arbennig ar Mixcloud am yr artistiaid Cymraeg sydd wedi newid y gêm. Mae wedi recordio fersiwn Cymraeg a Saesneg, felly mae'n ffordd wych o gyflwyno'r gerddoriaeth i'ch ffrindiau di-Gymraeg hefyd.

Ond cofiwch, nid yw cerddoriaeth Cymraeg ar gyfer Dydd Miwsig Cymru yn unig a bydd yno gyfleodd lu i weld cerddoriaeth Cymraeg ym mro'r Eco ar hyd y flwyddyn. Hefyd, wrth gwrs, ewch draw i sonamsin.cymru, lle bydd adolygiadau a darnau barn yn ymddangos yn gyson.



## DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

**Seindorf Ieuenctid Deiniolen**

Nos Lun, y 4ydd o Ragfyr, roedd Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi yn orlawn i gyngerdd Nadolig Bandiau Ieuenctid Deiniolen. Roedd dros 60 o bobl ifanc yn cymryd rhan, rhai yn y Band Iau o dan arweiniad Gareth Williams ar gweddill yn y Band Ieuenctid o dan arweiniad Osian Tomos.

Yn ystod y noson roedd canu cynulleidfaol ac unawdau pres gan Morgan Williams ac Elin Dafydd gyda Catrin Llywelyn yn cyfeilio.

Yn ystod y noson fe gyhoeddwyd enillwyr gwobrau y Band am eleni. Glyn Porter enillodd Wobr Goffa Mr a Mrs Eifion Williams. Elis Jones enillodd Wobr Goffa Mr a Mrs O.H. Jones ac Elin Glyn Davies o'r Band Iau enillodd wobr goffa y diweddar Mr Eifion Williams (Knockin) a gyflwynwyd gan ei wyres Catrin. Yn ystod y noson fe gyflwynwyd Ysgoloriaeth Iwan Williams 2018 i Glyn Porter ac Elin Dafydd.

Talwyd y diolchiadau ar y noson gan Gadeirydd y Band, sef Dylan Huw Jones, a daeth Sion Corn i weld y plant. Diolch i bawb a fu ynghlwm â pharatoadau y noson ac i'r rhai fu'n helpu i baratoi paned a mins pei i bawn ar ddiwedd y cyngerdd.

Hwn oedd cyngerdd olaf Osian fel arweinydd y Band Ieuenctid a dymuna ddiolch i bawb sydd wedi bod yn gefnogol iddo ef a'r band ieuenctid dros y 9 mlynedd y bu'n arweinydd. Hoffai gymryd y cyfle yma i ddymuno'n dda i'r Band Ieuenctid a'r holl aelodau yn y dyfodol.

**Cymdeithas Lenyddol Undebol Deiniolen**

Mae'n fwriad ail sefydlu'r Gymdeithas wedi cyfnod segur diweddar, mae hyn yn debygol o ddigwydd o fis Medi ymlaen. Diolch yn fawr i'r rhai a fu'n ei gynnal tan yn ddiweddar gan obeithio y bydd yr un mor llwyddiannus o Fedi ymlaen. Cyhoeddir mwy o wybodaeth yn nes at yr amser, yn y cyfamser mae croeso i unrhyw un gysylltu gyda Glyn Llewelyn ar 872133 os am gynnig unrhyw gymorth.

**Mynwent Macpela**

Derbyniwyd sylw gan drigolion o'r pentref yn ddiweddar sydd wedi amlygu pryder am bresenoldeb cŵn ym mynwent gyhoeddus Macpela. Nodwyd fod cŵn wedi eu gweld yn rhedeg yn rhydd o fewn tir y fynwent gan berchnogion. Mae hyn yn fater pryderus iawn os yw perchnogion cŵn yn dewis mynd i'r fynwent i adael eu cŵn yn rhydd. Mae llwybr cyhoeddus yn rhedeg trwy'r tir ac, yn amlwg, mae gan berchnogion cŵn hawl i ddefnyddio'r llwybr yma os yw'r cŵn ar dennyn a'u bod yn llnau ar eu hôl. Ond erfynnir ar y rheini sydd ddim yn parchu'r tir cysegredig yma i roi'r gorau i'w ddefnyddio fel man i hamddena gyda chŵn.



Hoffai Elin Dafydd, 88 Pentre Helen, Deiniolen a'r teulu ddatgan eu diolch a'u gwerthfawrogiad i bwyllgor Ysgoloriaeth Iwan Williams am y rhodd wrth ennill yr Ysgoloriaeth am 2018. Mae Elin a'r teulu yn gwerthfawrogi yn fawr iawn. Diolch.

Llongyfarchiadau hefyd i ti Elin Dafydd ar basio Gradd 5 ar y Tenor Horn. Diolch i Gavin Saynor am ei hyfforddi.

## LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

### 'Gair yn Gnawd'

*Cyflwyniad Campus Capel Coch*



Nos Sul, Rhagfyr 17 cafwyd cyflwyniad ardderchog o'r Gantawd Gair yn Gnawd yng Nghapel Coch, Llanberis gan aelodau ac ieuenctid o dair o eglwysi'r pentref, Capel Coch, Nant Padarn ac Eglwys Sant Padarn. Bu'r criw'n cyfarfod yn gyson ers diwedd mis Medi i ddysgu ac i ymarfer y gwaith. (Roedd y cyflwyniad wedi ei drefnu yn wreiddiol ar gyfer y nos Sul blaenorol, ond oherwydd y darogan am eira ar gyfer y Sul hwnnw penderfynwyd gohirio am wythnos. Fel y digwyddodd, os cofiwch, welwyd mo'r eira wedi'r cwbl.)

Un o flaenoriaid ac organyddion Capel Coch, Gareth Jones, oedd y prif ysgogydd a fu'n gyfrifol am gynnull y criw ynghyd ar gyfer y cyflwyniad hwn; Eleri Foulkes oedd arweinydd y côr; aelodau'r band oedd Iwan Davies, Dewi Jones, Aled Pritchard a Gareth ei hun; a'r prif unawdwyr ifanc oedd Cadi Thomas a Deio Llwyd Roberts. Diolch yn fawr i bob un ohonynt am eu gwaith caled, ac i holl aelodau'r côr, a'r unawdwyr a'r llefarwyr a gymerodd ran. Roedd yn amlwg fod pawb wedi mwynhau'n fawr y cyfle i fod yn rhan o'r cyflwyniad.

Cyfansoddwyd Gair yn Gnawd gan Linda Gittins, Penri Roberts a'r diweddar Derec Williams yn 2011 ar gyfer aelodau Ysgol Theatr Maldwyn. Fe'i darlledwyd ar Radio Cymru ddydd Nadolig y flwyddyn honno, a'i gyhoeddi yn ddiweddarach gan Gwmni Sain. Diolch am y caniatâd a gafwyd ganddynt i gyflwyno'r gwaith yng Nghapel Coch. Diolch hefyd am y cymorth ariannol hael a gafwyd gan Bwyllgor Y Ganolfan yn Llanberis at y gost o brynu llyfrau'r Gantawd; gwerthfawrogir y gefnogaeth a'r nawdd yn fawr iawn.

Yr oedd y cyflwyniad yn rhan arbennig iawn o'n dathliadau Nadolig yn Llanberis, a gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr gan bawb o'r gynulleidfa gref a ddaeth yno.

Roedd elw'r noson ar gyfer ymdrech Capel Coch at apêl 'Corwynt Cariad' 2017 Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymorth Cristnogol, i gefnogi pobl yn Ynysoedd y Pilipinas. Llwyddwyd i godi £620 at yr achos.

# *Parhad* LLANBERIS

**Bu farw Mrs Nellie Pritchard**, 3 Ffordd Padarn ym Mhlas Pengwaith ddydd Iau, Tachwedd 17 yn 97 mlwydd oed, a chynhaliwyd ei hangladd yn Capel Coch ddydd Mercher, Tachwedd 23 dan arweiniad ei nai, y Parchg John Pritchard. Mrs Falmai Pritchard oedd yr organydd. Yn dilyn y gwasanaeth yn y capel, cafwyd gwasanaeth byr ar lan y bedd ym Mynwent Nant Peris.

Cydymdeimlwn â'i mab Douglas yn ei golled. Cydymdeimlwn hefyd â Hazel a Louie, chwaer a chwaer yng nghyfraith Nellie, a'r teulu cyfan yn eu colled hwythau. Mae Hazel yn derbyn yr un gofal ym Mhlas Pengwaith ers rhai blynyddoedd.

Roedd Nellie yn un o chwech o blant a fagwyd yn Bwlch, Cwm y glo, yn chwaer i Hughie, Maggie, Laura, Jim a Hazel. Ymgartrefodd yn Llanberis wedi iddi briodi â Ted Pritchard, a daeth yn aelod ffyddlon o'r eglwys yng nghapel Nant Padarn. Dros y blynyddoedd bu'n gweithio mewn sawl lle; ar ddechrau'r Rhyfel roedd yn gweithio yn ffatri NECACO; yna bu'n gweithio fel 'confectioner'; ac yn ei swydd olaf yr oedd yn 'pastry cook' yn y cantîn yn Glyn Rhonwy adeg adeiladu'r gwaith trydan yn Ninorwig. Bu'n gwneud gwaith gwirfoddol hefyd, yn coginio yng ngharafán y Gwasanaeth Pryd ar Glud yn Llanberis am gyfnod. Bu'n wraig a mam dda, ac roedd colli ei phriod Ted yn amlwg yn ergyd iddi. Yn amlwg, bu'n ofalus iawn o Douglas; a bu yntau'n ofalus ohoni hithau i'r diwedd.

**Ymddiheuriad** Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, mi rois enw anghywir i'r ddiweddar Mrs Nellie Pritchard, 3 Ffordd Padarn. 'Rwyf yn ymddiheuro'n llwyr am fy nghamgymeriad.

**GWASANAETHAU CAPEL COCH**

Chwefror 4ydd: 10yb Parch. Harri Parri
11eg: 10yb a 5yh Y Gweinidog
18fed: 10yb Mr Huw Tegid Roberts
25ain: 10.30yb Oedfa Deulu
**Mawrth** 4ydd: 10yb Mr Corey Hampton

**Y Gymdeithas Undebol** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar Nos Fawrth, Chwefror 6ed, am 7 o'r gloch, pryd y ceir cwis o dan ofal y Parchedig John Pritchard. Bydd paned a bisgedi i ddilyn.

**Enillwyr Clwb 400 CPDL**


**Medi** 2017 1. £50: Gwilym Roberts, 15 Maes Padarn; 2. £30: Carwyn Jones, Aylwyn, Ffordd Capel Coch.

**Hydref** 2017 1. £50: Eifion Evans, Cynlas, High Street; 2. £30: Aron Thomas, Rock Terrace.

**Tachwedd** 2017 1. £50: Lliwen Hughes, Thomas Street; 2. £30 Eifion Roberts, Ffordd Padarn.

**Nadolig** 2017 1. £100: Adrian Wakeham, High Street; 2. £80: William Myfyr Roberts, Rhyd Y Bont; 3. £40: Bryn Jones, Llanrug; 4. £20: Margaret Griffiths, Bryn Teg.

## Cofio "Mab Balch Llanberis"



Ddydd Gwener, 5ed o Ionawr yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ymunodd teulu a chyfeillion i ddiolch am fywyd Ralph Denholm Jones a fu farw ar 23ain o Ragfyr yn y Rheithordy, Conwy ble'r aeth i fyw gyda'i ferch, Eryl a'i fab yng nghyfraith, y Parch David Parry. Roedd y gwasanaeth angladdol yng ngofal y Parchedig Dr Carol Roberts, yn cael ei chynorthwyo gan y Parchedig Allan Wilcox, y Canon Robert Townsend a'r Canon Philip Hughes, gyda chyfraniadau gan David, Gwen ac Anna Parry a'r organydd Iwan Wyn Williams.

Roedd Ralph yn fab balch Llanberis; wedi ei eni a'i fagu yn y pentref cyn ennill Ysgoloriaeth William Pritchard i Brifysgol Bangor. Tra'n fachgen yn pysgota ym mhyllau y nentydd ar y mynyddoedd o amgylch, datblygodd ei ddiddordeb a'i gariad o bethau byw, a doedd hi'n ddim ond naturiol iddo ddewis Bywydeg fel pwnc, gan arbenigo'n ddiweddarach fel Limnolegydd (astudiaeth o ecoleg afonydd a llynoedd dwr croyw). Bu'n athro uchel ei barch ym Mhenarlag a Bangor, cyn treulio'r rhan helaethaf o'i fywyd yn Lerpwl fel Prif Ddarlithydd a chyfrifoldeb rheolaeth fel Pennaeth Gwyddoniaeth yn y sefydliad a elwir heddiw yn Brifysgol Liverpool Hope.

Ei gariad a'i falchder oedd ei deulu: 60 mlynedd o fywyd priodasol gyda'i annwyl Nancy, a'i marwolaeth yn 2015 yn golled enfawr iddo; ei wyresau, Gwen ac Anna, a'u rhieni Eryl a David. Treuliodd Ralph a Nancy ymddeoliad hir a hapus yn Llanberis; yn Taliesin (Preswylfa) a'r Garnedd (Station Road); yn agos at chwaer Nancy, y ddiweddar Olwena Morris a brodyr Ralph, Cyril, y diweddar Tom, a'I chwaer Margaret.

Hyd y diwedd roedd ganddo gywreinrwydd deallusol, ffydd ddwys, gallu trefniadaeth a phersonoliaeth i wneud ffrindiau gyda hiwmor a chynhesrwydd. Am dros ddeng mlynedd ar hugain bu yng nghanol bywyd cymdeithasol Cymry Lerpwl, a bydd y golled yno yn cael ei theimlo fel yn Llanberis, ble roedd yn aelod cyfrifol gyda Clwb Eryri, CAWY (Cymdeithas Athrawon wedi ymddeol), elusen addysgol Cronfa R H Owen, ac wrth gwrs, Eglwys Sant Padarn. Presenoldeb ffyddlon a bywyd wedi ei fyw'n dda.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG






## Syrcas Sgiliau

Ar ddydd Iau, Ionawr 18fed cafwyd diwrnod o weithgareddau amrywiol a hwyliog yn neuadd yr ysgol i ddisgyblion blwyddyn 8 dan arweiniad myfyrwyr Blwyddyn 12.


Cynlluniwyd y gweithgaredd gan fyfyrwyr Blwyddyn 12 fel rhan o'u gwaith Bac Her y Gymuned. Fel rhan o'r her hon maent yn gorfod mentora disgyblion ieuenga'r ysgol a syniad y diwrnod 'Syrcas Sgiliau' oedd creu tasgau i baratoi disgyblion Blwyddyn 8 at eu profion cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd.

Roedd 13 o weithgareddu amrywiol yn neuadd yr ysgol fel y 'Wal Rhif', 'Dojo'r Cwestiwn, 'Siop Shafins' a 'Diwrnod ym Mywyd Leo'. Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn ateb cwestiynau Mathemateg pen a thrafod darnau darllen Saesneg drwy wneud tasgau fel ateb cwestiyna cwis Kahoot, chwarae 'dodgeball' a gwneud gwath ffracsiynau a dewis afalau o fowlen ddwr er mwyn darganfod rhifau cywir i ateb cwestiynau! Roedden nhw wrth eu boddau ac yn llawn brwdfrydedd wrth weithio. Gobeitho y bydd digyblion Blwyddyn 8 yn elw drwy gynyddu eu hyder wrth ateb cwestiynau'r profion cenedlaethol.





## GWELLA DY BRESENOLDEB!




| Presenoldeb Blwyddyn | Canlyniad hyn - dros gyfnod o flwyddyn ysgol |
|---|---|
| ≤80% | Colli mwy nac 8 wythnos o ysgol. Methu cyfnod helaeth o'ch addysg ac o ganlyniad yn amharu ar lwyddiant a dewisiadau bywyd. **Colli 240+ o wersi.** |
| 81-85% | Colli rhwng 6 ac 8 wythnos o ysgol. Methu cyfnod helaeth o'ch addysg ac o ganlyniad yn amharu ar lwyddiant a dewisiadau bywyd. **Colli 180+ o wersi.** |
| 86-89% | Colli rhwng 4 a 6 wythnos o ysgol. Methu cyfnod helaeth o'ch addysg ac o ganlyniad yn amharu ar lwyddiant a dewisiadau bywyd. **Colli 120+ o wersi.** |
| 90<93% | Colli mwy na 3 wythnos o ysgol. Methu cyfnod helaeth o'ch addysg ac o ganlyniad yn amharu ar lwyddiant a dewisiadau bywyd. **Colli tua 90 o wersi.** |
| 93% | Colli 14 diwrnod o ysgol. Methu cyfnod arwyddocaol o'ch addysg all arwain at ostyngiad yn eich cyrhaeddiad/ mynd o dan darged mewn sawl pwnc. **Colli tua 80 o wersi.** |
| 94% | Colli dros 11 diwrnod o ysgol. Methu cyfnod arwyddocaol o'ch addysg all arwain at ostyngiad yn eich cyrhaeddiad/ mynd o dan darged mewn sawl pwnc. **Colli tua 65 o wersi** |
| 95% | Colli tua pythefnos o ysgol. Methu cyfnod arwyddocaol o'ch addysg all arwain at ostyngiad yn eich cyrhaeddiad/ mynd o dan darged mewn sawl pwnc. **Colli tua 55-60 o wersi.** |
| 96-97% | Cystal neu well na tharged presenoldeb yr ysgol. **Colli 35-45 o wersi. Da iawn!** |
| 98-99% | Gwell na tharged presenoldeb yr ysgol **Colli tua 12-22 o wersi. Arbennig o dda!** |
| 100% | **Heb golli'r un wers! Gwych!** |

Trefnwy
aethau
go drost
Symbol
drysiau
Gorchyn
fwyaf o
arwyddi
gymune

Gwelsor
yn cael

Rhywbe
priodfab
sicrhau
i oes y H
dodiad a
fab, a m
sawu i'r

Yn ystod
cael eu
raeddad
iddyn nh
gyda cyt
cwpl o o

Er yn syr
grisiau,

Gwelsor
7 diwrnc
golau y
(Hanukk
iddo, a r
8 yn llos

Rhywbe
bod nhw
Torah bo
dewon y

Eleri Jon

**Pwysig**

Ar ddech
presenol

Oni bai b
yr ysgol
mae hyn
elwa'n lla

d trip i'r Synagog yn Lerpwl ar y 19/12/17,i gyd fynd gyda'n cwrs TGAU Astudi-
Crefyddol. Pan aethom i fewn i'r Synagog, derbynodd y bechgyn Kippah, i wis-
coron eu penau fel bod nhw yn parchu traddodiadau, a credoau yr Iddewon.
o ddangos barch at Dduw yw hwn. Pryd cyrhaeddwn y Synagog, dysgon bod y
yr un siap ar y tabledi derbyniodd Moses gan Dduw, a oedd yn rhestru yr 10
myn. Gwelsom y 10 Gorchymyn eto tu fewn i'r Synagog, ond yn wahanol i rhan
Synagogau roeddent yn Saesneg, yn hytrach na Hebraeg. Gwelwyd nifer o
on yn y syngog hon i ddangos parch i'r Saeson oedd wedi eu derbyn i'r
d.

n lle mae'r sgroliau yn cael eu gadw yn yr arch, a mi ddysgon sut mae'r Torah
eu gario gan y Rabbi o'r arc i'r Bimah ble mae'r gwasanaeth yn cael eu gynnal.

th arall dysgon yw rhai traddodiadau priodasau. Cyn priodasau Iddewig, mae'r
(groom) yn mynd i ystafell paratoi y briodferch (bride) i
mae hi yw'r ferch iawn. Mae hyn yn traddodiad sy'n mynd yn ôl
len Destament, pryd priododd Jacob y chwaer anghywir. Trad-
arall yw bod y tad yr briodferch yn rhoid goblet o win i'r priod-
ae mam y priodfab yn rhoid goblet o win i'r briodferch i groe-
teulu.



yr amser cwestiynau, dysgon bod Iddewon, os yw'n bosib, yn
gladdu ar yr un diwrnod ag meant yn marw. Mae hyn yn gy-
wy oherwydd mae eu cloddiwr bedd yn Iddew, felly yn fodus
hw, mae o'n fodlon mynd allan, dim och pryd. Maent hefyd
undeb gyda'r cofrestrydd lleol, sy'n cyflenwi tystysgrif marwolaeth o fewn
riau iddynt.

agog Uniongred, yn hytrach na cael merched fyny grisiau, a dynion i lawr
roeddent yn eistedd ar ochrau ar wahan oherwydd diffyg aelodau yna.

n y Ner Tamid, y Golau Tragwyddol, sef golau sy'n cael eu losgi 24 awr y dydd,
od yr wythnos. Mae hyn yn digwydd oherwydd mae'n eu atgoffa mae Duw yw
byd. Hefyd, yn ystod Hanukkah, sef gwyliau 8 diwrnod Iddewig, mae Menorah
ah) yn cael eu ddefnyddio. Mae ganddo 9, cangen gyda cannwyll yn sownd
mae un cangen cannwyll yn cael eu losgi pob diwrnod am 8 diwrnod, nes bod y
gi. Yr 9fed canwyll yw'r un sy'n goleuo gweddill y canhwyllau.

th diddorol dysgon yw bod na label ar fwyd mae Iddewon yn cael bwyta, gan
ddim yn cael bwyta moch na pysgod cregyn oherwydd mae'n dweud yn y
od nhw ddim yn cael eu bwyta.Roedd hi'n daith fuddiol ac yn cyfle i weld Id-
n byw mewn gymuned agos.

es





Roedd yn bleser croesawu arlunydd lleol a cyn ddisgybl, Glyn Price i'r adran Gelf ym Mrynrefail at ddisgyblion bl11 sydd yn astudio Celf fel pwnc TGAU am weithdy ar y 01/12/17. Dangosodd Glyn gasgliad o'i waith ar ffurf Pwynt Pwer ble roedd yn trafod ei ddatblygiad personol fel arlunydd proffesiynol a'i ysbrydoliaeth er mwyn creu ei dirluniau lleol. Roedd cyfle i edrych drwy gasgliad o'i fraslyfrau yn ogystal a peintaidau terfynol ar graddfa mawr. Dilynwyd y cyflwyniad gyda Glyn yn arwain sesiwn lluniadu tirlun o ffotograffiau I adnabod y patrymau o fewn y tirwedd, sydd yn debyg i arddull gwaith Glyn. Dymunai Mrs Jennifer Hughes a Mr Dylan Roberts ddiolch diffuant i Glyn am ei gefnogaeth. Cafodd dirluniau Glyn ddylanwad enfawr ar uned ffug arholiad y disgyblion, a roedd yn brofiad gwerthfawr iawn i bawb.

## rwydd Presenoldeb Da yn yr Ysgol

rau'r hanner tymor yma rydym wedi gwobrwyo pob disgybl o flwyddyn 7 i 11 (nifer sylweddol o ddisgyblion) oedd â'u
deb yr hanner tymor diwethaf yn 96% ac uwch – ardderchog, da iawn chi a daliwch ati!

od problemau meddygol dwys rydym yn disgwyl i bob plentyn gyrraedd y targed realistig o 96%. Mae llwyddiant pob plentyn yn
wrth reswm yn gysylltiedig gyda phresenoldeb rheolaidd yma. Os yw disgyblion yn colli ambell ddiwrnod yma ac acw yn rhy aml
yn siwr o effeithio ar eu gwaith ysgol. Gofynnwn felly am eich cefnogaeth chi fel rhieni er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn
awn o'r addysg sydd yn cael ei gynnig yma yn Ysgol Brynrefail.

## WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Dymunwn y gorau i bawb drwy'r flwyddyn 2018.

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr oedd: £30: Mr Edgar Owen, Glyn Awel; £20: Mr Elfyn Griffith, Blaen y Nant; £10: Mr Gareth Jones, Glyn Ceris.

**Merched y Wawr** Ymddiheuriadau mewn sachliain a lludw am y camgymeriad a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf o Eco'r Wyddfa. Nid Bron Meirion oedd enw'r gwesty lle cawsom ein cinio Nadolig rhagorol ond Bron Menai!

Cyfarfod nesaf y gangen fydd ein Swper Gŵyl Ddewi a gynhelir yng Nghaffi'r Antur ar nos Iau, Chwefror 22ain.

Rydym bob amser yn barod i groesawu aelodau newydd.

**Clwb Snwcer Waunfawr** Fe enillodd Llŷr Huws, Caernarfon, y Cwpan Ieuenctid yn erbyn Tomos Owen, Bro Waun. Croeso i aelodau newydd ymuno â'r clwb. Cysylltwch â Keith Owen (650691).

**Eisteddfod Ysgol Brynrefail** Llongyfarchiadau i Huw Emrys, Gwastadfaes, ar dderbyn tlws cystadleuaeth offerynnol chwythbrennau. Roedd wyneb Morgan Llewelyn, Treganedd, yn werth ei weld pan gyhoeddwyd mai Tŷ Eilian oedd â'r mwyaf o farciau ac felly yn fuddugol. Ef oedd un o gapteiniaid Tŷ Eilian. Rhaid llongyfarch a chanmol pob disgybl a fu'n llwyddiannus ac a gystadlodd yn y gwahanol gystadlaethau.

**Goleuo'r Goeden Nadolig** Cafwyd noson gymdeithasol yn y Ganolfan ddechrau mis Rhagfyr gyda'r ddau feddyg, Esyllt Llwyd a Huw Gwilym, yn goleuo'r goeden ac yn trafod ac egluro gwerth y peiriant Diffibiwlator sydd am gael ei osod yn y pentref. Bu côr plant yr ysgol a'r gerddorfa yn ein diddori ynghyd â chôr Genod Gwyrfai. Hefyd daeth Huw Emrys i'n diddori gyda miwsig carolau Nadolig ar y clarinet.

Diolch iddynt ac i aelodau Clwb Ieuenctid y pentref, gyda Paul Evans, eu harweinydd, am baratoi paned a mins pei i bawb. Cyngor Cymuned y pentref a drefnodd y noson.

**Dwy Sioe Nadolig yr Ysgol** Eleni cafwyd dwy Sioe Nadolig ac roedd canmol mawr iddynt. Disgyblion y dosbarthiadau Meithrin a'r Babanod gyflwynodd hanes geni'r baban Iesu ym Methlehem a disgyblion y dosbarthiadau Cynradd yn cyflwyno stori Sinderela ynghyd â hanes geni'r Iesu. Dymuna'r rheini ddiolch i athrawon a staff yr ysgol a'r disgyblion am weithio mor galed.

**Gwasanaeth Noswyl y Nadolig** Daeth cynulleidfa dda i Gapel y Waun noswyl y Nadolig i fwynhau ac i ymuno yn y canu Carolau cynulleidfaol ac i gefnogi talentau y pentref oedd yn adrodd, canu ac yn chwarae offerynnau cerdd. Diolch i bob un am eu perfformiad ac i Meleri Llwyd a Gwenda Griffith am drefnu'r gwasanaeth. Casglwyd y swm p £245.10c tuag at y gronfa i gael peiriant Diffiliwlator yn y gymuned.

**Dathlu Pen-blwydd Arbennig** Yn ystod mis Ionawr bu Cai Rowlands, Tan y Marian, yn dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed.

Dathlu cyrraedd eu un ar hugain mlwydd oed y bu Gwenllian Jones, Tegannedd a Peter Williams, Ty'n Ceunant. Llongyfarchiadau i chi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dymuna Ian Williams, Stad Tŷ Hen a'r ddwy ferch, Ffion a Gwennan, longyfarch a dymuno pen-blwydd hapus i wraig a mam annwyl. Bu Lesley Ann yn dathlu cyrraedd ei hanner canfed mlwydd oed yn ystod y mis. Mae'n siŵr i ti gael diwrnod wrth dy fodd. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Dyweddio** Llongyfarchiadau i Tammy Jones, Stad Dôl Erddi ar ei dyweddiad â Terry o Saron, ardal Llandwrog. Dymunwn bob hapusrwydd i chi eich dau.

Ymddeol Dymunwn ymddeoliad hapus i Eirian Jones, Bro Dawel, ar ei hymddeoliad o'i swydd yn Y Swyddfa Amaeth, Caernarfon. Bu yn un o weithwyr y swyddfa am hanner cant ac un o flynyddoedd.

**Cael Tipyn o Fraw** Dyna ddigwyddodd i Steven ac Alison a'u dwy ferch, Lois a Catrin, Tŷ'r Efail, wrth ddeall bod eu car wedi ei ddifrodi yn y tân yn y maes parcio yn Lerpwl ddechrau'r flwyddyn. Diolch eu bod hwy yn ddiogel.

**Newid Aelwyd** Dymunwn yn dda i'r teuluoedd sydd wedi newid aelwyd o fewn y pentref yn ddiweddar. Dymuniadau gorau am bob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd.

**Gwylio'r Teledu** Mae gwylio'r ddrama 'Craith' yn ddiddorol i ni yn yr ardal hon gyda golygfeydd cyfarwydd o'r Waun ac wyneb cyfarwydd un o'r cymeriadau, sef Rhodri Siôn.

**Gwaeledd** Yn ystod y ddau fis diwethaf mae amryw o drigolion y pentref wedi bod yn sâl ac wedi swatio yn eu cartrefi. Wedi iddynt dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd mae Mrs Nance Hughes, Stad Croes y Waun; Mrs Rose Ann Hughes, Stad Tref Eilian; Leslie Jones, Bro Dawel; Gary Davies, Hafan ac Emrys Owen, Yr Efail, wedi cael dod adref. Bu Trefor Beech, Bronallt a John Roberts, Pant Teg yn derbyn llawdriniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl a bu Mrs Margaret Jones, Glasfryn a David Beech, Rose Mount yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Mawr obeithiwn eich bod i gyd yn cryfhau ac yn gwella.

Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Nansi Williams, Stad Bro Waun, sydd wedi cael gofal yn Ysbyty Gwynedd ac sydd ar hyn o bryd yn cael gofal yng Nghartref Preswyl Marbryn.

Anfonwn ein cofion hefyd at Treflyn Thomas, sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal yn Ysbyty Eryri wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Mae'n dda clywed eich bod yn gwella.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â theulu Rhos Alun yn eu profedigaeth o golli eu merch, Eira.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Judith, a oedd wedi ei magu yma yn y Waun. Cydymdeimlwn â'i phriod, Alan a'i merched ac â'i brawd, Elwyn a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

**Gwasanaethau Capel y Waun am fis Chwefror:**

4: Y Parch Mererid Mair Williams, Noddfa

11: Cyfarfod yr Aelodau

18: Dafydd Charles Thomas, Llanfairpwll

25: Dr Gwyn Lewis, Caernarfon

**Capel y Waun** Mae Mrs Catherine Jones am ymddeol ar ôl dros 70 mlynedd o wasanaeth clodwiw fel organyddes yng Nghapel y Waun. Gan hynny rydym angen organydd/es i lenwi'r bwlch. Cysylltwch â Mrs Pat Parry ar 01286 650326 os oes gennych ddiddordeb neu os y gwyddoch am rywun arall a allai fod â diddordeb.

**Nodyn** Roedd sgarff liwgar a sbectol wedi eu gadael yn y capel ar derfyn y Gwasanaeth Noswyl y Nadolig – un o aelodau Côr Genod Gwyrfai efallai. Mae nhw adref gen i yn Pant Afon – cysylltwch.

**Sefydliad y Merched** Yn y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd, ar y 4ydd o Ionawr, croesawodd Catherine, y Llywydd, yr aelodau yn ôl wedi gwyliau'r Nadolig. Cafwyd pnawn diddorol iawn gyda phedair o'r aelodau yn dangos rhai o'r crefftau yr oeddynt wedi eu creu.

Roedd Iris yn hoff iawn o arlunio ac yn pitio na fuasai wedi cael y cyfle i fynd i goleg i gael dysgu mwy am y grefft. Daeth â rhai o'r lluniau da iawn yr oedd wedi eu gwneud. Hefyd roedd ganddi frodwaith hyfryd i'w ddangos. Mae Pat, wedyn, yn hoffi gwneud clytwaith. Buasai'n biti defnyddio y cwilt gwely roedd wedi ei wneud, roedd mor gywrain. Roedd ganddi lawer o eitemau eraill i'w dangos, i gyd o safon uchel iawn. Roedd Joy a Rosie wedi bod ym Mhlas Tan y Bwlch i ddysgu argraffu ar linoliwm, hwn hefyd yn waith diddorol. Teimlad y gweddill ohonom oedd bod yna dalent arbennig ymysg yr aelodau. Diolchodd Catherine iddynt am eu gwaith ardderchog.

**Y Ganolfan** Rydym yn awyddus iawn i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn y pentref er mwyn trafod dyfodol y Ganolfan a phenodi aelodau newydd i'r pwyllgor. Mae'r Ganolfan yn adnodd pwysig iawn i'r pentref ac mae angen syniadau a chefnogaeth ar gyfer y dyfodol.

Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal nos Fercher, Chwefror 7fed am 7.30 o'r gloch yr hwyr yn y Ganolfan. Edrychir ymlaen i'ch gweld yno.

# Un funud fach ...

**SPREUERHOFSTRASSE**

Parliament Street yng Nghaerwysg, Lloegr; Spreuerhofstrasse yn Reutlingen, Yr Almaen; a L'Androuno yn Gassin, Ffrainc. Does fawr i'w weld ar yr un o'r tair stryd hyn, ond mae'n debyg fod y tair yn denu twristiaid i'w gweld. Eu hunig hynodrwydd yw bod y tair yn eu tro wedi eu disgrifio fel 'stryd gulaf y byd'. Yn ei man culaf, dim ond 25 modfedd o led yw Parliament Street; ond mae hynny ddwywaith lled Spreuerhofstrasse (sy'n 12.2 modfedd ar ei chulaf) a L'Androuno (sy'n 11.4 modfedd ar ei chulaf). Mae'r tair mor gul fel nad yw pawb sy'n ymweld â hwy'n barod i ymwthio trwyddynt.

Mi soniodd Iesu Grist yn ei Bregeth ar y Mynydd am y porth cyfyng a'r ffordd gul 'sy'n arwain i fywyd, ac ychydig yw'r rhai sy'n ei chael' (Mathew 7:14). Ychydig sy'n ymwthio trwy'r porth. Roedd tyrfa fawr wedi dod ato, ond roedd Iesu'n eu rhybuddio nad oedd yn ddigon iddynt glywed ei eiriau; roedd rhaid gweithredu arnynt hefyd. Mae ymwthio trwy'r porth cyfyng yn golygu cydnabod bai a cheisio maddeuant, a dilyn y ffordd gul yn golygu ufuddhau i orchmynion Duw a gwneud dysgeidiaeth Iesu'n sail i'n holl fywyd.

Nid pawb yng Nghaerwysg a Reutlingen a Gassin sy'n ymffrostio yn eu strydoedd culion. Mae rhai'n cydnabod nad yw eu 'stryd gulaf y byd' nhw mewn gwirionedd fawr mwy na bwlch rhwng dau adeilad. Ac nid pawb chwaith sy'n clywed geiriau Iesu sy'n croesawu'r sôn am 'ffordd gul'. I'r rhai sy'n mynnu gwneud yn union fel maen nhw'n dewis, i'r rhai sydd am ddal gafael ym mhob dim sy'n mynd â'u bryd, ac i'r rhai sydd am wneud y bywyd Cristnogol yn ddeniadol i gynifer o bobl â phosibl mae unrhyw sôn am gulni yn amhoblogaidd. Mor aml, yng nghyd-destun y bywyd Cristnogol, y clywn ni bobl yn cyhoeddi nad ydyn nhw'n 'gul o gwbl'. Maen nhw am i bawb wybod nad ydyn nhw felly o ran eu cred na'u hymddygiad.

Ond mor bwysig yw cofio nad sôn am 'bobl gul' ond am 'ffordd gul' a wnaeth Iesu. Ac mae synnwyr yn hynny. Oherwydd mae'n rhaid i bobl fod yn ddigon eangfrydig i dderbyn yr hyn y mae Iesu Grist yn ei ddweud. Gwir gulni yw mynnu mai'r hyn yr ydym ni'n ei gredu a'r hyn yr ydym ni am ei wneud sy'n cyfrif. Nid culni yw parodrwydd i dderbyn yr hyn a ddywed rhywun arall – ac yn arbennig yr hyn a ddywed Iesu Grist, Fab Duw – am yr hyn yr ydym i'w gredu a'i wneud. Mae Iesu am i ni fod yn ddigon eangfrydig i fynd trwy'r porth cyfyng ac i droedio'r ffordd gul.

JOHN PRITCHARD

## Rôl Cynghorau Cymuned (o'r dudalen flaen)...

Dyma grynodeb o saith argymhelliad y Cynghorydd Sion Jones, Bethel, a anfonwyd at Alun Davies, Llywodraeth Cymru.

1. Datblygu Economi a Thwristiaeth yn lleol drwy hybu busnesau lleol a busnesau 'cartref', a hybu elfen marchnata y diwydiant twristiaeth.
2. Datblygu Iechyd a Lles y trigolion lleol drwy gefnogi grwpiau fel clybiau rhedeg a cherdded a gweithio'n agos â Chyngor Chwaraeon Cymru a mudiadau eraill yn y maes gwarchod iechyd a fyddai maes o law yn lleihau'r pwysau ar ein Gwasanaeth Iechyd.
3. Datblygu'r Iaith Gymraeg. Mae'n bwysig fod cymunedau lleol yn chwarae eu rhan a chyfrannu tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dylai pob Cyngor Cymuned benodi 'Pencampwr y Gymraeg' fyddai'n gweithio'n agos â'r ysgol/ysgolion lleol ac yn rhoi cymorth i fusnesau lleol er mwyn cynnig eu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Datblygu Trafnidiaeth. Gall Cynghorau Cymuned gyfrannu tuag at ddatblygu rhwydwaith gwell drwy hybu llwybrau beicio a cherdded o fewn eu cymunedau. Mae posibilrwydd hefyd o ariannu'n rhannol y gwasanaeth bysus lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig iawn.
5. Diogelwch Cymunedol. Codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol a bod yn bwynt cyswllt i'r Heddlu.
6. Cefnogi Grwpiau Cymunedol a Gwirfoddol. Angen mwy o gefnogaeth i'r Trydydd Sector.
7. Rôl ehangach mewn penderfyniadau cynllunio. Mae datblygiadau cynllunio yn hynod bwysig o fewn ein cymunedau, ond ymgynghorol yn unig yw rôl y Cynghorau Cymuned ar hyn o bryd. Dylid cael adolygiad a thrafodaeth bellach, gan gynnwys ymgynghoriad â'r Cynghorau Cymuned ynglŷn â'u rôl yn y dyfodol dros benderfyniadau cynllunio – hyd yn oed i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â chanllawiau cenedlaethol a sirol.

Mae'r Cynghorydd Sion Jones yn galw ar i Lywodraeth Cymru ddechrau ymgynghori yn y maes hwn, gan gynnwys trafodaeth o fewn y Cynulliad.

## Pigion Byd Natur

### *Blodyn Hardd – Rhywle ar yr Wyddfa*

Darlun cynnar o'r planhigyn sydd ar gael yn Synopsis Methodica (1969) a llyfr y Naturiaethwr a theithiwr o Loegr, sef John Ray.

A deud y gwir yn blwmp ac yn blaen wrthych chi, ni cheisiais hyd yma ymdrechu i'w weld! Bu imi, hefo'r unigedd hwnnw a berthyn iddo, lwyr-fodloni ar gicio fy sodla yn run man! Na! Ni wnes drafferthu'n rhy ormodol i'w leoli, a'i weld am y tro cynta rioed yn fy hanes. Mi fyddai'r hen Ddewi Penygroes, dyn y planhigion, hefyd hanes yr Wyddfa sy'n fêl ar flaenau'i fysedd, a hynny ond gofyn iddo, wedi mynd â fi yno – i'w gweld!

A wnes i fethu cyfle? Chwi sydd i benderfynu hynny! Ond gwn hyn, y mae'n werth sôn am 'Lili'r Wyddfa'.

Peidio â gweld? Y mae'n debyg mai fel yna roedd hi i fod! Ie! Dicn i! Taw amdani! Wedi'r cyfan, chdi ydi'r dyn bychan sy'n dioddef yn arw o bendanstandod, does raid iti ond esgyn ysgol, heb sôn am dy gael ar ochr clogwyn, hyd yn oed grib a llechwedd unrhyw fynydd i'th gael yn chwil dy ben!

Un o'r llyfra hardda sy'n ymdrin â blodau gwylltion yn yr iaith Gymraeg ydyw'r un sy'n rhan o gyfres a fu yng ngofal fy nghyfaill Twm (Elias), brodor o Glynnog Fawr, ond ei fod bellach yn byw yn Nebo, Arfon, a'r dyluniwr graffig talentog o Benisarwaun – Islwyn Williams. Cyfeirio a wnaf at Blodau'r , Gwasg Dwyfor (1987). Dyma'r disgrifiad o Lili'r Wyddfa:

'Mae bellach yn brin iawn oherwydd bod pobl wedi casglu gormod ohono yn y gorffennol (rhywbeth, diolch byth amdano, na chaniateir hynny'n gyfreithiol yn ein cyfnod ni o hanes.)

Ebe Twm:

'Roedd gwestai crand yn Llanberis yn barod i dalu 2/6' (ychydig dros ddeuddeg ceiniog yn ein harian ni) 'y fasgediad amdano ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf,' (sef 18g.) 'er mwyn addurno byrddau bwyd ymwelwyr cyfoethog o Loegr.'

Enwau eraill: Brwynddail y Mynydd, Lloydia.

Disgrifiad: Planhigyn lluosflwydd, 5-15cm o daldra, gyda'i goesyn yn tyfu o oddf neu fwlb bychan tanddaearol. Mae ei ddail yn hir a thenau... Fel arfer un coesyn blodeuog sydd i bob planhigyn ac un blodyn gwyn hardd ar y pen. Yn yr iaith Ladin 'Lloydia serotina' er cof am Edward Llwyd (1660-1709) Cymro, Naturiaethwr y dywedir iddo yn y 1680au ddarganfod y planhigyn am y tro cyntaf.'

Na! ni wnes sefyllian uwch ei ben, gan wybod bod rhai o'i rywogaeth, ran teulu, yn ffynnu yn yr Alpau, a nifer o leoedd mynyddig eraill yn y byd. A deud y gwir wrthych, cadw draw oddi wrth 'Lili Eryri' a wnes i, ac o bosib gwneud hynny ran parch tuag at y planhigyn. Y mae rhai pethau ym Myd Natur angen gadael llonydd iddynt. Rhywbeth fel na! Rhyw deimlad ydi o, sy'n ymylu ar gyfriniaeth.

# DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

## TŶ UCHAF YNG NGHYMRU







Cerdded i fyny Lôn Garret (neu Lôn Giarat fel y dywedir yn lleol) uwchben pentre Dinorwig ychydig fisoedd yn ôl daniodd fy niddordeb mewn cael gwybod mwy am Tan Garret, sef y tŷ olaf cyn cyrraedd rhan uchaf y chwarel a thŷ sydd wedi ei ddisgrifio fel y tŷ uchaf yng Nghymru. Bellach mae'r tŷ yn furddun fel y mwyafrif o'r tai sydd ar ochr chwith y lôn.
Dyma gerdded at y tŷ a chrwydro o gwmpas yr adfeilion sydd yno a dychmygu sut le oedd o i fyw. Yna sefyll o flaen mynedfa'r tŷ a rhyfeddu at yr olygfa anhygoel a wynebai pwy bynnag fyddai'n agor y drws ffrynt. Ar ddiwrnod braf o haf ni ellir meddwl am le mwy gogoneddus ond mae'n siŵr mai'r gwrthwyneb fyddai yn wir ar dywydd gwyntog ac oer y gaeaf.
Cymerir bod yr enw 'Tan Garret' ar y tŷ gan ei fod ar bwys rhan uchaf y chwarel oedd yn cael ei alw yn Garret ond yr ystyr a roddir i'r gair 'garret' ydi ystafell anghysurus o faint bychan iawn ar ran uchaf y tŷ, sef atig yn y llofft.
Un a gafodd brofiad o fyw yno oedd Goronwy Lewis, sydd yn byw yn Llanberis. 'Y fi oedd yr olaf i gael ei eni yno a hynny ar y 24ain o Rhagfyr 1935', meddai. Roedd fy rhieni, sef Joseph a Katie Lewis wedi symud yno i fyw ar ôl priodi. Dad wedi ei eni yn Llanrhuddlad, Ynys Môn, cyn symud i fyw i Lôn Batri neu i roi iddi ei henw cywir, Lôn Baptist yn Neiniolen. Yna fe symudodd i Ben Gogwydd ac yna Garreg Lydan yn Ninorwig cyn priodi mam a symud i Tan Garret. Roedd fy mam, Katie, wedi ei geni yn Bryn Sardis, Dinorwig, y tŷ cyntaf ar y dde wrth gychwyn i fyny Lôn Garret'.
'Chydig iawn dwi'n gofio am fyw yn Tan Garret gan mai pump oed oeddwn pan symudodd y teulu i fyw i Hafod y Braich, eto yn Dinorwig', meddai Goronwy. 'Chwech ohonom fel plant fu'n byw yn Tan Garret, sef William yr hynaf, yna Eluned, Harry, Olwen, Ralph a fi. Chafodd Alun, yr ieuengaf ohonom, ddim ei eni yno. Mae'n chwith meddwl mai dim ond William, Alun a fi sydd ar ôl erbyn hyn'.
'Stad Faenol oedd biau Tan Garret fel pob tŷ arall bryd hynny yn yr ardal. Siambr gefn a ffrynt oedd gyno ni, atig a stafell ffrynt. Gwraig tŷ oedd mam tra bod dad yn gweithio yn y chwarel. Dwi'n cofio chwyaid a ieir wrth Cae Llyn tu cefn i'r tŷ ac mi oeddan ni yn galw'r cae o flaen y tŷ yn Cae Pig gan bod siâp fel pig deryn arno'.
'Efo pob un o'r bythynnod yma roedd 'chydig o dir. Cadw defaid gan amlaf yr oeddem ni ond pan symudon ni i Hafod y Braich roedd dad yn cadw gwartheg hefyd. Ar ôl symud o Tan Garret roedd dad yn dal i gadw'r tir yno yn ogystal â thir Hafod y Braich a Garreg Lydan. Yna yn 1956 mi ddaru'r cyfan ddod i ben pan dorrodd allan yr aflwydd digalon hwnnw, sef y Traed a'r Genau. Golygodd hyn bod yn rhaid i dad ddifa'r stoc i gyd. Cyfnod digalon, a dweud y lleiaf'.
'Tra'n byw yn Hafod y Braich dwi'n cofio trydan yn dod yno am y tro cyntaf yn 1958. Cyn hynny lampau paraffin oedd hi. Cario paraffin o dŷ Catrin oedd wrth ymyl post Dinorwig. Mynd oddi yno i Ysgol Dinorwig tan oeddan ni yn 11 oed cyn symud wedyn i Ysgol Ganol (Central School), Deiniolen. Mi aeth Alun, yr ieuengaf ohonom i Ysgol Garnedd (Ysgol Eglwys). Tra'n byw yn Hafod y Braich mi fydden ni yn mynd adra o'r ysgol bob dydd i nôl cinio. Oherwydd y pellter nid cerdded fydden ni ond rhedeg nôl a blaen gan drio bod yn ôl yn yr ysgol i gael gêm o ffwtbol yn yr iard cyn i'r gloch ganu a ninnau nôl yn y gwersi'.
Dau o'r tai ar ochr chwith Lôn Garret sydd â rhywun yn byw ynddynt bellach sef Groeslon Isaf a Groeslon Uchaf. Mae'r gweddill, sef Tan y Braich, Braich, Braich Poeth, Terfyn, Terfyn Isaf, Terfyn Uchaf a Garreg Lydan yn adfeilion ers blynyddoedd lawer.
Glyn Tomos

**Diolchiadau** Dymuna Eirwen ac Alwyn, Wylfa, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt gan deulu, cymdogion a ffrindiau, trwy ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau. Hefyd diolch am y swm rhyfeddol o arian a dderbyniwyd at Fynwent Llanddeiniolen. Diolch yn arbennig i Ann, nith Cilla, o Benisarwaun, Y Canon Idris Thomas a fu yn galw lawer gwaith i gael sgwrs â'u mam. Diolch i Feddygfa Llanberis, y nyrsys cymunedol, Hosbis yn y Cartref a'r holl weithwyr cymdeithasol.

Mawr ddiolch i Dafydd Williams o Ymgymerwyr E.W. Pritchard am ei ffordd deimladwy ac urddasol ac am gario allan y trefniadau i'r llythyren fel ag yr oedd eu mam eisiau, a'r trefniadau yn drylwyr iawn. Bu hyn o help garw iddynt fel dau oedd yn hollol ddibrofiad. Maent yn gwerthfawrogi y cyfan oll gyda diolchgarwch. Yr oedd y cyfan yn rymus ac urddasol iawn. Mawr ddiolch iddo.

**Cydymdeimlad** Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyraf â Mr a Mrs Alwyn Jones, 5 Bro Elidir. Margaret wedi colli ei chwaer yng nghyfraith, Elizabeth Anne, yn Ysbyty Llandudno, gwraig Stephen. Bu yn wael am beth amser. Bu'r gwasanaeth claddu yn Amlosgfa Bangor dydd Mercher, 3ydd o Ionawr, am 3.45 a'r rhoddion i fynd tuag at Ysbyty St David, Llandudno.

**Diolch** Dymuna Olwen, Tŷ'r Ysgol gynt, a Caryl ddiolch i ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, negeseuon a'r cydymdeimlad a ddangsoswyd iddynt yn dilyn colli gŵr a thad annwyl yn frawychus o sydyn.

Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd sydd yn gyfanswm o £1,623, sydd yn cael ei rannu rhwng Ambiwlans Awyr Cymru a pharafeddygon lleol.

**Blwyddyn Newydd Dda i Holl ddarllenwyr yr Eco Blwyddyn 2018**

Dyma ddechrau blwyddyn newydd arall. Mae rhywun yn gorfod gofyn i ble yr aeth 2017, mae'r blynyddoedd i'w gweld yn mynd yn gyflymach bob blwyddyn, neu efallai mai ni sydd yn heneiddio a'i bod yn edrych fel pe baent yn mynd yn gynt, ond yn rhyfeddol mae'r Eco yn dal i ffynnu drwy waith gwirfoddol, gyda diolch i Dafydd Whiteside Thomas am y gwaith mawr di-ddiolch y mae yn ei wneud, hefo cydweithrediad Hefin Jones, Llanrug, sydd o gymorth mawr i mi hefo dethol a dosbarthu yr Eco. Yr ydym yn gallu cydweithio yn dda efo'n gilydd. Diolch yn fawr i Gwasg Dwyfor am eu cydweithrediad, maent bob amser yn siriol ac yn barod iawn i ysgafnhau'r baich drwy gydweithio â'r swyddogion. Diolch yn arbennig i'r ddau ddreifar sydd bob amser yn barod i helpu a thrwy hynny sbario cryn amser.

Coeliwch fi, mae yn waith gwirfoddol sydd yn dod â chwi i adnabod llawer o bobl eraill. Mae pethau weithiau yn gwneud i chi ofyn pam yr ydych yn gwneud hyn ond y mae'r cydweithio a'r boddhad yr ydych yn ei gael yn gwneud i chwi anghofio y pethau annymunol, felly beth am ymuno â ni. Mae angen pobl ifanc er mwyn llwyddo i'r dyfodol. Blwyddyn Newydd Dda a hapus i'r gwirfoddolwyr oll a diolch am gael cydweithio â chwi oll.

**Cwyno** Drwg gennym ddeall bod Llywelyn Jones, 4 Bro Elidir, wedi cael ei gipio i Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig a chael ei symud i Ysbyty Eryri Caernarfon wedyn. Da deall ei fod wedi gwella yn ddigon da i ddod gartref erbyn hyn ond yn gorfod mynd i'r ysbyty bob dydd i gael triniaeth. Anodd credu fod Llew wedi bod yn wael, gan ei fod wedi bod mor iach a phob tro y gwelwch ef mae yn gwneud rhywbeth. Mae wedi bod yn hogyn gweithgar ar hyd ei oes. Llew, brysia wella, yr ydym yn colli dy gweld o gwmpas a beth am ymddeoliad erbyn hyn. Does neb yn gallu mynd am byth cofia.

**Marwolaeth** Ar ddiwedd Tachwedd y llynedd, bu farw Mrs Priscilla Williams, Wylfa, ar ôl iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 103 fis ynghynt. Cilla wedi cael oes hir ond y mae'r golled yr un mor fawr i'r plant, Eirwen ac Alwyn. Bu i'r ddau ofalu yn ofalus iawn am eu mam a hithau yn meddwl y byd o'r ddau. Newidiodd Alwyn ei fywyd i gyd i fod hefo'i fam, Mam oedd yn dod gyntaf bob tro a hithau yn hynod o ddiolchgar iddo ac yn ei ganmol i'r entrychion bob amser. Gartref yn Wylfa y bu farw yng nghwmni'r plant. Cafodd fywyd llawn iawn ac bu'n fam annwyl i Eirwen ac Alwyn.

Un o dde Cymru ydoedd, fe'i ganwyd yn Nant y Moel, yn un o gymoedd y de. Pan oedd yn saith oed bu farw ei thad drwy damwain mewn pwll glo ac yntau yn 47 mlwydd oed gan adael ei mam yn weddw efo pedwar o blant. Yn dilyn hyn fe welodd Cilla dlodi mawr ar yr aelwyd a hithau ddim ond saith oed. Er y tlodi mawr bu'r cymdogion yn hynod o garedig hefo'r teulu. Wrth gwrs, yr oedd hon yn oes hollol wahanol i fel y mae hi heddiw.

Wedi hyn daeth y teulu i fyw i'r gogledd, i Waun Cwm Brwynog ar ochr yr Wyddfa, o bob man. Newid mawr iawn i eneth mor ifanc â Cilla, yna ar ôl cyfnod fe fu iddynt symud i Stryd y Dŵr Llanberis, yn nes at wareiddiad.

Pan yn un ar hugain oed priododd â Mosses Williams yn y flwyddyn 1937 ac am gyfnod byr bu iddynt gartrefu yn Rhes Marian, Deiniolen lle y bu i'w gŵr gael ei eni. Yn fuan iawn fe ddaeth y ddau i fyw i'r Wylfa, lle y bu iddynt fyw i'r diwedd.

Ar ôl i Moss fynd i'w waith, yn ôl yr hanes, byddai Cilla yn cerdded bron bob dydd i Tŷ Capel Hebron, Gwaun Cwm Brwynog, a hynny yn escair yr Wyddfa, at ei mam. Yr oedd Cilla wedi arfer addoli yng Nghapel Hebron ond ar ôl priodi ymaelododd yng Nghapel Wesla, Deiniolen, ac wedi i'r capel hwnnw gau daeth yn aelod ffyddlon o Gapel MC Dinorwig hyd i hwnnw hefyd gau.

Erbyn hyn yr oedd wedi geni dau o blant, sef Eirwen ac Alwyn, a fu yn hynod o ffyddlon iddi hyd y diwedd. Mwynhaodd Cilla iechyd da iawn, yr oedd yn hynod o fywiog a phob amser yn hynod siriol ac wrth ei bodd yn mwynhau tipyn o hwyl diniwed. Nid oedd Sul yn pasio pan yn y capel nad oedd tipyn o hwyl hefo hi ac os yn teimlo braidd yn ddigalon pan yn mynd i'r capel, yr oeddych yn teimlo yn llawer gwell wedyn oherwydd yr oedd ganddi y ddawn o wneud i bawb wenu. Diolch Cilla, am dipyn o ysgafnder hwyliog.

Fe fu i Cilla golli ei gŵr dros ddeg mlynedd ar hugain yn ôl, ar y Pasg, yn 74 mlwydd oed. Er hyn yr oedd yn rhaid i fywyd Cilla fynd ymlaen, ac ymlaen a'i dyletswyddau y bu iddi fynd.

Yn ystod ei dyddiau olaf a hithau dros 100 oed ac yn dal yn siriol a gwengar, bu i'r plant a'i nith, Ann o Benisarwaun, roi gofal hynod o arbennig iddi a hithau wrth ei bodd yn canu iddynt.

Bu taith bywyd yn amrywiol iawn iddi, o dlodi yna daeth pethau yn llawer gwell arni, ac nid oedd arni ofn i neb wybod hynny. Pleser mawr oedd bod yn ei chwmni bob amser.

Er yn 103 mlwydd oed, pan ddaeth yr alwad yr oedd yn andros o sioc i'r ardal, gan feddwl fod Cilla i fyw am byth, ac y mae'r golled yn andros o fawr i Eirwen, Alwyn a'r teulu, ac i'r ardalwyr hefyd.

Yr oedd wedi trefnu ei hangladd ei hun. Angladd syml, dim ond gwasanaeth ar lan bedd Moss yn Llanddeiniolen, a mawr yw diolch y plant i Dafydd, trefnydd yr angladd o E.W. Pritchard Llanberis am gario allan ei dymuniadau. Bu yr angladd syml yma ar y 4ydd o Ragfyr ym mynwent Llanddeiniolen, lle yr oedd tyrfa fawr wedi dod ynghyd i dalu y deyrnged olaf i Cilla. Cymerwyd yr angladd gan y Canon Idris Thomas, un o blant yr ardal a oedd wedi ymweld llawer â Cilla a'r ddau wedi mynd yn ffrindiau mawr. Bu i Idris fod reit gall ar lan y bedd, fe ddywedodd lawer amdani mewn amser byr a phan oedd yr arch yn disgyn i'r bedd, daeth rhyw lygedyn o haul gwan allan i ffarwelio â Cilla. Diolch am i Dduw roi benthyg Cilla a'i hiwmor inni. Nid aiff hi byth o'r cof.

Cilla annwyl, cysgwch ar ôl taith bywyd hir ac wedi oes amrywiol iawn. Eirwen, Alwyn a'r teulu oll mae y golled yn fawr, er ei hoes hir, mam oedd hi wedi'r cyfan. Gobeithio y bu i chwi gael bendith, nerth ac iechyd yn ystod y dyddiau tywyll yma a diolch am gael cerdded hefo hi ran o daith bywyd.

Cilla, braf oedd eich cwmni ac nid ewch byth o'r cof. Yn angof ni chewch fod. Dyma sut y canodd Mr John V.Morris, Rhianfa, er cof am Cilla:

Roedd Cilla fel y dderwen gref
Pan gafodd alwad i fynd i'r nef,
Ond gadawodd egin ar ei hôl
Sef Al ac Eirwen i droedio'r ddôl.

Roedd ganddi galon gynnes bur
Ac roedd mor onest, fel y dur,
Roedd yn gymeriad, gyda pharch,
Ond nawr mae'n gorwedd yn ei harch.

Fe ddaeth cyfeillion draw i'r Llan,
A haul y gaeaf oedd yn wan,
I ddweud ffarwel a chodi llaw
A Cilla'n croeso i'r ochr draw.

A llais y Canon oedd mor glir
Wrth adleisio dros y tir,
Yr arch yn cyrraedd gwely'r bedd,
Fe wn fod Cilla nawr mewn hedd.

John V. Morris

# Breciau y Waun

Ers talwm, cyn amser y bysiau, ar gerbydau fel y brec y byddai llawer o bobl yr ardaloedd o gwmpas yn teithio i lefydd fel Caernarfon, neu ar ambell wibdaith ar hyd y wlad. Cerbyd agored ddim yn annhebyg iawn i hanner coets fawr oedd y brec, yn cael ei dywys gan un, neu ddau geffyl cyfochrog â'i gilydd. Ym mlynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf, roedd dros hanner dwsin o freciau yn ardal y Waunfawr, gyda lle yn y rhai mwyaf eu maint i gario hyd at ddau ddwsin o bobl. Ar flaen y brec roedd sedd hir bren, lle byddai'r gyrrwr yn eistedd, gyda lle i dri neu bedwar o deithwyr eraill wrth ei ochr, ac yn y cefn, dwy ris haearn a chanllaw yn ymestyn o'r llawr hyd at ddrws bychan ar gyfer mynediad at nifer o seddau yn y canol.

Gyrrwr un o'r breciau yr adeg honno oedd John Evans, Croesywaun, fyddai'n rhedeg brec un a dau geffyl. Yn ogystal â brec agored, byddai hefyd yn rhedeg bws dau geffyl a cherbyd 'Closed Carriage' ar gyfer ambell achlysur neu ddigwyddiad arbennig. Gyrrwr arall a chanddo frec dau geffyl oedd Wil Graig Lwyd yn ardaloedd Y Groeslon a Cheunant ac, yn ddiweddarach, brec a bws dau geffyl John Lloyd, wedi i Wil Graig Lwyd ymddeol.

Yn Nant-y-Betws, brec fawr G. Griffiths, Bryn Gloch, fyddai'n cludo teithwyr yr ardal honno i'r dre, gan godi, pan fyddai gofod, rhai o bobl yn y Waunfawr a Chaeathro ar hyd y ffordd. Roedd Owen Robert Williams, Liverpool House, hefyd yn trefnu a rhedeg breciau dau geffyl ac, yn ogystal â chludo pobl i Gaernarfon, byddai hefyd yn trefnu a rhedeg pleserdeithiau yn ystod dyddiau braf yr haf. Ef, yn 1911, sefydlodd y cwmni bysiau Caernarvon, Waenfawr & District Motor Services, a'r bws cyntaf iddo ei feddiannu oedd 'Wolsely-Siddley', yn eistedd deg o bobl. Yn ystod y 1930au, newidiwyd enw'r cwmni, oedd erbyn hyn dan reolaeth y meibion, Billy a Robert Glynn, i 'Whiteway' a bu'r cwmni'n gwasanaethu yn yr ardal cyn terfynu ar y 15fed o Ebrill 1989.

Ond, wedi crybwyll y rhai uchod, rhaid dweud mai'r breciau a cherbydau mwyaf poblogaidd yn yr ardal y pryd hynny oedd rhai Evan Jones, Tai Isa. Ef oedd perchennog y 'Rolls Royces' a'r 'Bentleys' yr adeg honno, gyda amrywiaeth eang ohonynt oedd yn cynnwys breciau un a dau geffyl, bws dau geffyl ac, yn enwedig, y cerbyd 'Closed Carriage' sglein foethus ar gyfer priodasau, cynhebrynau a digwyddiadau arbennig. Roedd ganddo hefyd hen gar mawr hir gyda meinciau caled ar hyd ei ddwy ochr. Roedd hwn wedi bod ar iws ymhell cyn dyfodiad y brec, ac er nad oedd bellach yn cael ei ddefnyddio i gludo pobl, byddai Evan Jones yn ei ddefnyddio i gario pethau fel tatws a rwdins, ynghyd â llwythi gwair, ŷd a thail. Yn yr hen gar mawr y byddai Evan Jones yn mynd i nôl coed arch i Gaernarfon, a byddai hen holi a dyfalu ymysg y trigolion pwy fyddai wedi marw o weld yr hen gar yn ysgytian mynd yn wichlyd drwy'r ardal am y dre. Brec Evan Jones fyddai'n cludo plant y Waun i'r gymanfa yng Nghaernarfon, a byddai llawer ohonynt wedi cyrraedd fferm Tai Isa ymhell cyn amser cychwyn, gyda'r gobaith o gael eistedd yn y sedd flaen wrth ochr y gyrrwr. Byddai llawer o hwyl ar y daith, yn enwedig pan fyddai brec fawr y Betws, oedd yn cludo plant Capel Salem i'r gymanfa, yn dod i'r golwg ac dod ochr yn ochr â brec y Waun. Dyna beth oedd cyffro a chynnwrf wedyn a'r plant yn gweiddi ac yn herian ei gilydd wrth i'r ceffylau gyflymu a cheisio cael blaen yn y ras i gyrraedd y dre. Ychydig dros hanner awr fyddai'r daith yn gymryd i Gaernarfon, ond awr neu fwy ar y ffordd adref, hyn gan bod y gelltydd serth yn ôl i'r Waun yn blino ac arafu momentwm y ceffylau. Y pechod mwyaf ar y ffordd adref fyddai i rai o'r llafnau direidus yng nghefn y brec ddechrau camymddwyn a gwneud eu campau. Sefyll a neidio ar ris ôl y cerbyd fyddai rhain, neu redeg a gweiddi'n orchestol wrth ei ochr. Byddai hyn yn cythruddo a chynddeiriogi'r gyrrwr yn arw, a byddai yntau wedyn, wrth geisio cael rheolaeth a threfn arnynt, yn chwifio a chwyrlio ei chwip yn fygythiol uwch eu pennau.

Fel O.R. Williams, Liverpool House, byddai Evan Jones hefyd yn trefnu a rhedeg pleserdeithiau yn ystod yr haf. Dau le poblogaidd i ymweld â hwy y pryd hynny fyddai Bwlch Llanberis a glan y môr Dinas Dinlle. Ar fore'r daith, byddai llawer o'r gwibdeithwyr wedi ymgynnull yn y man cychwyn ymhell cyn yr amser ymadael, gyda phob un yn aros yn eiddgar i weld y brec yn dod i'r golwg yng ngwaelod Lôn Pwll Budr yn y pellter. Byddai llawer wedi dod â phecyn bwyd gyda hwy, ac nid rhywbeth anarferol fyddai gweld rhai ohonynt ar y daith yn rhannu neu gyfnewid â'i gilydd ambell frechdan fêl am un jam eirin, neu deisen gri am dafell o fara ceirch.

Y diwrnod prysuraf i yrwyr y breciau fyddai y dydd Sadwrn, gan mai dyma pryd y byddai llawer o'r ardalwyr yn mynd i Gaernarfon i negeseua a chymdeithasu efo eraill ar y Maes. Byddai sawl brec yn gadael am y dre ar y diwrnod hwnnw, a phob un yn llawn pobl yn sgwrsio a holi ymysg ei gilydd am y newyddion diweddaraf. Gan fod y brec olaf yn gadael y dre am saith o'r gloch, rhaid oedd bod ar y Maes yn brydlon ac ar amser rhag ei cholli. Byddai hyn yn osgoi gorfod cerdded y ffordd hir a chaled yn ôl i'r Waun, oedd yn hynod flinedig, yn enwedig i'r rhai â bagiau trymion i'w cario.

Yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf roedd y dyfodol yn edrych yn ansicr iawn i yrwyr y breciau. Y datblygiad mwyaf yn sicr oedd dyfodiad y bysiau ac, erbyn y flwyddyn 1920, a'r cwmni y Caernarfon, Waenfawr & District Motor Services erbyn hyn wedi ehangu, gwelwyd mwy a mwy o'r ardalwyr yn cefnu ar y brec ac yn gwneud defnydd o'r bysiau. Dyma gyfnod y siarabang, ac roedd cael teithio mewn steil a chrandrwydd yn un o'r rhain yn apelio llawer mwy, yn enwedig i'r parchusion, na'r daith arafaidd ac ysgytlyd ar y brec. Roedd y bysiau erbyn hyn yn prysur fynd â'r busnes oddi ar y breciau, ac er bod rhai ohonynt yn dal i weithredu, lleihau o ddydd i ddydd oedd nifer eu teithwyr. Roedd y bws nos Sadwrn hefyd yn dynfa i lawer, yn enwedig y criw ifanc, a byddai rhai ohonynt wedi sleifio'n ddistaw i lawr llwybr Gerddi Fawr hyd at Bont Cyrnant i gyfarfod â'r bws o Feddgelert, rhag i Evan Jones, a fyddai'n aros yn amyneddgar wrth y Post eu gweld a'u bachu. Wrth i'r bws fynd i fyny Gallt-y-Bont, byddai pawb wedi gwyro'n isel yn eu seddau cyn ailgodi wedi i'r bws ddiflannu o'r golwg ym mhen yr allt. Gan fod y bws olaf yn cychwyn o'r dre yn hwyrach na'r brec, byddai hyn yn rhoi cyfle, a chaniatau i'r rhai fyddai'n mwynhau gweithgareddau'r Pafiliwn neu sinema'r Guild Hall, i aros yn y dre yn hwyrach,. Roedd y bws hefyd o fantais i'r rhai fyddai'n hoff o ddiwallu eu syched yn y tafarnau, gyda gwesty'r Mona ym Mhorth yr Aur bryd hynny, yn lle poblogaidd gyda rhai o bechaduriaid y Waun i fynd am eu tropyn.

Un o'r rhai oedd wedi cefnu ar y brec a throi at y bysiau oedd Mrs Hughes, Bodlondeb, sef chwaer Evan Jones, Tai Isa, a gwraig uchel ei pharch yn yr ardal. Roedd hi a'i phriod, y Doctor Hughes, yn hoff iawn o'u gardd ac arferai Evan Jones drosglwyddo llwyth o dail o'r fferm yn flynyddol iddynt ar gyfer y tyfiant. Yn ddiarwybod i Mrs Hughes, roedd Evan Jones wedi clywed bod ei chwaer wedi dechrau gwneud defnydd o'r bysiau a phan aeth hi ato yn y gwanwyn gyda'i chais arferol am droliad o dail, yr ateb swta gafodd gan ei brawd oedd,

'Pam ddiawl na wnaiff yr hen foto-bys gythral na gachu i ti!'

Does wybod beth oedd adwaith y fonesig Mrs Hughes at ei brawd y diwrnod hwnnw. Ond un peth oedd yn sicr, mai dyfodiad 'yr hen foto-bys' oedd yn gyfrifol am ddirywiad a thranc y breciau, a'u gyrru am byth i ebargofiant. Biti!

Gwilym Morris Jones


**Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau**



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
**Sion Roberts ▸ 07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

**E. W. Pritchard**
*Trefnwyr Angladdau*
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

## Oes gennych chi eitemau lleol i'w rhoddi?

Mae Antur Waunfawr yn galw am gymorth trigolion i ddodrefnu byngalo gwyliau hygyrch gydag eitemau a hynafion lleol.

Mae'r Antur yn adeiladu'r byngalo hygyrch ar ei safle Bryn Pistyll yn Waunfawr, a bydd y byngalo yn rhoi'r cyfle i bobl ag anableddau a'u teuluoedd fwynhau gwyliau yng Ngogledd Cymru, tra'n aros mewn llety cyfforddus, ymarferol.

Bydd y byngalo pwrpasol yn cael ei ddodrefnu i safon bedair seren, wrth ddarparu nodweddion pwrpasol fel cegin addasol gydag unedau symudol ar gyfer defnyddwyr mewn cadair olwyn; ystafell wlyb hygyrch, ynghyd â thechnoleg ar gyfer datblygiad synhwyraidd, gan gynnwys offer sain a mat synhwyraidd.

Mae'r Antur hefyd yn gweithio gyda'r dylunydd tecstilau lleol, Cefyn Burgess, sy'n enwog am ei waith celf a dyluniadau o gapeli Cymreig, a bydd Cefyn yn darparu cyngor dylunio mewnol a chyflenwi ystod o ddodrefn meddal.

Dywedodd Menna Jones, prif weithredwraig yr Antur: "Rydym yn awyddus i greu teimlad cartrefol yn y byngalo gwyliau, gyda chysylltiad cryf â diwylliant a hunaniaeth yr ardal, fel bod ymwelwyr yn teimlo eu bod yn cael gwir 'blas' o Gymru, Eryri a Waunfawr".

"Oherwydd ein bod yn adeiladu ar hen safle Capel Bethel, byddem wrth ein bodd yn gallu cynnwys eitemau sy'n ymwneud â hanes yr ardal. Er enghraifft, mae gennym rai llestri 'Capel Bethel', a hoffem ychwanegu at y casgliad hwn, fel bod eitemau lleol yn cael eu harddangos yn y byngalo.

"Os oes gan unrhyw un awydd cyfrannu eitemau e.e. llyfr/llun/llestri sydd a chysylltiad a Waunfawr neu'r ardal leol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!"

Os oes gennych chi eitemau i'w rhoddi, anfonwch fanylion a lluniau at Carla yn yr Antur drwy e-bost i carla.esposito@anturwaunfawr.cymru neu postiwch i Antur Waunfawr, Bryn Pistyll, Waunfawr, Caernarfon, LL55 4BJ.

Rhai o'r eitemau mae'r Antur wedi'i gasglu yn barod ar gyfer y byngalo, sef llestri Capel Bethel, cadair Eisteddfod Waunfawr 1948, a chadair hynafol pren.



## Elusen yn dathlu llwyddiant cyfraddau ailgylchu Cymru

Gwarchod ein hamgylchedd yw un o brif amcanion Antur Waunfawr. Mae'r fenter gymdeithasol - a sefydlwyd ym 1984 i ddarparu gwaith ac hyfforddiant i unigolion ag anableddau dysgu - wedi'i gwirioni clywed bod Cymru bellach wedi cyrraedd yr ail safle ar draws y byd am ailgylchu gwastraff cartref.

Nod Antur yw cynyddu cyfraddau cyfranogi ailgylchu ac ailddefnyddio adnoddau, ac mae safle Caergylchu, a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, yn ailgylchu dros 300 tunnell o bapur ac yn trin dros 1000 tunnell o blastig bob blwyddyn.

Dywedodd Haydn Jones, rheolwr safle Caergylchu: "Rydym wrth ein bodd yn clywed bod Cymru yn yr ail safle ar draws y byd am ailgylchu gwastraff cartref. Yma yng Nghaergylchu, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau ein bod yn helpu Cymru i gyrraedd targedau o ailgylchu 70% o wastraff cartref erbyn 2020.

"Mae'n wych gallu chwarae rhan i wella ein hamgylchedd, a helpu i sicrhau dyfodol iach i'n planed."

Yn ogystal â'r ganolfan ailgylchu, mae Antur Waunfawr yn rhedeg siop ddodrefn Warws Werdd, sy'n gwerthu dodrefn a dillad ail-law, ac yn ailddefnyddio dros 150 tunnell o ddodrefn, dillad a sgrap bob blwyddyn.

Dywedodd Huw Davies, Dirprwy Brif Weithredwr yr Antur: "Yma yn yr Antur, rydym yn ceisio lleihau faint o wastraff y mae trigolion Gwynedd yn ei anfon i safleoedd tirlenwi, ac mae'n cyfleusterau ailddefnyddio yn casglu o drefi a phentrefi ledled Arfon a Dwyfor.

"Mae rhaglen deledu Blue Planet, er enghraifft, wedi dangos i ni pa mor bwysig yw ailgylchu, a bod angen gwneud llawer rhagor. Bydd Antur Waunfawr yn parhau i ddefnyddio ein harbenigedd yn y maes hwn i hyrwyddo ailgylchu ac ailddefnyddio."



*Ashlee a Kyle wrth eu gwaith yn y Warws Werdd, yn ail-gylchu dillad ail-law a lleihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.*




SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos

rhwng

7.00pm ac 11.00pm




WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS

SELSIG CARTRE

CIGOEDD PAROD I'W BWYTA

ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST

*MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!*

(01286) 673574

# Cyhoeddi cyflwynwyr newydd Dechrau Canu Dechrau Canmol




Bydd wynebau newydd a chyfarwydd yn dod ynghyd i gyflwyno un o gyfresi hynaf S4C ar ei newydd wedd nos Sul, 4 Chwefror ar S4C.

Mae'r gyfres grefyddol Dechrau Canu Dechrau Canu wedi bod yn rhan annatod o amserlen S4C ers 1989, ond o hyn ymlaen bydd pump cyflwynydd newydd yn ymuno âr rhaglen.

Yn eu plith mae cyflwynydd BBC News at Ten, Huw Edwards, a'r dyfarnwr rygbi Nigel Owens, sydd wedi dweud yn y gorffennol mai'r emyn 'Mor Fawr Wyt Ti' yw'r gân olaf mae'n gwrando arni cyn camu ar y cae.

Y cyflwynydd, Lisa Gwilym, yr actor a cherddor, Ryland Teifi, a'r cyflwynydd, Nia Roberts, sydd wedi cyflwyno'r gyfres yn y gorffennol, sy'n cwblhau'r rhestr.

Mae'r gyfres yn cynnwys canu mawl mewn amryw o leoliadau ar draws Cymru a chyfweliadau gyda phobl am eu ffydd a chredoau. Bydd rhaglenni arbennig yn ystod y flwyddyn yn nodi'r dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol ac achlysuron cenedlaethol.

Mi fydd rhaglen gynta'r gyfres yn dilyn y thema rygbi i gydfynd â Phencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018. Owain Arwel Hughes fydd yn arwain y canu cynulleidfaol sy'n dod o Eglwys Dewi Sant, Castell Nedd.

Bydd sgyrsiau gyda'r sylwebydd rygb,i Alun Wyn Bevan, ac arweinydd Côr y Gleision, Richard Vaughan, yn ogystal â chyfweliad gyda Manon a Gwenan Gravell, merched y diweddar Ray Gravell.

Meddai Amanda Rees, Cyfarwydd Creadigol Cynnwys S4C, "Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol yn un o gonglfeini gwasanaeth S4C ar nos Sul. Mae'n gyfle i ddathlu'r traddodiad mawl a chanu arbennig sy'n ein nodweddu ni fel gwlad, yn ogystal â chyfle i gael sgyrsiau difyr gydag amrywiaeth o bobl am eu profiadau ysbrydol a'r gwerthoedd moesol sy'n bwysig iddyn nhw. Mi fydd hi'n braf iawn cael gweld y cyflwynwyr newydd ar y sgrin ym mis Chwefror, gyda phob un ohonyn nhw'n cynnig rhywbeth gwahanol a chyffrous i'r gyfres."




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk


**Mae…**

Mae blaenau y tai yn wybren o sêr
pibonwy'n crogi o landeri'n las,
ar y talcenni, car llysg hen Ffadder
a'i geirw'n carlamu'r gofod ar ras…
Mae sŵn byddarol archfarchnad y dre
yn brifo'r clyw ond yn llwyddo â'u tric
Bing Crosby farw yn fyw dros y lle -
tollbyrth pres plastig yw 'eira' bob clic.
Ple 'leni engyl ddychrynodd y praidd?
Ple y bugeiliaid, eu cyffro a'u brys?
Ple heddiw'r doethion o'r dwyrain oedd braidd
yn betrus o Herod ffals yn ei lys?
Chwiliwn am hen stabal, seren a chrud
Saer a'i ddyweddi uwch Ceidwad y Byd.

Mae mewn "gynnau gwynion" rôl gaeaf du -
lili wen fach yn concro'r tri mis llwm,
mae ym mlagur cynnar y coedydd lu
fel ym mhranc yr oenig ar lethrau'r cwm.
Mae 'mhob sicrwydd tymor a chylch y rhod
a bywyd gwreng a bonedd yn eu tro,
Mae ym mhob gair caredig, mae yn bod
yn hwyl a 'thristwch' perthyn gwe y fro,
yn nyfnder nos neu ddwyster ambell awr
neu'r storm yn deffro hiraeth dan y fron…
ymdawelwn – rhag colli'r eiliad fawr,
ysbryd Crud y Crewr y foment hon…
pan ddaw adnabod drwy pob heth a'r drin
torri bara rhad – a'r gwefusiad gwin.

Norman Closs




**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug

**Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 21ain o Dachwedd 2017**

Polisi iaith y Cyngor

Derbyniwyd sylwadau ar y polisi iaith a penderfynwyd ei addasu fel yn briodol.

Penderfynwyd derbyn yr addasiadau fel a'i diwygiwyd ond oherwydd amser, gohirwyd addasu gweddill y polisi drafft hyd gyfarfod Rhagfyr.

Cais gan Eglwys Llanrug am gyfraniad tuag at dorri gwair ym mynwent yr Eglwys.

Adroddwyd fod cais wedi dod i law am gyfraniad gan y Cyngor Cymuned tuag at dorri gwair mewn rhan o fynwent yr Eglwys yn Llanrug.

Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth a chyfrannu £150 ar gyfer 2016-2017 a 2017-2018 sef cyfanswm o £300.

Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i aelodau Cynghorau Cymuned.

Adroddwyd fod yr adroddiad eisioes wedi ei ddosbarthu i'r aelodau ar gyfer sylwadau ac fe nodwyd y pwyntiau canlynol

a) Fod ffi o £150 y flwyddyn ar gyfer pob aelod etholedig ar y Cyngor yn golygu ychwanegu £2,100 ar braesept y Cyngor Cymuned.

b) Nodwyd fod y taliad yma yn cadarnhau ac yn cymryd i ystyried y gwaith a'r cyfrifoldeb ychwanegol sydd yn dod ar Gynghorwyr Cymunedol ac y byddai'r swm yma yn eu digolledu am gostau ffôn, costau argraffu inc ayyb, costau band llydan ynghyd a costau rhedeg car i gyflawni dyletswyddau lleol.

c) Nodwyd fod i ffioedd ar gyfer ad-dalu costau gwarchod er enghraifft yn ceisio gwneud hi'n haws i ddenu Cynghorwyr fyddai ym methu ymrwymo i fynychu cyfarfodydd oherwydd cyfrifoldebau gofal;

d) Nodwyd fod ffi o £500 i hyd at 5 aelod yn ormodol ar gyfer Cyngor Cymuned bychan ond yn cytuno o bosibl dylai'r ffi yma gael ei dalu i Gadeirydd y Cyngor

Penderfynwyd derbyn y sylwadau a'i pasio mlaen fel sylwadau ar gyfer yr ymgynghoriad.

Materion diogelwch Stadau Glan Moelyn a'r Hen Ysgol, Llanrug.

Derbyniwyd cwyn fod ceir yn gyrru ar hyd Ffordd Glan Moelyn a bod plant yn aml iawn yn chwarae rhwng y ddwy ystad a bod Cae Chwarae wedi'i leoli yno.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried beth ellir ei wneud i wella'r sefyllfa.

Y Fynwent.

Adroddwyd fod gwaith o drwsio'r wal ym mhen draw'r fynwent wedi ei gwblhau a bod y gwaith o dacluso'r llwybrau a thorri'r ochrau hefyd wedi ei wneud.

Ysgol Gynradd Llanrug

Mynegwyd pryder gan yr aelodau am geir yn parcio wrth fynedfa gefn yr Ysgol ac ei bod yn berygl pan mae ceir angen pasio yn y bore. Mynegwyd pryder pellach ar gyflymdra ceir yn gyrru ar y brif ffordd o flaen yr Ysgol.

Penderfynwyd tynnu sylw'r Llywodraethwyr at y problemau parcio yng nghefn yr Ysgol a fod y Cyngor yn cysylltu ac Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd i adrodd am y broblem o geir yn gôr yrru ar y Briffordd

Y Meysydd Chwarae.

Adroddwyd fod y broses o drosglwyddo'r meysydd chwarae yn mynd yn ei flaen a bydd yr holiadur cymunedol sydd wedi baratoi gan aelodau Cwm y Glo yn barod i'w ddosbarthu yn fuan.

Adroddiad blynyddol yr archwilwyr allanol

Adroddodd y Clerc ar drafferthion roedd wedi gael gyda'r Archwilwyr Allanol. Roedd anghysondebau yn y gwaith papur rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, diffyg cydnabod rhesymau ayyb. Adroddwyd ymhellach fod yr Archwiliwr Mewnol presennol yn ymddeol ond bod Cyngor Gwynedd yn fodlon gwneud y gwaith.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac i gysylltu a Chyngor Gwynedd i holi am brisiau.

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol

- Adeiladu estyniad i storfa ger Tyddyn y Graig, Cwm y Glo - Estyniad i storfa
- Gosod panel gwybodaeth ger Mynediad i Blas y Celyn, Ceunant,
- Dymchwel porth presennol a ffenestri gromen cefn, codi porth newydd, ffenestri gromen newydd i'r cefn a tho brig newydd uwchben y ffenestri llawr cyntaf - Eithin Duon, Cwm-y-glo,

**Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd a 19fed o Ragfyr 2017.**

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod difrod ar y llwybr lawr o Bwlch i Allt Goch, Cwm y Glo penderfynwyd cysylltu a'r contractwr a gofyn iddo ei glirio.

Caeau chwarae

Adroddwyd fod alodau o'r Cyngor wedi cyfarfod a Phil Hughes o elusen Backup, sef elusen sydd yn darparu cyfleon i bobl ifanc sydd mewn cadair olwyn. Adroddwyd ymhellach fod y Cyngor wedi ei ganmol ar ystyried anghenion pobl mewn cadair olwyn a bod y ddarpariaeth yng Nghae Chwarae Glan Moelyn yn ddigonol ond fod angen gwneud tipyn bach o waith fel llwybr i gadair olwyn yng Nghae Chwarae Nant y Glyn. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac i nodi yr hyn sydd ei angen fel gellir ei brisio.

Penderfynwyd derbyn y pris rhataf ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ar Barc Sglefrio Cwm y Glo, yn unol a'r hyn a adnabyddir ar yr asesiad risg ac awdurdodi'r Clerc i gysylltu a'r contractwr i wneud y gwaith.

Adroddiad y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau yng Nghyngor Gwynedd.

Cafwyd adroddiad ar weithgaredd y pwyllgorau mae'n aelod ohonynt tu fewn i'r Cyngor sef:

- Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- Pwyllgor Craffu Cymunedau – gyfrifol am Stadau, Priffyrdd, Ail-gylchu, gwastraff a Chynllunio a.y.b.
- Pwyllgor Cynllunio – Pwysig cael ymateb gan y Cynghorau Cymuned, gymaint o wybodaeth a phosib
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cŷd hefo Ynys Môn
- Panel Polisi Cynllunio ar y Cŷd hefo Ynys Môn

A thu allan i'r Cyngor:

- Bwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Bwrdd Llywodraethu Ysgol Cwm y Glo
- Bwrdd Llywodraethu Ysgol Brynrefail

Adroddodd hefyd ar gynlluniau i atal llifogydd yn Dolafon, Cwmyglo a thu allan i Bant Afon ac i uwchraddio'r llwybr troed o Cwmyglo i Lanrug a chreu llwybr aml-bwrpas o Bontrug i Lanrug.

Diolchwyd am ei adroddiad ac yn sgil y wybodaeth a ddarparwyd am y gwasanaeth Ieuenctid byddai'r Cyngor yn anfon llythyr at Gyngor Gwynedd yn cefnogi cadw Clwb Ieuenctid Llanrug yn agored a ffafrio Opsiwn 2 ar eu holiadur.

Cais Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i addasu cybiau cŵn presennol i 2 uned wyliau ond sicrhau fod amodau Dŵr Cymru yn cael eu cadw atynt - Llys Derwen, Llanrug.

Biniau Halen

Adroddwyd fod y Cyngor Cymuned wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb gan Gyngor Gwynedd o lenwi'r biniau halen. Roedd hyn yn deillio o weithgaredd brys bu'n rhaid i'w ymgymryd yn dilyn ceisiadau gan drigolion am halen yn y biniau. Nodwyd fod cyllideb wedi ei ddarparu ar gyfer hyn.

O ran yswiriant, nodwyd fod angen eu archwilio yn wythnosol gan naill ai aelod neu'r Clerc ac fod cofnod yn cael ei wneud o'r archwiliad. Yn unol ag argymhelliad y cwmni yswiriant, dylid rhoi sticer ar y biniau halen yn dweud pwy i gysylltu pan mae angen ei ail lenwi. Bydd y Clerc wedyn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt fynd i'w ail lenwi.

Apwyntio archwilwyr mewnol ar gyfer 2017 / 2018

Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu a tri mudiad ar gyfer darparu'r gwasanaeth yma. Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd i'w apwyntio fel archwilwyr mewnol y Cyngor.

Ffordd yr Orsaf, Llanrug

Adroddwyd fod yna gwynion am geir yn cael eu gyrru'n beryglys ar hyd Ffordd yr Orsaf Penderfynwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd a gofyn i rhywun ddod i fonitro'r sefyllfa.

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## *Cyngor Cymuned Llanberis*

COFNODION TACHWEDD 2017:
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Fercher, 15fed o Dachwedd, 2017 am 7.00 y.h.
CAE'R DDÔL, LLANBERIS:
Cafwyd cyflwyniad gan Dr Emma Edwards Jones ar ran Cyfeillion Cae'r Ddôl a ffurfiwyd i ddiogelu'r ddôl a gofalu amdani. Roedd y grŵp eisoes wedi derbyn nawdd oddi wrth Grow Wild i ofalu am fioamrywiaeth, rheoli'r cynefin a'i wella. Gwneir y gwaith mewn cydweithrediad â'r Parc Gwledig a Chyngor Gwynedd (CG), perchennog y tir. Yn ystod y tymor tyfu torrwyd llwybrau drwy'r tyfiant i hwyluso mynediad trwy'r safle ond heb ei ddifetha ac yna yn ddiweddarach torrwyd y borfa i gyd a'i symud er mwyn gostwng lefelau ffrwythlondeb y tir i'r blodau gwyllt ffynnu.
Yn awr er mwyn cael trigolion ac ymwelwyr i ddod i wybod am y safle a'i werthfawrogi yn well bwriedir codi arwyddion i dynnu sylw at gyfoeth naturiol y Ddôl. Yn barod trefnwyd nifer o weithgareddau gyda phlant a thrigolion i'w cynorthwyo i adnabod planhigion, adar ac ystlumod. Yr un criw fu hefyd yn addurno'r hen giosg ffôn ar y Stryd Fawr a'r gobaith yw trefnu gwaith cyffelyb yn y dyfodol. Mae bwriad hefyd i godi clawdd o bileri llechi ar y safle a cheisio cyfeirio ymwelwyr i rai mannau rhag difetha'r safle gan osod rhaff o gwmpas y mannau mwyaf sensitif.
Gofynnwyd am hawl i godi'r arwyddion a'r byrddau gwybodaeth bychan ar hyd terfynau Cae Chwarae Min y Llyn a chytunwyd i hynny. Wrth ddiolch i EEJ am ei chyflwyniad a'r gwaith ardderchog a wnaeth y Cyfeillion soniodd y Cadeirydd am Gronfa Mân Gymorthdaliadau'r Cyngor a bod unrhyw gais i'w gyflwyno erbyn y cyfarfod nesaf.
PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn: Olwen Gwilym, Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Bethan Holding, Aneuryn Jones, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones (Cynghorydd Sirol), Helen Sharp, Trystan Thomas. Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc). Ymddiheuriadau:. Nicola Brown, Gwilym Evans, Iwan Harding, Gwenda Roberts.
CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 25ain o Hydref, 2017 fel rhai cywir.
MATERION YN CODI O'R COFNODION:
1. Grŵp Datblygu Llanberis:
Adroddwyd mai yng ngardd Yr Heights y lleolir coeden Nadolig, Llanberis eleni gan gynnal y Ffair Nadolig o flaen Gwesty Padarn ar y 14eg o Ragfyr. Bydd yr orymdaith yn mynd o Caffi Pete's Eats i Westy Padarn.
2. Coed Nadolig:
Wedi eu harchebu. Y pris ychydig ychydig bunnoedd yn ddrutach na'r llynedd, a'r cludiant hanner yr hyn oedd oedd o yn 2016. Bydd goleuadau Nantperis a chanu carolau ar nos Sul, Rhagfyr 3ydd.
3. Cae UEFA:
Rhwydi newydd wedi eu harchebu.
4. Ffens Beryglus:
Dal i ddisgwyl ymateb.
5. Sul Y Cofio:
Adroddwyd bod y trefniadau wedi mynd yn iawn, diolch i HLJ a BH am gamu i'r adwy. Awgrymwyd y dylid gwneud cais i gau'r ffordd y flwyddyn nesa. Adroddwyd fod torch sbâr ar gyfer 2018.
6. Trafnidiaeth ag ati:
Darllenwyd y llythyr a anfonwyd at CG. Roedd cydnabyddiaeth o'i dderbyn wedi dod a'r gobaith yn awr ydi cyfarfod gyda swyddogion CG i drafod ymhellach.
7. Cae Chwarae Nantperis:
Roedd swyddog o CG wedi archwilio'r cae a derbyn bod angen trin y matiau rwber sy'n hynod llithrig.
8. Grid Gwartheg:
Y gwaith heb ei gwblhau eto yn unol a dymuniad CG.
MATERION ERAILL:
1. Camerau Cylch Cyfyng:
Dywedodd KMJ ei fod yn holi i weld a fyddai modd gosod camerâu mewn mannau yn Llanberis lle bu fandaliaeth yn ddiweddar. Holwyd a fyddai hynny yn dderbyniol gan y trigolion ond nad oedd drwg mewn holi a tybed a ddylid cynnal ymgynghoriad.
GOHEBIAETH:
1. Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru [NW Equestrian Off-road Access]:
Llythyr annelwig braidd yn holi am gefnogaeth y Cyngor i'r rhwydwaith llwybrau (meirch) o fewn y plwyf. Yn gefnogol bod angen cynnal ac o bosib gwella'r rhwydwaith, ond yn aneglur ynglŷn â sut mae'r grŵp yma yn bwriadu gweithredu.
2. Y Festri:
Llythyr i ddiolch am y gefnogaeth ddiweddar i gwblhau rhai cynlluniau yn Y Festri.
CYNLLUNIO:
Cyngor Gwynedd:
• C17/0933/15/LL - dymchwel adeiladau diwydiannol a chodi 2 estyniad i adeilad diwydiannol a newidiadau cysylltiedig i adeilad presennol ynghyd â chodi un adeilad ar wahân ar gyfer storio a phrosesu - DMM Engineering International, Ffatri y Glyn, Ystad Ddiwydiannol y Glyn, Llanberis - Dim sylw.
• C17/1025/15/LL - trosi capel St John Jones i ffurfio dwy annedd wyliau annibynnol - Capel St John Jones, 2 Stryd Charlotte, Llanberis - Dim sylw, ond pryder am brinder llefydd parcio a'r ffaith mai enwau Saesneg fydd ar yr unedau yma, e.e Lake House a Mountain House!
• C17/1053/15/LL - cais i newid amod 1 o ganiatad cynllunio rhif C12/1188/15/LL er mwyn ymestyn yr amser i ddechrau gwaith ar yr estyniad - 1 Waterfall View, Llanberis - Dim sylw.
LLWYBRAU A'R FYNWENT
a) Llwybrau:
Mae angen edrych ar gyflwr y llwybr a'r bont sy'n arwain at y Castell o Ffordd y Chwarel.
Cyfeiriwyd at y giât bren ar waelod y ffordd ger y toiledau a nodwyd nad oedd y giât binc/coch i'r cae Chwarae yn cau. Penderfynwyd adnewyddu'r giât i'r cae, roedd y Clerc wedi cael amcan-bris oddi wrth CG.
ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:
Grŵp Datblygu:
Roedd BH wedi mynychu 2 gyfarfod o'r Grŵp, ac wedi derbyn gopi o'i Gyfansoddiad/Cylch Gorchwyl.
Hwb Llanberis:
Cafwyd adroddiad gan HLJ o gyfarfod blynyddol Hwb ynghyd ag erthyglau'r cwmni, ond nid cyfansoddiad. Yn ôl yr adroddiad mynegwyd bod pryder am ddiffyg cysylltiad rhwng Hwb a'r Cyngor hwn. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i un o Gyfarwyddwyr y mudiad i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol. Atgoffwyd yr aelodau i'r Cyngor roi grant i Hwb y llynedd.
Dadorchuddio Coflech Wilbert Lloyd Roberts:
Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod i ddadorchuddio'r llechen i gofio Wilbert Lloyd Roberts yn Rhesdai Fictoria fod yn llwyddiant mawr. Roedd RhaG, IO a HS wedi cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod i gofio un o arloeswyr y Theatr Gymraeg fodern. Penderfynwyd anfon nodyn i ddiolch i Ken Jones am y trefniadau. Y Ganolfan a'r Cyngor hwn dalodd am y llechen a'r gwaith o'i gosod.



ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## *Cyngor Cymuned Llanddeiniolen*

Cofnodion Cyfarfod 7fed Tachwedd 2017
Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir.
Materion o'r cofnodion
Goryrru Dinorwig – Derbyniwyd ymateb gan adran priffyrdd, yn datgan fod cyfyngiad o 30 mya o Rhes Fictoria hyd at pen draw Dinorwig, ac felly nid oes posib gwneud dim. Gofynwyd i'r clerc yrru llythyr yn ôl yn datgan ei bod yn berygl ofnadwy o flaen Maes Eilian, a gyda cynifer o blant 20 – 25 sydd yn byw yno, oes posib cael twmpathau er mwyn arafu ceir i lawr yno.
Croesfan Brynrefail – Derbyniwyd ymateb i gais am groesfan gan yr adran briffyrdd. Barn yr adran briffyrdd ydy fod y ddadl yma wedi cael cryn sylw dros y blynyddoedd, ac nid ydy'r adran briffyrdd yn teimlo fod y sefyllfa ar y safle wedi newid. Ond, mae cyflymdra mae gyrrwyr yn mynd heibio y fan yn cynyddu, ac erbyn hyn mae yna lawer mwy o geir ar y ffordd, a hyn yn cynyddu yn flynyddol. Mae yna bryder yn ystod y gaeaf pan mae hi yn dechrau tywyllu, yn amser plant adref o'r ysgol. Mae yna bobl yn troi funud olaf hefyd am y Caban. Mae'r arwydd Y Caban yn rhy fach ac angen ei oleuo. Mae yna golau stryd hefyd sydd ddim cweit ar gongol y groesfan, ac efallai y buasai hynny yn gwella y sefyllfa yno. Llythyrru eto gyda'r pwyntiau yma.
Llwybr 69 Cefn Braich Rhiwlas – Mae preswylwyr ardal Rhiwlas yn ddiolchgar iawn fod y ffôs wedi ei agor ar y llwybr yma ac nid oes dŵr yn gorlifo ar y llwybr mwyach.
Gohebiaeth a materion eraill
LLechi Cymru, Safle Treftadaeth y Byd – Mae adran Economi a Chymuned y Cyngor Sir, wedi paratoi cais i Gronfa dreftadaeth y Loteri. Gyrrwyd llythyr o gefnogaeth ganddom i'r cais yma, gan obeithio y bydd llwyddiant i'r prosiect ac y gwelwn ddatblygiadau yn ein hardaloedd.
Cynllunio
Datblygiad 7 Ty ger Stâd Rhoslan.
Ddiwedd Tachwedd, penderfynodd pwyllgor cynllunio Gwynedd dderbyn y cais yma ac y safle gyferbyn a Cremlyn Bethel, a'r ddau safle wedi cael eu derbyn fel safleoedd yn y ffiniau newydd cynllunio. Mae yna bryder mawr ym Methel ynglyn a'r effaith o adeiladu tai ar y systemau dwr a carffosiaeth presennol. Pythefnos yn ôl, cafwyd llifogydd mawr a oedd yn esiampl eithafol, ac mae hyn yn cwestiynnu pam mae Dŵr Cymru yn cefnogi ceisiadau cynllunio mewn ardal ac ar dir lle mae problemau o'r fath.
Bellach, mae'r Cyngor Sir yn oedi a dal ar unrhyw geisiadau cynllunio ym Methel, hyd nes bydd Dŵr Cymru wedi cynnal arolwg llawn a'r cyngor wedi derbyn adroddiad cynhwysfawr o hynny. Gofynnwyd i'r clerc yrru llythyr cefnogol i'r Cyngor Sir.
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:
Llys Brynrefail – Estyniad Cefn ar gyfer Cwt Ci.
Parc Nant y Garth – Newid defnydd sied coedwigaeth a cwmpawnd i uned storio a chynnal a chadw ar swyddfeydd safle symudol ac unedau toiledau ynghyd a chreu mynedfa newydd.
Ty Mawr, Dinorwig – Estyniad Deulawr
Tir Ger Pant Sardis – Diwygio amod cynllunio 2 o ganiatad cynllunio gan symyd y compownd 2 fedr tua'r gorllewin o fewn yr un ffin safle er osgoi niwed i goed.
Cae Bach, Penisarwaun – Estyniad yn y cefn ynghyd a phorth newydd
6 Rhydfadog – Estyniad blaen
9. O Gwmpas y Bwrdd
Brynrefail – Nid oes toriad yn y tyfiant rhwng yr arwydd 30mya wedi bod ar y Lôn o'r Hen Ysgol i'r brifforddd. Y clerc i gysylltyu a adran llwybrau.
Rhiwlas – Mae dwr yn dal i redeg lawr yr allt heibio Ysgoldy. Cysylltu eto. Mae dail heb eu llnau ar balmentydd sydd yn beryg gan eu bod yn llithrig.
Penisarwaun – Paent ar y llinellau melyn wedi gwisgo ac mae pobl yn parcio eu ceir yno, sydd yn beryg bywyd pan mae plant yn mynd a dod o'r ysgol.
Deiniolen – Capel Ebeneser, Nid yw'r prynwr wedi llwyddo i godi'r arian i dalu am y capel, felly bydd cynlluniau ar dro gan aelodau'r capel unwaith eto.
Stryd Deiniol – Llain o dir ger bynglo Bro Deiniol wedi cael ei werthu yn breifat gan CCG. Pam na ddaeth y tir yma i sylw y cyhoedd. Llythyr i Ffrancon Williams.
Allt Ddu – Bws mini wedi ei barcio yno ers tua 2 fis a heb ei symyd wedi ei ddympio. Hyn yn creu rhwystr amgylcheddol ac yn creu cynsail i bethau eraill gael eu gadael yno ar ffordd gyhoeddus. Cysylltu a'r adran amgylcheddol i'w symyd oddi yno heb oedi.

## Er cof am ddirprwy Ysgol Brynrefail



Fis Rhagfyr 2017, yn 91 oed, bu farw Mrs Ciss Lloyd, athrawes Gwyddor Tŷ yn Ysgol Brynrefail o 1969-1983 ac yn ddirprwy brifathrawes yn ystod y chwe blynedd olaf cyn ymddeol. Bu'n weithgar ac yn ysbrydoledig yn ei phwnc ei hun ac yng ngweithgareddau'r ysgol yn gyffredinol. Cafodd ymddeoliad hir a hapus yn teithio'r byd, yn arlunio ac yn chwarae golff ym Mangor (lle bu ei gŵr, Harry Lloyd, yn is bennaeth yn y Coleg Normal). Cydymdeimlwn â Anna, ei hunig ferch, a'i gŵr Alan, y ddau yn byw ers blynyddoedd bellach yn Ffrainc.


RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU• PEN BLWYDD
BEDYDD• DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188



ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr





Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

## PENISARWAUN ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Llongyfarchiadau** i Elen Wyn Hughes (Ty'r Rardd, Waen, Penisarawaun) a Huw Dewi Williams (Llanfaethlu), sydd wedi ymgartrefu yn 9 Rhos Rug, Llanrug. Cariad mawr oddi wrth mam, dad a'r holl deulu. Pob hapusrwydd i chi'ch dau.

**Ysgol Gymuned Penisarwaun**

**Myfyrwyr** – Rydym yn falch o groesawu dwy fyfyrwraig o Brifysgol Bangor a fydd yn treulio cyfnod o ymarfer dysgu yn yr ysgol. Miss Ffion Eaton yn y Cyfnod Sylfaen a Miss Katie Midwinter yng nghyfnod allweddol 2.

Llongyfarchiadau i Branwen o BL5 am ei llwyddiant yng ngala Nofio'r Urdd a gynhaliwyd ym Mhwll Nofio Bangor dydd Sadwrn, Tachwedd 18fed. Daeth yn 1af yn y dull rhydd ac 2ail yn y pili pala. Bydd yn cystadlu yn y Gala Genedlaethol yng Nghaerdydd ar Ionawr 20fed. Pob lwc i ti Branwen.

Cafodd disgyblion yr Adran Iau fynd ar ymweliad â Gefail, yr Ynys yng Nghaernarfon yn ystod mis Tachwedd. Cawsant gyfle i weld Dylan Cadwaladr, y gof, wrth ei waith yn yr Efail yn ogystal â siapio llwyau arian gyda Miranda y gof arian. Cafodd pawb greu bachyn cotiau i'w roi ar y wal. Yn ogystal cafwyd gweithdy celf ddiddorol yn Noc Carn gyda Anthony yr artist. Cafwyd diwrnod buddiol iawn a phawb wedi mwynhau. Diolch i gronfa "Dewch i weld" gan Gyngor y Celfyddydau am y Nawdd i ariannu'r gweithdy hwn ac i Bethan Page am ei chymorth i wneud y cais.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ymweld ag ysgol Bethel yn ddiweddar i weld yr actor, Llion Williams, yn cyflwyno Sioe Ryngweithiol, Taith yr Iaith gan gwmni Mewn Cymeriad. Sioe oedd hon i hyrwyddo hanes yr Iaith a'n hunaniaeth ni fel Cymry. Cafwyd prynhawn pleserus iawn.

Diolch i'r ymwelwyr a fu yn yr ysgol yn ystod y misoedd diwethaf. Croesawyd Catrin Hampton a Susan Williams yma i gynnal gwasanaeth ar ran cynllun Efe. Daeth Catrin Hampton yn ôl yma gyda'r Parchedig Carol Roberts i gyflwyno Sioe Bypedau i baratoi am y Nadolig. Diolch yn fawr iddynt.

Yn ogystal daeth Sara Burman i'r ysgol yn ystod wythnos Gwrthfwlio i gynnal gweithdy gyda'r disgyblion. Diolch iddi am ei chyfraniad.

Croesawyd Gwenda o'r Archifdy i'r Cyfnod Sylfaen bore dydd Mawrth, Ionawr 16eg. Bu'n brysur yn arddangos teganau oedd plant yn chwarae gyda hwy ers talwm. Roedd y plant i gyd wrth eu boddau yn gwrando ar ei chyflwyniad. Diolch yn fawr iddi.

Braf oedd cael croesawu PC Dylan yma fore Gwener, Ionawr 26ain. Bu'n sgwrsio gyda phlant y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â chyflwyno diogelwch y We i Bl 3 a 4 a sgwrs am Ymddygiad gyda Bl 5 a 6. Diolch iddo am ei ymweliadau cyson a'r ysgol.

**Diolch i gwmni Santander am eu rhodd o £2,500 i gronfa Cyfeillion yr Ysgol yn dilyn yr Ocsiwn Addewidion a gynhaliwyd ym mis Mai. Cafodd dau ddisgybl gyfle i fynychu'r banc yng Nghaernarfon i dderbyn y siec ar ddiwrnod ail-agor y banc ar ei newydd wedd. Diolch yn fawr.**

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

**Pêl Bonws Loteri** - Enillydd Mis Rhagfyr oedd Carolyn Jones, Rhif 34. Llongyfarchiadau. Diolch i bawb am gefnogi'r bêl bonws yn ystod 2017. Pob lwc i bawb yn 2017!

**Llongyfarchiadau** – i Tania Jones, 16 Bryn Tirion ac Alun o Trefor ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob lwc iddynt yn y dyfodol. Erbyn hyn mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Nhrefor a gobeithiwn y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

**Gwellhad** – Dymunwn wellhad buan i Gwenda, 11 Bryn Tirion, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd, ac i bawb sydd ddim wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar.

**Cyfarchion** Gan na chynhwyswyd newyddion y pentref yn y rhifyn diwethaf, dymunir Blwyddyn Newydd Dda i bawb a dymuna Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, flwyddyn fendithiol i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

**Ysgol Sul Bosra** Dymunir diolch i Ffiona am wneud y trefniadau i'r plant gael ymweld â Groto Siôn Corn fore Sul, Rhagfyr 10fed. Braf oedd cael croesawu dau aelod newydd atom, sef Ioan a Nedw, y ddau mor ifanc ac wedi setlo i lawr yn barod gyda'u brodyr a chwiorydd hŷn. Dymuna Anti Ann ac Anti Liz ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned** Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr yw Nel Gweneth Parry, Tawelfa a Stevan Walker, Brynrefail.

Dymunir atgoffa'r aelodau ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth i Mr Leslie Larsen. Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno am £6 y flwyddyn neu drwy Archeb Banc. Y mae'r Clwb Cant yn hwb at reoli'r Neuadd Gymuned.

Nos Fawrth, Ionawr 23ain cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol pryd y darllenwyd y cofnodion a'u cael yn gywir a derbyniwyd adroddiad trylwyr gan y Trysorydd.

**Cydymdeimlwyd** â Delyth a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Eirian, chwaer annwyl Delyth.

Ein cydymdeimlad hefyd â David Philips a'r teulu o golli mam David.

Anfonir ein cydymdeimlad hefyd at deulu Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, o golli mab yng nghyfraith a brawd yng nghyfraith, sef Alun, gŵr annwyl Olwen a thad balch Caryl.

Cynhelir pnawn i ddathlu Gŵyl Ddewi ar ddydd Iau, Mawrth 1af, gyda eitemau gan blant yr Ysgol ac aelodau'r Pwyllgor. Cynhelir Pwyllgor i drefnu'r gweithgaredd nos Fawrth, Chwefror 20fed am 7.00 o'r gloch yn yr Ystafell Gymuned.

**Priodas Aur** Llongyfarchiadau i Dafydd a Helen Owen, Brynhyfryd, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Chwefror 17. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

Diolch Dymuna Ann Ifans, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn, y blodau a'r anrhegion a dderbyniodd yn dilyn triniaeth i'w phen-glin yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.


**Eisteddfod Bentref** Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar nos Fercher, Gorffennaf 11eg, yn y Neuadd Gymuned am 6.00.

Trefnir 'Bingo Pasg' nos Iau, Mawrth 22ain, yn y Neuadd Gymuned am 6.30yh. Hyderir y ceir cefnogaeth gref gan bod yr Eisteddfod angen arian ar gyfer y gwobrau a rhedeg yr Eisteddfod. Byddwn yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniadau. Cynhelir Pwyllgor nos Fawrth, Chwefror 20fed am 7.30.





Premier
Y Storfa Premier Llanrug
Sgwar Llanrug
01286-673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost
Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm



# Ar ben arall i'r lein

Wel dyma ni – blwyddyn newydd arall a minnau newydd dychwelyd o gyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn Neuadd Reichel, Bangor (18 Ionawr) 'Roeddynt i benderfynu cymeradwyo rheolau i atal cadw at y badell unrhyw eog a fyddai yn cael ei ddal â genwair ar holl Afonydd Cymru o hyn ymlaen. Dilyniant oedd hyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben yn ystod Tachwedd 2017, a mawr fu'r disgwyl am be fuasai'r penderfyniad terfynol.

Yn bersonol ni allaf ymddiried o gwbwl mewn unrhyw wahoddiad gan Cyfoeth naturiol Cymru na'i ragflaenwyr i unrhyw ymgynghoriad, gan fy mod i a channoedd eraill wedi ymateb i bob ymgynghoriad er 1979 a wyddoch chi be – does dim sylw o gwbwl wedi ei roi i unrhyw bwynt neu farn sydd wedi ei roi ymlaen. Eu penderfyniad ar bob mater oedd cadarnhau eu cynigion gwreiddiol. Felly erbyn hyn 'rydych wedi dyfalu be gadarnhawyd – well ia, wrth gwrs, cadarnhau y cynigion gwreiddiol.

Dwi 'di bod mewn llu o gyfarfodydd dros y blynyddoedd ac mewn gwirionedd dyma'r un mwyaf trychinebus imi fod yn dyst iddo erioed. Yn dilyn cyflwyniad swyddog pysgodfeydd CNC, Peter Gough, ychydig iawn o drafod a ddilynodd na dim llawer o'i groes-holi chwaith, ond i fod yn deg mi ofynnodd tri aelod i'r penderfyniad gael ei ohirio er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol am ey cynigion at waith i geisio gwella sefyllfa'r eog. Dyna fuasai'r peth synhwyrol i'w wneud, ond na, rhoi'r drol o flaen y ceffyl a wnaed. Felly yr unig obaith i gael unrhyw synnwyr pellach ar y mater yma fydd i'r llywodraeth yng Nghaerdydd weithredu, gan mai yn y fan honno y bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud. Peidiwch â dal eich gwynt.

Un peth ddaeth allan yn glir oedd fod CNC yn hollol ymwybodol o'r diffyg ymddiried sydd gan y cyhoedd ynddynt fel corff. Yn ôl y ffigyrau sydd ar gael mi werthwyd 55,900 o drwyddedau pysgota yng Nghymru ddwy flynedd yn ôl. Roedd 5,700 o rhain yn drwyddedau pysgota am eog neu frithyll môr, a dyna chi, bydd miloedd mwy yn meddwl fod y criw yma yn da i ddim.

Ar ddiwedd y cyfarfod 'roeddwn yn crafu fy mhen ac yn dweud wrthyf fy hun 'Ai yma ym Mangor ydw i, ta yng nghanol Llundain?' Ni chlywais air o Gymraeg drwy'r perfformans i gyd. Pawb o'r bwrdd yn defnyddio'r iaith fain er bod cyfieithydd ar gael. Mae rhywbeth mawr o'i le yn ein cyrff statudol pan mae sefyllfa fel hyn yn cael ei chaniatau.

A tra dwi ar ben yr hen geffyl yna, faint sy'n cofio'r stŵr a grewyd yn dilyn y cynigion i gau deorfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ymgynghoriad arall a dim sylw o gwbwl wedi ei roi i sylwadau'r cyhoedd. Dim eu hangen, stocio yn gwneud niwed i'r amgylchedd a'r straen naturiol, tydi'r straen naturiol ddim yn goroesi cyn gystal â physgod wedi eu magu yn y gwyllt. Felly caewyd deorfa lewyrchus yn Nolgellau. Mi fuom yn y fan honno nifer o weithiau yn gweld y cynllun o wella nifer o gregyn gleision dŵr croyw yn rhai afonydd lleol. Ond cau pob dim fu raid, mae'n siŵr fod tair blynedd ers hynny erbyn hyn. Yn yr wythnosau diwethaf be sydd wedi bod a'r teledu ar radio - CNC yn rhedeg cynllun chwyldroadol i fagu grawn y creaduriaid yma yn eu deorfa yn Cynrig, Aberhonddu. I ble mae'r grawn yma i'w rhyddhau – Afonydd Conwy a'r



*Dr Robin Parry gyda rhai o ddisgyblion Ysgol Dolbadarn a fydd yn gofalu am wyau'r torgoch.*

Mawddach!! Yn union fel sy'n digwydd gyda'r torgoch. Cludo'r grawn o Lanberis i Cynrig a wedyn dod a'r pysgod yn ôl a'u gollwng i'r llyn. Pwy goblyn sy'n rheoli gwariant y criw yma tybed?

'Rydym fel Cymdeithas wedi bod yn erfyn ers rhai blynyddoedd i'r gwaith yma gael ei gynnal yn ein deorfa yn Crawia, ond na dim ots am y diddordeb a'r ewyllys da fuasai hynny yn ei gael yn lleol. Tyst i hyn yw diddordeb Ysgol Dolbadarn yn magwraeth y torgoch. Yr un diwrnod ag yr oeddwn i ym Mangor fe aeth Dr. Robin Parry yr holl ffordd i'r Cynrig i gasglu peth o'r grawn aeddfed a'i gludo i'w dyfu 'mlaen yn ysgol y pentref. Cysidrwch y diddordeb pe buasai hyn yn digwydd i gyd yn lleol. A hefyd marc da i godi hyder y cyhoedd yng waith CNC.

Beth sydd ar y gweill i'r tymor newydd? Fel arfer mi fydda i allan ar y Finog ar y diwrnod cyntaf, sef 3 o Fawrth, os bydd hi wedi cynhesu rhyw ychydig, yna at ganol y dydd efallai bydd rhyw frithyll neu ddau i'w gael. Tymor 2017 fu dim llawer o lwc ond dyma sydd yn fy nyddiadur am y diwrnod agoriadol yn 2016 – "3 Mawrth Diwrnod cyntaf ar yr afon. Y Finiog am 1.15. Erbyn 2.30 - tri brithyll – diwrnod cyntaf gorau erioed" A wedyn ar 18 Mawrth " Corbats mwyaf ofnadwy yn deori i lawr y Finiog, pysgod yn lloerig. Pluen lwyddiannus Gili Gough". Pluen mwyaf syml o gorff ac adain o gynffon paun.

Diwrnod arall i'w nodi yw 20 Mawrth pan fydd y llynnoedd heblaw Dywarchen yn agor. Gobeithio y bydd Padarn yn dod ato'i hun, gan fod arwyddion o hyn at ddiwedd 2017. Dydw i heb gyffwrdd y lle ers rhai blynyddoedd, wedi torri fy nghalon o bosib o weld be oedd wedi digwydd yno, ond dwi di addo y byddaf yn rhoi tro am y torgoch eleni. Efallai mai yna y byddaf os na fydd rhyw wyrth a CNC yn newid y rheol o ddim cadw samons.

Cyffyrddais yn rhifyn y Nadolig fod y rhwydi torgoch i lawr yn Afon y Bala. Cefais wybodaeth gan Walter Hanks o'r CNC fod dros 5,000 o wyau (ychydig o rhain sydd nawr yn Ysgol Dolbadarn) wedi eu casglu mewn ychydig o amser. Cefais luniau o rai o'r torgoch, a sylwi bod yr asgell bach yn agos i'r gynffon yn absennol. Hyn yn dangos mai pysgod wedi eu stocio ydynt. O leiaf maent yn goroesi yno rŵan, ond beth am y pysgod gwyllt, gobeithio y bydd hyn yn cael tro am y gorau eleni gan fod gwaith ar wneud Afon y Bala unwaith eto yn addas i'r torgoch fwrw gra3wn yn dechrau yn ystod Mai eleni.

Wel dyna ddigon am y tro – neu mi fydda i'n crafu am rywbeth i'w ddweud mis nesaf.



*Wyau Torgoch yn neorfa Cynrig ar eu ffordd i Ysgol Dolbadarn.*



*Wyau mewn llaw!!*

# Chwaraeon

## RHWYG YMYSG Y MERCHED

Mae rhai ohonoch wedi sylwi nad oes gemau cynghreiriol pel-droed i ferched yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mae hyn yn deillio o anghydfod rhwng Cynghrair Merched Gogledd Cymru a C.P.D.Cymru. Mae'r sefyllfa'n ddiflas oherwydd, i glwb fel Bethel sy'n cynnal tri thim, nid yw unrhyw un o'r timau yn cael chwarae nes ceir datrys y rhwyg feiddgar yma. Asgwrn y gynnen yw cais gan glwb y Rhyl i roddi tim Datblygu ( math o ail dim) yng Nghynghrair y Gogledd. Mae eu tim cyntaf yn chwarae yn y Gynghrair Genedlaethol. Mae'n ymddangos fod Cadeirydd Cynghrair y Gogledd wedi gwneud penderfyniad unigol - heb drafodaeth gyda'r clybiau - i wrthod cais y Rhyl. Ei ddadl yw fod tim cyntaf y Rhyl yn rhan isaf y Gynghrair Genedlaethol, ac OS buasent yn disgyn yna buasai gan y Rhyl ddau dim yn yr un adran - sefyllfa anfoddhaol fel y buasai unrhyw un yn cytuno. Ond, mae nifer yn anfodlon fod y rhwyg wedi dod o ddamcaniaeth y BUASAI Rhyl yn disgyn. Nid yw hyn yn sail digon cadarn i wneud y fath benderfyniad meddai'r clybiau. Yn dilyn penderfyniad y Cadeirydd, mae'r Gymdeithas Bel-droed wedi gwahardd pob gêm gan glybiau sy'n aelodau o gynghrair y Gogledd. Mae Cadeirydd y Gogledd - yr un mor styfnig - yn bygwth torri cysylltiad a C.P.D. Cymru a chwilio am Gymdeithas arall i ymuno â hi. Nid oes eisiau fawr o ddychymyg i awgrymu mai tua'r dwyrain y buasai'r cyswllt hwnnw. Yn amlwg, mae'r clybiau yn anniddig - Bethel yn eu plith. Mae Bethel wedi ysgrifennu at Gynghrair y Gogledd yn ceisio eglurdhad o'r sefyllfa. Cadarnhaodd siaradwr ar ran Clwb Bethel wrthyf fod eu llythyr yn cynnwys cwestiynau penodol. Rwyf ar ddeall nad yw clwb Bethel - a sawl clwb arall - yn hapus â'r atebion.

Mae rhai o'r clybiau 'mawr' - Airbus, Bala, Bangor - yn poeni y gallasent golli yn ariannol gan eu bod yn derbyn arian gan G.P.D. Cymru ar sail eu hymroddiad i adain pel-droed merched tu fewn i strwythr eu clybiau.

Mae amseriad y rhwyg yn anffodus, gan fod twf aruthrol yn y niferoedd o ferched sydd wedi ymuno â'r clybiau wedi llwyddiannau timau merched Cymru yn ddiweddar - heb golli yng ngemau grwp Cwpan y Byd hyd yma.

Gobeithio y gellir dwyn y maen i'r wal yn gyflym a bydd cytgord yn ailfodoli.Cynghrair Gymreig dan reolaeth Gymreig yn sicr yw'r teimlad a gefais i o ymchwilio'r stori hon.

## DECHRAU DA I GENOD DRE



Mae Clwb Hoci Merched Caernarfon wedi gweld dechrau da i'r flwyddyn newydd gyda dwy fuddugoliaeth arall.

Daeth y diweddaraf yn erbyn Bae Colwyn gyda chornel gosb ar y chwiban olaf yn rhoi cyfle i genod Caernarfon osgoi gem gyfartal. Diolch i goliau gan Ceri Welsh, Lois Welsh a Chwaraewr y Gêm, Manon Lloyd Williams, mae'r merched yn parhau ar frig tabl ail adran Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru gyda sgôr o 3-2 ar Ionawr 20fed.

Mae'r fuddugoliaeth yn dilyn un arall yn erbyn Porthmadog (2-0) ar Ionawr 13eg sy'n gwneud y gêm ddiweddaraf eu 7fed buddugoliaeth yn olynol.

Bydd y gêm nesaf yn erbyn tîm cyntaf Prifysgol Bangor ddydd Sadwrn, 27 Ionawr yng Nghanolfan Brailsford, Bangor.

## DWEUD EICH DWEUD AM CHWARAEON ANABLEDD YNG NGWYNEDD

Mae Cyngor Gwynedd yn holi barn y cyhoedd am ei ddarpariaeth o chwaraeon anabledd ar draws y sir.

Y bwriad ydi edrych ar sut mae pobl anabl yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol ac i adnabod a cheisio datrys unrhyw rwystrau sy'n eu hwynebu.

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda sefydliad Chwaraeon Anabledd Cymru er mwyn sicrhau bod digon o gyfleoedd i bobl anabl, ac mae yna dros 600 o ddefnyddwyr anabl wedi cofrestru gyda chlybiau chwaraeon yng Ngwynedd.

Meddai'r Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar Hamdden:

"Fel Cyngor, rydan ni'n awyddus i sicrhau ein bod yn cynnig gweithgareddau corfforol addas ar gyfer pobl anabl. Mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn rhoi cyfleoedd arbennig i ddatblygu sgiliau, i ennill hyder ac yn ffordd arbennig o gadw'n iach.

"Mae Gwynedd yn cynnal mwy o sesiynau fel Boccia a 'Therapi Adlam' na'r un sir arall yng Nghymru. Serch hynny, mae angen i ni fel Cyngor fod yn ymwybodol o unrhyw rwystrau a sicrhau fod mynediad i chwaraeon ar gael i bawb sydd yn dymuno cymryd rhan.


"Drwy gynnal yr ymgynghoriad i ddarpariaeth chwaraeon anabledd, gallwn sicrhau ein bod yn cynllunio darpariaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Rydym felly yn gobeithio cael gymaint o ymatebion ag sy'n bosib ac yn annog pawb sy'n ystyried eu hunain yn berson anabl i ddweud ei dweud drwy lenwi'r holiadur."

Mae'r holiadur ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/chwaraeonanabledd neu mae copïau papur ar gael yng nghanolfannau hamdden a'r llyfrgelloedd y Cyngor.

Os ydych eisiau'r holiadur yma mewn fformat neu iaith wahanol mae croeso i chi gysylltu gyda Marcus Politis, Swyddog Datblygu Chwaraeon ar gyfer Pobl Anabl i Gyngor Gwynedd ar e-bost: marcuspolitis@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 07766 505320.

Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 23 Chwefror 2018

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr



## RHEDEG MYNYDD

Fu fawr o rasys mynydd dros y Nadolig nac wythnosau cyntaf Ionawr, ac y mae Ras Moel-y-ci, sy'n arfer cael ei rhedeg ym mis Chwefror, wedi ei gohirio eleni oherwydd trafferthion ynglŷn â dyfodol y fferm.

Ond bu'n dymor rhedeg traws-gwlad llwyddiannus i nifer o'r rhedwyr lleol, yn enwedig y merched. Mae Bronwen Jenkinson (Waunfawr) yn parhau gyda'i gyrfa rhedeg llwyddiannus, gan gipio Medal Efydd i ferched dan 23 oed ym Mhencampwriaeth Traws-Gwlad Prydain a gynhaliwyd yn Antrim, a chynorthwyo tim merched Cymru i gipio'r Fedal Arian.

Yn nes adra, daeth llwyddiant i ddwy leol arall ym Mhencampwriaeth Traws-Gwlad Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar gwrs trwm ar gaeau Y Rug ger Corwen, a hynny wedi iddynt gael eu gohirio unwaith oherwydd tywydd garw. Yn y ras agored, cipiodd Miranda Grant (Llanberis) y fedal arian, ac yn y ras i ferched dros 70 oed, daeth medal arian i Maggie Oliver (Dinorwig). Arwel Lewis (Bethel) oedd dyfarnwr y cwrs.

# BALCHDER BRO?

Gwahoddwyd dau o swyddogion Adran Hamdden Cyngor Gwynedd – Ken Jones ac Iwan Williams – i annerch cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen mis Ionawr. Testun y drafodaeth oedd dylanwad y 'toriadau' ar y lleiniau tir sy'n mherchnogaeth y Cyngor Sir yn ein pentrefi – yn benodol y caeau chwarae.

Ar y cychwyn nodwyd mae y caeau chwarae oedd dan sylw nid y rhannau a gyfeirir atom ar lafar yn 'gae swings'. Dyma, gyda llaw ran gostus iawn i'w chyflawni. Gyda rheolau llym Iechyd a Diogelwch mae'r costau wedi cynyddu'n sylweddol. Hefyd mae uwchraddio neu bwrcasu elfennau newydd yn gostus iawn – yn y miloedd er ffaith.

Yn benodol trafodwyd sefyllfa Y Bwthyn yn Neiniolen. Ar hyn o bryd y Cyngor Sir sy'n gyfrifol am gyflwr y cae a'r Stafelloedd Newid. Mae'r ddau yn adnodd bwysig i'r pentref, a'r cae wedi tystio i gryn lwyddiannau cymdeithasol a chwaraeon dros y blynyddoedd.

Y neges gan y swyddogion oedd y bydd llai o wariant ar gynnal y cae a'r adeilad. Ni fydd y gwair yn cael ei dorri mor aml, na'r muriau yn gweld côt o baent. Yr awgrym felly yw fod angen mwy o 'warchodaeth lleol', os yw'r safonnau i'w cynnal. Yn amlwg, roedd y Cyngor Cymuned yn awyddus i gynorthwyo. Yr un gwendid oedd er y gallai'r Cyngor gyfrannu yn ariannol ni allai drwy ddeddf wneud cais am grantiau oddi wrth fudiadau fel Cist Gwynedd, Sportslot neu'r Loteri. I ateb hyn, y cam priodol fuasai sefydlu Pwyllgor Cae Chwarae fuasai'n cwmpasu sawl elfen o fywyd cymdeithasol Deiniolen – e.e. Y Carnifal, clwb Pêl-droed, Yr Ysgol ayyb. Gallai pwyllgor o'r fath wneud cais am grantiau, a buasai'r swyddogion yn gefn iddynt yn eu ceisiadau. Heb ddatblygiad o gyfrifoldeb, y bwgan fuasai i'r adnodd symud o fod yn gyfrifoldeb yr adran Hamdden i adran arall – a phwy a ŵyr beth fuasai'r effaith hynny ar ddatblygiad y llain tir. Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Cyng. Elfed Williams yn barod i rannu gwybodaeth â'r gwahanol gymdeithasau. Gobeithio bydd ymateb cadarnhaol fel y cedwir Y Bwthyn fel adnodd bwysig i yfory Deiniolen.


AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche
BOSCH Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.
Car Service
For everything your car needs.
Which? Trusted trader
01286 673559
MOT TESTING STATION
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk


# A'I GIGGS YW'R ATEB?

Dyna'r cwestiwn mawr wedi apwyntiad cyn-seren Man U yn reolwr Cymru. Rwyf yn llunio'r erthygl cyn i Giggs ddatgelu pwy fydd ei gymorthyddion yn y fenter o gynnal momentwm Cymru, a foddodd wrth y lan wrth geisio cyrraedd Rwsia. Mae rhai yn dweud mai dewis gwael ydy Giggs oherwydd ei amharodrwydd i chwarae mewn nifer o gemau 'cyfeillgar'. Amau ei deyrngarwch. A hyn gan unigolyn â ddewisodd gynhyrchioli y Gymru anffasiynol o flaen cyfleuon llachar Lloegr. O ddilyn y cyfryngau torfol mae'n ymddangos fod y derbyn/gwrthod ymysg dilynwyr Cymru yn dibynnu os ydynt yn gefnogwyr Man U neu beidio. Eraill yn dweud ei fod y dewis perffaith i feithrin y doniau ifanc sydd yn britho carfan Cymru bellach. Gobeithiwn hynny, ond talcen caled fydd hi gyda'r chwarewyr ifanc yma yn methu cael gemau ym mhrif dimau eu clybiau. Eisioes gwelsom Gethin Jones yn gadael Everton i Fleetwood oherwydd y rheswm yma.

Yn bersonol, gyda cysylltiadau cyfryngol yn ran anhebgor o'r swydd bellach teimlaf fod Giggs yn ddewis doeth. Un parod ei farn ac o natur benderfynol. Mae wedi cyfaddef mai ar ganlyniadau y tim y dylsit ei farnu. Un gobaith gyffredinol yw bod Giggs yn cynnal y cyswllt a chyfnod Coleman drwy gadw Osian Roberts wrth ei ochr. Mae Osian wedi hen ennill ei blwyf ac yn ennyn parch y chwaraewyr. Mae'r elfen o Gymro Cymraeg hefyd yn bwysig. Mae si bod Giggs yn chwenych ei gyn gyd-chwaraewr Paul Scholes i'w gynorthwyo. Un cystadleuol arall. Oes lle i Giggs, Roberts a Scholes? Amser a ddengys. Bydd cryn arsylwi ar berfformiad Giggs yn ogystal â'i dim yng Nghwpan China ym mis Mawrth.

# POTIO DERBYNIOL

Dyna fu hanes clwb snwcer Bethel eleni yng Nghyngrair Bangor a'r Cylch. Cawsant ddechrau da cyn i'r tymor ddechrau. O dderbyn grant llwyddwyd i brynu bwrdd newydd ac uwchraddio yr ail fwrdd. Gwelwyd cynnydd yn yr aelodaeth a phenderfynwyd ffurfio ail dim sef y Bethel Bees. A bu y Bees yn llwyddiannus yn pigo pwyntiau gwerthfawr o'u gemau cynghreiriol.

Penderfynodd pwyllgor y gynghrair rannu y 12 tim yn ddwy adran o 6 tim. Ar sail eu perfformiadau bydd y newydd ddyfodiad – Y Bees – yn hawlio eu lle yn Adran 1 a'r Bethel Reds yn adran 2.

Yn amlwg mae cryn ddiddordeb draw yn y clwb a gyda diddordeb yr ifanc yn cynyddu gobeithio bydd hyn yn sylfaen gadarn i ddatblygiad y clwb yn y tymhorau i ddilyn.




# Chwaraeon

## Ras Calan



## CHIRK A.A.A. LLANRUG A*

Bu cryn edrych ymlaen i'r gêm bumed rownd o Dlws C.P.D. Cymru rhwng Llanrug a Chirk A.A.A. Ail chwarae y gêm gofiadwy ddau dymor yn ôl pan gipiodd Llanrug y tlws draw ar y Belle Vue. Roedd y gêm honno yn glasur o bêl-droed safonol iawn yn llawn tensiwn a digon o ddigwyddiadau flaen gôl. Oedd, roedd digon o densiwn a digwyddiadau yn y gêm gyfredol ond mewn ysbryd hollol wahanol.

Yr oedd yn amlwg fod y Waun wedi penderfynnu ar agwedd ymosodol, gorfforol a brithwyd y gêm gan sawl tacl mileinig ac ambell ddigwyddiad 'oddi ar y bêl'. Mae'n amlwg fod gemau cylch Wrecsam tipyn mwy swnllyd a bygythiol eu natur na ni hogia'r gorllewin. Rhaid canmol Llanrug am y ffordd y cadwyd hunan ddisgyblaeth mewn awyrgylch mor danllyd.

Aeth y Waun ar y blaen drwy gôl Louis Middlehurst. Yn ôl daeth Llanrug a Jason Sadler yn unioni'r sgôr gyda chic o'r smotyn. Roedd yn amlwg i'r dorf o 150 fod brwydr gorfforol yn datblygu. Gyda chwarter awr i fynd aeth Llanrug ar y blaen gyda pheniad Llion Jones. Yna, cywasgwyd digwyddiadau di-ri i'r chwarter awr olaf. Bu cryn alw ar i'r dyfarnwr fod yn gryf ei bendyrfyniadau. Cynyddu wnaeth agwedd fygythiol y Waun a danfonwyd dau o'u chwaraewyr o'r maes. 11 yn erbyn 9! Ond, rhywsut brwydrodd Y Waun yn ôl, ac mewn ymosodiad prin rhwydodd Middlehurst ei ail gôl. 2-2. Amser ychwanegol ac er eu mantais, ni lwyddodd Llanrug i gipio'r gôl dyngedfenol. Ciciau o'r smotyn felly.

Arbedodd Dylan Roberts , gôl –geidwad Llanrug y ddwy gic gyntaf. Da iddo ail ymuno â Llanrug yn ddiweddar. Roedd cymerwyr ciciau Llanrug yn gywir eu anal, ac felly yn ennill o 4-2 ar giciau o'r smotyn.




Tipyn o fuddugoliaeth yn cadw rhediad di-golli Llanrug ymlaen. Byddant yn ymuno a thri tim arall o'r un gynghrair a nhw yn yr het – Conwy, Llangefni a Greenfield. A gem gartref fydd yn wynebu Llanrug eto yn rownd yr wyth olaf, sef tim y Maesglas o ardal Treffynnon.

(Gyda diolch i Richard Birch am y llun)

Un cwestiwn cwis i orffen. Pa glwb sydd wedi cyfrannu y rhif uchaf o chwaraewyr rhyngwladol ar y lefel uchaf i Gymru? Yr ateb , Y Waun. Eu prif chwaraewr wrth gwrs oedd seren gyntaf pêl-droed Cymru – Billy Meredith.